TRAWSNEWID ADDYSG | TRANSFORMING EDUCATION





# Newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen

Adroddiad Ymgynghori

Powys

**Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth**

## Cynnwys


**1. TROSOLWG AR YR YMGYNGHORIAD .......... 3**

i) Dulliau ymgynghori .......... 3

ii) Ymatebion a dderbyniwyd .......... 3

iii) Crynodeb o'r materion a godwyd .......... 4

**2. FFURFLEN YMATEB YR YMGYNGHORIAD .......... 5**

**3. YMGYNGHORI Â DISGYBLION .......... 9**

i) Rhith-gyfarfod â Chyngor yr Ysgol – Disgyblion Cynradd .......... 9

ii) Rhith-gyfarfod â Chyngor yr Ysgol – Disgyblion Uwchradd .......... 10

iii) Crynodeb o'r sylwadau eraill a wnaed gan ddisgyblion .......... 12

**4. CYFARFODYDD YMGYNGHORI Â STAFF A LLYWODRAETHWYR .......... 16**

i) Cyfarfod ymgynghori â Staff Ysgol Bro Hyddgen - 14 Ionawr 2021 .......... 16

ii) Cyfarfod ymgynghori â Llywodraethwyr Ysgol Bro Hyddgen - 14 Ionawr 2021 17

**5. ESTYN .......... 20**

**6. MATERION A GODWYD DROS Y CYFNOD YMGYNGHORI .......... 24**


Os oes angen copi o'r ddogfen hon mewn fformat arall arnoch, cysylltwch â'r Tîm Trawsnewid Addysg os gwelwch yn dda drwy ffonio 01597 826277 neu e-bostio school.organisation@powys.gov.uk.

# Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen

## 1. TROSOLWG AR YR YMGYNGHORIAD

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen. Roedd y cynnig fel a ganlyn:

- ‘Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno’n raddol o flwyddyn i flwyddyn gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Rhagfyr 2020 a’r 26 Ionawr 2021.

### i) Dulliau ymgynghori

Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a chawsant eu dosbarthu i randdeiliaid yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Roedd fersiwn ar wahân hefyd ar gael i ddisgyblion ar wefan y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i’r ymgynghoriad naill ai drwy lenwi ffurflen ymgynghori ar-lein, llenwi copi papur o’r ffurflen a’i dychwelyd i’r Tîm Trawsnewid Addysg yn Neuadd y Sir, neu drwy ysgrifennu / e-bostio’r Tîm Trawsnewid Addysg.

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rhithiol â’r canlynol:

- Cyngor Ysgol yr Ysgol – 13 Ionawr 2021
- Staff Ysgol Bro Hyddgen - 14 Ionawr 2021
- Llywodraethwyr Ysgol Bro Hyddgen - 14 Ionawr 2021

### ii) Ymatebion a dderbyniwyd

Llenwodd gyfanswm o 440 o ymatebwyr y ffurflen ymateb oedd wedi’i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys copïau papur yn ogystal ag ymatebion drwy lenwi’r ffurflen ymateb ar-lein.

Yn ogystal, derbyniwyd 25 o ymatebion ysgrifenedig drwy’r post neu e-bost gan wahanol bobl, gan gynnwys Estyn. Rhoddir ymateb Estyn ar dudalen 18, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Yn ogystal ag ymatebion gan rieni, llywodraethwyr, staff ac aelodau’r gymuned, derbyniwyd ymateb hefyd gan y sefydliadau canlynol:

Cyngor Cymuned Corris
Cyngor Cymuned Mawddwy
Cyngor Cymuned Cadfarch
Cyngor Cymuned Pennal
Rhieni Dros Addysg Gymraeg - RHAG
Mudiad Meithrin
Prosiect Plant Cymunedol Machynlleth

**iii) Crynodeb o'r materion a godwyd**

Rhestrir y materion a godwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yn fanwl yn adran 6 ar dudalen 23. Mae hyn yn cynnwys ymateb y Cyngor i bob mater. Crynhoir y materion hyn fel a ganlyn:

1. Yn cefnogi / o blaid y cynnig
2. Anghytuno gyda'r cynnig
3. Effaith ar ddisgyblion
4. Cyfeirio at ddarpariaeth / sgiliau drwy'r Saesneg
5. Cyfeirio at addysg ôl 16 / addysg bellach ac uwch
6. Mae angen dewis
7. Poeni am yr effaith ar nifer y disgyblion yn Ysgol Bro Hyddgen
8. Y cymorth ychwanegol a fyddai ei angen i gynnal y newid i'r categori iaith
9. Cyfeirio at drefniadau cludiant
10. Sylwadau am y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Bro Hyddgen
11. Effaith ariannol
12. Effaith ar staff
13. Effaith ar y gymuned
14. Effaith ar yr iaith Gymraeg
15. Cyfeirio at fodelau darparu addysg cyfrwng Cymraeg
16. Cyfeirio at wahaniaethu / anghydraddoldeb
17. Effaith ar grwpiau gyda nodweddion a warchodir
18. Sylwadau am y dogfennau ymgynghori
19. Sylwadau am y broses ymgynghori
20. Cyfeirio at Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor
21. Beirniadu'r Cyngor
22. Cyfeirio at opsiynau eraill

## 2. FFURFLEN YMATEB YR YMGYNGHORIAD

Llenwodd 184 y ffurflen ymateb yn Saesneg, oedd ar gael ar-lein, a llenwodd 178 y ffurflen ymateb yn Gymraeg, oedd hefyd ar gael ar-lein.

Yn ogystal, derbyniwyd 78 copi papur o’r ffurflen ymateb drwy e-bost neu yn y post, a derbyniwyd 25 o ymatebion e-bost.

Crynhoir canfyddiadau meintiol yr holiadur isod.

Rhoddwyd hefyd sylwadau ysgrifenedig yn y ffurflenni ymateb i’r ymgynghoriad. Mae’r materion a godwyd yn y sylwadau hyn yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

### Rhan 1 – Amdanoch chi

1. Dywedwch os gwelwch yn dda beth yw eich cysylltiad â'r ysgolion y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt:

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Rhiant, gofalwr neu warcheidwad | 131 | 29.8% |
| Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad | 59 | 13.41% |
| Llywodraethwr | 9 | 2.05% |
| Aelod o staff | 15 | 3.41% |
| Aelod o'r gymuned | 163 | 37.01% |
| Sefydliad | 17 | 3.86% |
| Dim cysylltiad gyda'r un o'r ysgolion | 16 | 3.64% |
| Rhywbeth arall | 30 | 6.82% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

2. Dywedwch gyda pha ysgol y mae gennych gysylltiad:

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ysgol Bro Hyddgen | 268 | 60.91% |
| Ffederasiwn Glantwymyn, Llanbrynmair, Carno | 97 | 22.05% |
| Ysgol arall | 24 | 5.45% |
| Dim cysylltiad ag unrhyw ysgol | 51 | 11.59% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

3. Rhowch eich cod post os gwelwch yn dda:

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Machynlleth | 313 | 71.13% |
| Llanbrynmair | 27 | 6.14% |
| Tywyn | 8 | 1.82% |

| | | |
|---|---|---|
| Aberystwyth | 8 | 1.82% |
| Bow Street | 8 | 1.82% |
| Y Trallwng | 7 | 1.59% |
| Bangor | 6 | 1.36% |
| Caersws | 5 | 1.14% |
| Caernarfon | 3 | 0.68% |
| Croesoswallt | 3 | 0.68% |
| Ysbyty Ifan | 3 | 0.68% |
| Y Bala | 2 | 0.45% |
| Llanbedr Pont Steffan | 2 | 0.45% |
| Y Drenewydd | 2 | 0.45% |
| Llanymynech | 2 | 0.45% |
| Caerdydd | 2 | 0.45% |
| Llandrindod | 2 | 0.45% |
| Abertawe | 2 | 0.45% |
| Penrhyndeudraeth | 1 | 0.23% |
| Llanidloes | 1 | 0.23% |
| Llandysul | 1 | 0.23% |
| Wrecsam | 1 | 0.23% |
| Llanbedr Pont Steffan | 1 | 0.23% |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0.23% |
| Abertawe | 1 | 0.23% |
| Dolgellau | 1 | 0.23% |
| Y Drenewydd | 1 | 0.23% |
| Yr Wyddgrug | 1 | 0.23% |
| Bryste | 1 | 0.23% |
| Nottingham | 1 | 0.23% |
| Heb ateb y cwestiwn | 23 | 5.23% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | 100.0% |

**Rhan 2 – Yr ymatebion i'r ymgynghoriad**

3. A ydych yn cytuno â'r cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw | 269 | 61.14% |
| Nac ydw | 165 | 37.5% |
| Ddim yn gwybod | 6 | 1.36% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

4. A ydych yn meddwl y dylai'r Cyngor ystyried unrhyw opsiynau eraill ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen, yn lle'r cynnig i newid y categori iaith?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw | 102 | 23.18% |
| Nac ydw | 286 | 65% |
| Ddim yn gwybod | 52 | 11.82% |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

**Rhan 3 – Amdanoch chi**

12. Faint yw eich hoed?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| O dan 16 | 12 | 2.73% |
| 16-23 | 24 | 5.45% |
| 25-34 | 77 | 17.5% |
| 35-44 | 94 | 21.37% |
| 45-54 | 81 | 18.41% |
| 55-64 | 46 | 10.45% |
| 65-74 | 23 | 5.23% |
| 75-84 | 6 | 1.36% |
| 85+ | 6 | 1.36% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 16 | 3.64% |
| Heb ateb y cwestiwn | 55 | 12.5% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

13. Beth yw eich rhywedd?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Bachgen / dyn | 138 | 31.36% |
| Menyw / merch | 243 | 55.23% |
| Rhywedd-hyblyg | 1 | 0.23% |
| Anneuaidd | 0 | 0% |
| Rhywedd-niwtral | 2 | 0.45% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 11 | 2.5% |
| Heb ateb y cwestiwn | 45 | 10.23% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

14. Ydych chi'n gallu deall, siarad neu ysgrifennu Cymraeg?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw | 357 | 81.13% |
| Nac ydw | 26 | 5.91% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 12 | 2.73% |
| Heb ateb y cwestiwn | 45 | 10.23% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

15. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Oes | 10 | 2.27% |
| Nag oes | 282 | 64.10% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 39 | 8.86% |

| | | |
|---|---|---|
| Heb ateb y cwestiwn | 109 | 24.77% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

16. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt unrhyw anghenion dysgu ychwanegol?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Oes | 30 | 6.82% |
| Nag oes | 251 | 57.05% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 36 | 8.18% |
| Heb ateb y cwestiwn | 123 | 27.95% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

17. A ydych yn ystyried eich hun i fod yn anabl?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw | 19 | 1.8% |
| Nac ydw | 353 | 84.7% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 19 | 11.7% |
| Heb ateb y cwestiwn | 49 | 1.8% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **440** | **100.0%** |

18. Beth yw eich tarddiad ethnig?

| Ymateb | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn | 373 | 84.76% |
| Asiaidd | 0 | 0.0% |
| Du, Affricanaidd neu Garibïaidd | 0 | 0.0% |
| Cymysg | 1 | 0.23% |
| Sipsiwn / Teithiwr | 1 | 0.23% |
| Rhywbeth arall | 4 | 0.91% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 19 | 4.32% |
| Heb ateb y cwestiwn | 42 | 9.55% |
| **Cyfanswm** | **440** | **100.0%** |

## 3. YMGYNGHORI Â DISGYBLION

Cyfarfu swyddogion o'r awdurdod lleol â Chyngor Ysgol yr Ysgol i holi eu barn am y cynnig. Cynhaliwyd dau gyfarfod, un gyda disgyblion cynradd a'r llall gyda disgyblion uwchradd.

Rhoddir nodiadau'r cyfarfodydd hyn isod.

### i) Rhith-gyfarfod â Chyngor yr Ysgol – Disgyblion Cynradd

13 Ionawr 2021 – Cynhaliwyd yn rhithiol ar Microsoft Teams

**Yn bresennol:** Huw Foster-Evans, Sarah Astley, Huw Rowlands – Cyngor Sir Powys
Dafydd Jones, Haf ap Robert – Ysgol Bro Hyddgen

Cyfarfu swyddogion o Gyngor Sir Powys yn rhithiol drwy Microsoft Teams â chynrychiolwyr o Gyngor Ysgol Safleoedd Cynradd Ysgol Bro Hyddgen i drafod yr ymgynghoriad i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.

Cynhaliwyd y sesiwn gyda thri disgybl o Gyngor yr Ysgol. Roedd y grŵp i gyd ym mlynyddoedd 4-6.

Eglurodd y swyddogion y cynigion i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen ac y byddent yn hoffi cael barn y disgyblion am y cynnig. Roedd y disgyblion yn deall y byddai'r newid yn cael ei gyflwyno'n raddol dros amser ac na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y disgyblion presennol.

Gofynnodd y disgyblion nifer o gwestiynau a chrynhoir eu hymatebion isod:

**Beth fyddai manteision y cynnig hwn?**

- Llawer o bethau da ond rhai pethau drwg. Pe bai'r holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu yn Gymraeg, byddai gan y plant gyfleoedd a swyddi gwell yng Nghymru, a dealltwriaeth well o Gymru a'i hanes.
- Mwynhau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddai mwy o bobl yn ardal Machynlleth yn gallu siarad Cymraeg.

**Beth fyddai anfanteision y cynnig hwn?**

- Gallai fod yn anodd i ddisgyblion ffrwd Saesneg Blynyddoedd 1-6 ddod i arfer â'r newid.
- Gallai'r ysgol golli rhai disgyblion wrth iddynt symud i ysgol arall gyda ffrwd Saesneg.

- Efallai y byddai mewnfudwyr i'r ardal heb wybod dim am y Gymraeg yn cael trafferth dysgu iaith newydd.

**Cwestiynau eraill a ofynnwyd:**

- Beth am staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, a fydd angen iddynt ddysgu Cymraeg cyn gallu addysgu yn yr ysgol, pe bai'r categori iaith yn newid i gyfrwng Cymraeg? - Eglurwyd y byddai angen i'r Cyngor helpu'r ysgol i gynnig mwy o gyfle i athrawon a staff eraill gael dysgu Cymraeg.
- Beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun di-Gymraeg yn dod i YBH mewn rhai blynyddoedd?  A fyddech yn eu helpu i ddeall Cymraeg? - Eglurwyd y byddai addysg drochi ar gael i ddisgyblion, fel y byddai ganddynt gyfle i ymuno â chwrs trochi Cymraeg dwys wrth ddechrau'r ysgol. Mae hyn eisoes yn digwydd drwy Gymru ac mae angen i ni sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i unrhyw blant di-Gymraeg sy'n dod i Ysgol Bro Hyddgen. Mae angen i ni sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i unrhyw un di-Gymraeg sy'n symud i safleoedd cynradd neu uwchradd yr ysgol.

**Sylwadau eraill:**

- Ni chefais i drafferth dysgu Cymraeg, mae fy nain yn siarad Cymraeg a Saesneg ac fel helpodd fi i siarad Cymraeg. Nid oeddwn i'n poeni am ddysgu yn Gymraeg, roeddwn yn hapus i dderbyn addysg yn Gymraeg er bod fy rhieni'n siarad Saesneg.
- Rwy'n siarad Saesneg gartref ond dechreuais ddysgu Cymraeg yn ifanc wrth i eraill siarad Cymraeg gyda fi.

Diolchwyd i'r disgyblion am fod yn bresennol a chawsant wybod os bydden nhw, neu eu ffrindiau, yn meddwl am unrhyw beth arall, bod croeso iddynt roi gwybod i'r Tîm Trawsnewid Addysg, ac eglurwyd sut i wneud hyn.

### ii) Rhith-gyfarfod â Chyngor yr Ysgol – Disgyblion Uwchradd

13 Ionawr 2021 – Cynhaliwyd yn rhithiol ar Microsoft Teams

**Yn bresennol:** Huw Foster-Evans, Sarah Astley, Huw Rowlands – Cyngor Sir Powys
Dafydd Jones, Anwen Pughe-Jones – Ysgol Bro Hyddgen

Cyfarfu swyddogion o Gyngor Sir Powys yn rhithiol drwy Microsoft Teams â chynrychiolwyr o Gyngor Ysgol Safle Uwchradd Ysgol Bro Hyddgen i drafod yr ymgynghoriad i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.

Cynhaliwyd y sesiwn gyda 12 disgybl o Gyngor Ysgol Safle Uwchradd Ysgol Bro Hyddgen. Roedd y grŵp yn cynnwys disgyblion blynyddoedd 7-13.

Eglurodd y swyddogion y cynigion i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen ac y byddent yn hoffi cael barn y disgyblion am y cynnig. Roedd y disgyblion yn deall y byddai'r newid yn cael ei gyflwyno'n raddol dros amser ac na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y disgyblion presennol.

Gofynnodd y disgyblion nifer o gwestiynau a chrynhoir eu hymatebion isod:

**Beth fyddai manteision y cynnig hwn?**

- Byddai'n syniad da, mae mor bwysig bod plant yn ddwyieithog. Byddai'n beth da i'r iaith Gymraeg. Mae'n syniad da cael plant i ddysgu Cymraeg o oedran ifanc.
- Rwy'n cytuno â'r cynnig, mae'n syniad gwych. Roedd yn rhaid iddo ddigwydd yn y diwedd. Ar y cyfan mae'n beth da cyflwyno'r newid yn raddol dros nifer o flynyddoedd.
- Rwy'n meddwl ei bod yn syniad da cael mwy o Gymraeg yn yr ysgol.
- Ar ôl bod drwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg lle'r oedd pob dim yn Gymraeg, rwy'n teimlo fod addysg cyfrwng Cymraeg o oedran ifanc yn syniad da iawn. Yn yr oedran ifanc hwnnw, nid ydych yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r Gymraeg, ac i rai gyda rhieni di-Gymraeg, efallai nad ydynt yn sylweddoli pa mor bwysig yw dysgu'r Gymraeg yn rhugl tan fyddan nhw'n hŷn. Unwaith iddynt gyrraedd yr uwchradd, mae'n llawer anoddach dysgu Cymraeg yn rhugl. Felly mae'n haws dysgu o oedran ifanc.
- Rwy'n meddwl y dylem gael ysgol Gymraeg oherwydd mae Bro Ddyfi'n ardal Gymraeg ac mae gan bobl ddwyieithog sgiliau meddwl gwell. Er enghraifft, maen nhw'n gallu canolbwyntio a chofio pethau'n well ac yn gallu cael swyddi gwell yn y dyfodol.
- Rwy'n meddwl ei fod yn dda dechrau'n ifanc oherwydd mae'n haws dysgu ieithoedd pan fyddwch yn iau, rydych yn eu dysgu'n gynt.
- Mae'n fanteisiol bod yn ddwyieithog, byddai'n dda i eraill gael yr un cyfleoedd ag a gefais i.

**Beth fyddai anfanteision y cynnig hwn?**

- Pe bai pobl di-Gymraeg yn symud i'r ardal, bydd yn anodd iawn iddyn nhw. Mae rhai disgyblion a ddaeth i fy mlwyddyn uwchradd i wedi cael trafferth. Rwy'n teimlo bod hynny'n rhywbeth sydd angen rhoi amser iddo i'w helpu i ddysgu'r iaith.
- Rwy'n teimlo ei fod yn syniad da dysgu'n ifanc, ond mater i rieni benderfynu yw anfon eu plant i ysgol ffrwd Saesneg neu ffrwd Gymraeg, a phe bai myfyrwyr hŷn yn symud o Birmingham neu rywle arall yn Lloegr, byddai'n anodd iawn iddynt symud i ysgol gwbl Gymraeg. Felly gallai wneud pethau'n anoddach i lawer o fyfyrwyr.
- Mae llawer o fy ffrindiau i'n poeni am newid i ysgol cyfrwng Cymraeg.

- Yn poeni y gallai fod yn anodd dod o hyd i athrawon Cymraeg i addysgu rhai pynciau arbenigol fel astudiaethau busnes, ac y gallai hyn gyfyngu ar y dewis o bynciau.

**Sylwadau eraill / cwestiynau**

- Bydd yn cymryd amser hir i weithredu'r cynnig ar draws yr ysgol, dros 10 mlynedd. A oes ffordd i wneud hyn yn gynt? - Eglurwyd bod y newid wedi'i gynllunio fel na fyddai'n effeithio ar y plant sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd – ni fydd angen i'r disgyblion sy'n mynd i'r ysgol ar hyn o bryd wynebu unrhyw newid, dim ond rhai sy'n mynychu'r ysgol yn y dyfodol.
- Beth am flynyddoedd 10-13, sy'n flynyddoedd pwysig gydag arholiadau. A fyddai'n bosib gwneud y pynciau yn Gymraeg neu yn Saesneg? Byddai astudio Lefel A yn Saesneg yn haws i ddisgyblion a fyddai am astudio yn Saesneg yn y Brifysgol. Ar gyfer TGAU a Lefel A, weithiau rwy'n meddwl bod rhai pynciau'n haws yn Saesneg – Nodwyd y pryder hwn ond eglurwyd bod y myfyrwyr i gyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy Gymru'n astudio pob pwnc drwy'r Gymraeg hyd at Lefel A. Mae llawer ohonynt yna'n mynd i brifysgol yn Lloegr.
- Bydd angen cymorth ychwanegol ar ddisgyblion di-Gymraeg. Er enghraifft, cefais gymorth ychwanegol gan fy athrawes Gymraeg a fu'n help mawr i mi – Cytunwyd y byddai angen cymorth ychwanegol i helpu dysgwyr wrth gyflwyno unrhyw newid. Mae nifer o enghreifftiau o ymarfer da ar hyd a lled Cymru a bydd y staff yn Ysgol Bro Hyddgen eisoes yn ymwybodol o'r ymarfer da ac yn brofiadol mewn cynorthwyo disgyblion.
- A fydd cymorth i deuluoedd di-Gymraeg? - Eglurwyd ei bod yn bwysig bod cymorth ar gael i deuluoedd y disgyblion, yn ogystal ag i'r plant eu hunain, er enghraifft gwersi Cymraeg i rieni, a sicrhau bod adnoddau gwaith cartref a gwybodaeth gan yr ysgol ar gael yn Gymraeg a Saesneg, fel nad yw rhieni'n teimlo nad ydynt yn deall neu eu bod yn colli allan.

Diolchwyd i'r disgyblion am fod yn bresennol a chawsant wybod bod y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 26 Ionawr. Mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad, a sut i ymateb, ar wefan Cyngor Sir Powys.

Eglurwyd hefyd beth fyddai'r camau nesaf yn y broses ymgynghori ac y byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2021.

**iii) Crynodeb o'r sylwadau eraill a wnaed gan ddisgyblion**

Yn ogystal â'r ddau gyfarfod Cyngor Ysgol a grybwyllir uchod, derbyniwyd 12 ymateb ar-lein a 7 ymateb ysgrifenedig gan ddisgyblion. Dyma grynodeb o'r materion a godwyd yn yr ymatebion hyn:

**Sylwadau sy'n ategu'r cynnig**

- Mynychais ffrwd Saesneg a theimlaf imi fod o dan anfantais oherwydd hyn
- Rwy'n cefnogi'r bwriad i ddechrau gydag oedran cynradd a gweithio i fyny drwy'r blynyddoedd
- Mae'n fantais fawr i blant yng Nghymru ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig ar gyfer rhagolygon cael swyddi a chadw ein cenhedlaeth iau yma yng Nghymru.
- Bydd llawer o effeithiau cadarnhaol yn enwedig, a fydd yn arwain at ganlyniad da ym Mhowys ac yn arwain at fwy o blant sy'n siarad Cymraeg.
- Yr ydym yn byw yng Nghymru, sydd â'i hiaith ei hun. Dylem fod yn gweithio'n rhagweithiol tuag at gadw ein hiaith drwy gael ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Cyfleoedd gwaith, yn enwedig pan fydd plant yn gadael yr ysgol. Mae'r system addysg yn well yma yng Nghymru, ac yr wyf yn bendant o blaid hynny.
- Po uchaf yw nifer y bobl ifanc ddwyieithog ym Mhowys, uchaf fydd nifer yr oedolion dwyieithog yno, felly bydd mwy o oedolion dwyieithog ar gael i gynnig gwasanaethau dwyieithog i drigolion Powys yn y dyfodol.
- Mae disgyblion sy'n rhugl mewn mwy nag un iaith yn perfformio'n well yn eu haddysg.
- Bydd yn gwneud disgyblion yn fwy ymwybodol o ddiwylliant Cymru.
- Bydd yn rhoi cyfle i'r ddwy iaith gael eu trin yn gyfartal, sydd ddim yn digwydd ar hyn o bryd oherwydd y sylw ychwanegol a roddir i'r Saesneg.
- Ar hyn o bryd mae'n rhaid i ddisgyblion y ffrwd Gymraeg ymgymryd â'u holl bynciau craidd drwy gyfrwng y Saesneg (dosbarth dwyieithog) gyda llawer mwy o sylw yn cael ei roi i'r gwaith Saesneg.
- Byddai'n rhoi cyfle cyfartal a swyddi i ddisgyblion yng Nghymru.
- Hoffwn fynd i ysgol lle mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg, oherwydd nid yw hynny'n wir yn fy ysgol i.
- Mae dwyieithrwydd yn cael effaith gadarnhaol gan ei fod yn arwain at ddwywaith nifer y cyfleoedd ac yn cynyddu cydraddoldeb.
- Mae angen sicrhau bod yr ysgol yn meithrin disgyblion sy'n gwbl rhugl yn y ddwy iaith. Byddai hyn yn helpu i sicrhau dyfodol y Gymraeg, a byddai'n helpu i gyrraedd y targed o 50,000 o siaradwyr Cymraeg.

**Sylwadau nad ydynt yn ategu'r cynnig**

- Mae llawer o ddisgyblion yn cael trafferth gyda'r Gymraeg ac yn hapus yn eu dosbarthiadau Saesneg presennol, ond os yw'r ysgol yn newid yn y dyfodol i'r Gymraeg yn unig efallai y bydd yn rhaid iddynt symud i ysgol arall

- Efallai y bydd rhai disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn dechrau cael trafferth ac mae angen iddynt symud i'r dosbarth Saesneg, ond os nad oes dosbarthiadau Saesneg byddai'n rhaid iddynt symud i ysgol wahanol
- Efallai ei bod yn wych i fwy o bobl siarad y Gymraeg ond mae hyn yn cael ei gorbwyso gan bobl sy'n cael trafferth nad ydynt yn gallu siarad yr iaith a fyddai naill ai'n gorfod dysgu'n rhugl i ddeall eu gwersi neu symud i ysgol arall. Ysgolion Cymraeg yn unig yw llawer o ysgolion Powys ac felly byddai'n anodd iddynt ddod o hyd i ysgol addas.
- Ni fyddai gan lawer o fyfyrwyr/aelodau staff ddewis ond newid ysgolion/swyddi os ydynt yn cael trafferth gyda'r Gymraeg.
- Er y byddai mwy o bobl yn siarad y Gymraeg, sy'n wych, rwy'n teimlo y byddai mwy o bobl yn cael trafferth gyda'r iaith. Mae bod ag opsiwn i gael fy ngwersi yn Saesneg wedi bod yn help mawr. Mae hyn yn golygu pe bai'r ysgol yn dod yn un cyfrwng Cymraeg, na fyddai gan fyfyrwyr ddewis ond newid ysgolion i un sy'n addysgu drwy gyfrwng y Saesneg.
- Mae llawer o ddisgyblion wedi symud i'r ffrwd Saesneg ar gyfer eu harholiadau TGAU gan eu bod am wneud eu gorau yn eu harholiadau.
- Mae dosbarthiadau sy'n derbyn addysg yn ddwyieithog yn fuddiol – mae'r disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr ystafell ddosbarth bob dydd ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a'u medrau. Mae'r disgyblion cyfrwng Cymraeg hefyd yn gwerthfawrogi clywed rhai ymadroddion a therminoleg yn Saesneg gan ei fod hefyd yn datblygu eu dealltwriaeth o eirfa newydd ymhellach, yn enwedig mewn pynciau fel Gwyddoniaeth. Mae'r dull dwyieithog hwn yn gweithio'n dda iawn yn YBH ac roeddwn yn synnu bod y dull hwn wedi'i feirniadu yn adroddiad CSP.
- Yr effaith andwyol amlwg fyddai gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen. Byddai pob disgybl sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd yn cael ei orfodi i fynychu ysgol arall, sydd fwyaf tebygol mewn sir arall. Rwy'n credu bod CSP yn tanamcangyfrif nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg.
- Roedd llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol uwchradd naill ai yn Nhywyn neu Ben-glais gan eu bod yn meddwl bod Ysgol Bro Hyddgen yn "rhy Gymraeg". Byddai'r cynnig yn dieithrio disgyblion o gartrefi di-Gymraeg ymhellach. Byddai'r ffaith mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y byddai pob pwnc yn cael ei addysgu yn atal llawer o ddisgyblion o Ysgol Bro Hyddgen.
- Mae'n peri pryder i mi na fydd teuluoedd sy'n symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru, yn enwedig o Gyfnod Allweddol 3 ymlaen, yn gallu mynychu Ysgol Bro Hyddgen os yw'n ysgol cyfrwng Cymraeg. Ni fydd ganddynt ddewis ond mynychu'r ysgol yn rhywle arall.
- Byddai rhai disgyblion yn dewis ysgol uwchradd wahanol i allu astudio yn Saesneg pe bai YBH yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg.

- Ers i mi ddechrau yn YBH, mae llawer o ddisgyblion wedi ymuno â'r ffrwd Saesneg o wahanol ysgolion a gwledydd. Ni fyddai'r un o'r rhain wedi gallu mynychu ein hysgol pe bai’n ddim ond yn ysgol cyfrwng Cymraeg

**Sylwadau eraill**

- Dylid cynnig gwersi yn y pynciau craidd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan fod defnyddio'r Saesneg wedi ehangu fy nealltwriaeth.

## 4. CYFARFODYDD YMGYNGHORI Â STAFF A LLYWODRAETHWYR

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori â staff a llywodraethwyr y ddwy ysgol drwy Microsoft Teams. Crynhoir y materion a gododd yn y cyfarfodydd hyn isod:

### i) Cyfarfod ymgynghori â Staff Ysgol Bro Hyddgen - 14 Ionawr 2021

- Mae nifer o ddisgyblion ag ADY yn ei chael yn anodd dysgu hyd yn oed yn eu hiaith gyntaf, ac rwy'n poeni am ba gymorth fydd ar gael i ddisgyblion gyda phroblemau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad, sydd eisoes gyda rhwystrau addysgol, heb orfod cael eu haddysgu mewn iaith wahanol i'w mamiaith.
- Rwy'n cytuno y gall addysgu ADY weithio'n dda mewn ysgolion Cymraeg o gwmpas y wlad. Ond mae hefyd yn wir fod gan bron pob un o'r ysgolion Cymraeg hynny ddarpariaeth Saesneg gerllaw hefyd, lle gall rhieni ddewis anfon eu plant.
- I fod yn glir, a ydych yn dweud os na fyddai'n bosib ateb anghenion plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg, y byddent yna'n cael eu hanfon allan o'r sir neu i ysgol sy'n eithaf pell i ffwrdd? Meddwl am hawl y plentyn i gael eu haddysgu yn eu cymuned ydw i.
- Os oes angen therapydd iaith a lleferydd ar blentyn, beth sy'n digwydd os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael? Mae'n anodd cael gafael ar therapyddion iaith a lleferydd Cymraeg i helpu ym Mhowys.
- Mae llawer o bobl yn symud i'r ardal o Loegr. Pa ddarpariaeth fydd ar gael iddyn nhw? A fydd gwersi trochi ar gael – yn enwedig i CA2?
- Ydy Powys yn bwriadu cael rhyw fath o ymgyrch farchnata neu hyrwyddo i werthu manteision y Gymraeg a sicrhau bod disgyblion a'u rhieni'n deall yn union beth yw addysg cyfrwng Cymraeg?
- Mae angen i chi roi'r cynnig hwn yn ei gyd-destun cenedlaethol. Fe ddywedoch ar y dechrau fod Powys ymhell ar ei hôl hi lle mae addysg cyfrwng Cymraeg yn y cwestiwn, felly pan fydd pobl yn ofni cofleidio newid, mae'n bwysig pwysleisio bod Powys yn llusgo ar ôl beth sydd eisoes yn digwydd yn llwyddiannus mewn rhannau eraill o Gymru. Mae angen i bob sefydliad addysgol ym Mhowys addysgu disgyblion fel eu bod yn gwbl rugl yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, i sicrhau hyn, mae angen i Bowys addysgu rhieni i weld y manteision bod eu plant yn tyfu i fod yn ddinasyddion dwyieithog. Mae angen i rieni ac athrawon fod yn hyderus bod unrhyw ddarpariaeth bresennol ym Mhowys yn parchu anghenion o bob math, a bod unedau trochi'n cael eu gwella.
- Rwy'n croesawu'r cynnig ond yn pwysleisio bod gan Bowys ddyletswydd i ddarbwyllo pawb o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig bod gan blant ym Mhowys yr un cyfle â phlant mewn rhannau eraill o Gymru i fod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg.
- Wrth hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, mae'n bwysig pwysleisio na fydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael effaith negyddol ar safonau

disgyblion yn Saesneg. Mae hon yn neges bwysig sydd angen ei chyfathrebu a'i hyrwyddo.

- Mae ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn agor y drws i ddisgyblion fynychu prifysgolion drwy'r byd, beth bynnag yw'r iaith. Hefyd, ar draws pob ystod oed, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn agor y drws i ddisgyblion, gan gynnwys rhai ag ADY, lle mae'r sgil o fod yn gallu siarad Cymraeg yn fuddiol. Felly, nid y disgyblion mwyaf abl yn unig sy'n gallu cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg.
- Pa mor ddiogel yw swyddi staff di-Gymraeg, a pha drefniadau fydd yn eu lle i helpu'r staff hyn i ddysgu Cymraeg?
- Yn y gorffennol, cawsom addewidion ariannol gan Bowys ynglŷn â newidiadau i'w gwneud i'r ysgol, addewidion sydd wedi cael eu torri. Pa sicrwydd allwch ei roi y bydd darpariaeth ariannol ar gael i gynorthwyo'r ysgol yn y dyfodol?
- Mae'n dda clywed bod gan YBH ddyfodol sicr. Fodd bynnag, hoffwn ofyn am gyfrwng yr iaith yn TGAU a Lefel A. Ai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg fydd y pynciau i gyd ar gael? Os edrychwch ar ysgolion uwchradd Penweddig a Thywyn, mae rhai pynciau'n cael eu cynnig yn Gymraeg neu Saesneg, neu'n ddwyieithog. A fydd pob pwnc yn cael ei addysgu yn Gymraeg?

## ii) Cyfarfod ymgynghori â Llywodraethwyr Ysgol Bro Hyddgen - 14 Ionawr 2021

- Pwy all ymateb i'r ymgynghoriad? Ai unrhyw un ym Mhowys, neu rai y byddai'r cynigion hyn yn effeithio arnynt, fel rhieni ayyb? Rwy'n gofyn y cwestiwn oherwydd gwn fod nifer o bobl sy'n dod yn wreiddiol o Fro Ddyfi ac nad ydynt yn byw yma erbyn hyn, ond a fyddai'n hoffi ymateb.
- Sut y byddwch yn gallu ymateb i rieni sy'n poeni am eu plant sy'n Saesneg iaith gyntaf ac sydd ag anghenion addysgol arbennig?
- Sut y byddwch yn egluro'r gwahaniaeth rhwng dwy ffrwd a dwyieithrwydd?
- Rwy'n deall y cymhlethdod a'r manylder sydd ei angen yn y ddogfen ymgynghori, ond mae hefyd yn hawdd colli rhai o'r prif negeseuon sy'n gallu achosi dryswch. Efallai ar ôl cam hwn y broses ymgynghori, gallwn gael negeseuon clir gydag enghreifftiau 'go iawn' o sut y bydd yn effeithio ar blant. Y math o gwestiwn y gallai rhieni di-Gymraeg ei ofyn er enghraifft, os yw eu plant yn cael trafferth dysgu yn yr ysgol, yw a fyddent yn gallu sefyll eu harholiadau yn Saesneg?
- Teimlaf y gallech gyfleu'r negeseuon yn llawer cliriach, yng ngham presennol yr ymgynghoriad, ac yn y cam nesaf. Mae angen enghreifftiau 'bywyd go iawn' arnom o sut y bydd yn effeithio ar blant. Y math o gwestiynau y bydd pobl yn eu gofyn yw, a fydd fy mhlentyn yn cael trafferth oherwydd diffyg cymorth ar ôl ysgol. Gwyddom y bydd cymorth ar gael, ond ni fydd pob rhiant yn gwybod hyn.
- Fel rhiant, mae peth brwdfrydedd wedi bod ynghylch Bro Hyddgen gan rieni o'r tu allan i'r sir, ond ni fyddent yn dymuno anfon eu plant i ysgol

cyfrwng Saesneg nac ychwaith i ysgol cyfrwng Cymraeg. Felly credaf fod angen cael negeseuon clir allan i rieni.

- A ydych wedi gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o gwbl? Yn y diwrnodau agored, mae myfyrwyr yn ein holi am ddysgu Cymraeg oherwydd eu bod efallai wedi derbyn peth Cymraeg yn yr ysgol, neu ddim o gwbl, ond yn gweld potensial i gael swyddi gwell, ond erbyn iddynt gyrraedd y brifysgol mae'n aml yn rhy hwyr. A oes unrhyw beth yn cael ei wneud i fyfyrwyr sydd eisiau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch?
- Un o'r cwestiynau a ofynnir yn aml gan rieni yw ynghylch pynciau Gwyddoniaeth. A fydd disgyblion yn gorfod astudio pynciau fel hyn drwy'r Gymraeg? Pynciau fel hyn sy'n gwneud i rieni boeni, a phe byddent er enghraifft yn mynd i brifysgol Lerpwl, a fyddent yn deall beth sy'n cael ei addysgu? Credaf yn Ysgol Penweddig, gyda rhai pynciau, fod dewis o iaith ar gael. A oes canran o bynciau y gall ysgol ddwyieithog eu cynnig yn Saesneg? Mae angen i ni dawelu'r ofnau a dangos bod opsiwn i'r plant. Os yw'r ysgol yn gweithio i sicrhau y bydd gan ddisgyblion fynediad at y ddwy iaith, yna efallai na fyddai'r syniad o ofni na fyddai pwnc penodol ar gael yn Saesneg neu Gymraeg yn bodoli. Os yw'r ysgol yn ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn hyderus yn y ddwy iaith, ar hyn o bryd efallai nad yw hon yn broblem gwerth ei chodi, ond gallai fod yn y dyfodol.
- Pa fath o addysg trochi fydd ar gael i sicrhau bod trochi ar gael i blant hŷn sy'n symud i'r ardal? Roedd prosiect trochi ar gael ychydig flynyddoedd yn ôl. Cawsom ddau ddisgybl yn dechrau ym mlwyddyn 7 heb ddim Cymraeg o gwbl ond fe wnaethant symud ymlaen drwy'r ysgol yn y ffrwd Gymraeg yn llwyddiannus iawn. Mae angen cyllid yn ei le i sicrhau bod trochi ar gael. Yn y gorffennol mae Powys wedi addo cyllid ond wedi torri eu haddewidion.
- Byddwn yn gofyn i chi leoli unrhyw uned drochi newydd ym Machynlleth. Byddai hynny'n help mawr ac yn tawelu pryderon y gymuned leol.
- Cyn belled ag y mae addysgu pynciau Gwyddoniaeth drwy'r Gymraeg yn y cwestiwn, mae astudiaethau achos penodol o ddisgyblion a dderbyniodd addysg cyfrwng Cymraeg ac sydd yna wedi dod o hyd i waith, fel arfer yn Lloegr ond hefyd mewn mannau eraill, a gallai'r rhain fod o ddiddordeb i ddangos beth sy'n bosib wrth i'r cynnig hwn symud ymlaen.
- Fel rhan o'r broses farchnata, mae angen marchnata ein bod yn rhoi sgil ychwanegol i bob disgybl, beth bynnag yw eu gallu, a hynny'n rhoi mynediad iddynt at swyddi na fyddai ar gael i ddisgyblion o allu tebyg, oherwydd y sgil ychwanegol hon. Mae'n bwysig iawn marchnata'r cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond mae enghreifftiau o ddisgyblion yn astudio mewn mannau eraill eraill. Er enghraifft, penderfynodd ein Prif Ferch y llynedd fynd i Goldsmiths yn Llundain i astudio, a gwrthod y cynnig gan Rydychen. Felly mae enghreifftiau rhagorol yn yr ysgol ei hun ac nid oes angen i ni ddod o hyd i enghreifftiau o blant wedi llwyddo mewn ardaloedd eraill bob tro.

- Mae'n bwysig bod yr ysgol a'r awdurdod yn llwyr gefnogi plant di-Gymraeg, rhai sy'n cyrraedd yn yr ysgol yn y dosbarth Derbyn, ac yn ymrwymo'n llawn i'w haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, nid dim ond ar y dechrau ond drwy gydol eu siwrne drwy'r ysgol.
- Os dangoswn y gallwn roi cefnogaeth lwyr i blant ym Mro Hyddgen, rydym yn llawer mwy tebygol o'u gweld yn aros yno ac nid yn gadael i fynd i ysgolion eraill.
- Rwy'n cytuno bod trochi'n hanfodol a chlywais adroddiadau da am Lanfyllin. Felly, os gallwn ddysgu o hynny, gorau oll.

## 5. ESTYN

Rhoddir ymateb Estyn i'r ymgynghoriad isod:

**Ymateb Estyn i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau pob ymgynghoriad at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd ynghyd â gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaeth gwella ysgolion i'r ysgolion y mae'r cynnig yn berthnasol iddynt.

### Cyflwyniad

Mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Sir Powys i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, gan wneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol fesul blwyddyn gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022.

### Crynodeb / casgliad

Mae'r cynigydd wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n esbonio'r rhesymeg tu ôl i'r cynnig hwn. Mae'n ymateb i strategaeth newydd ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys, sy'n nodi nifer o nodau ac amcanion i drawsnewid system addysg Powys dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr Powys nawr ac i'r dyfodol. Un o amcanion y strategaeth yw'r nod 'i wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol' ynghyd ag amcan 'i symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith'.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol, neu ei wella, o ran yr addysg, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r rhesymwaith ar gyfer y cynnig hwn yn drefnus gyda'r ystyriaethau wedi eu nodi'n glir. Mae'r dystiolaeth wedi ei sylfaenu ar ffeithiau ac ystyriaethau dilys. Mae'r cynigydd wedi nodi'r manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol yn briodol. Maent wedi ystyried:

- Dim newid a gadael i Ysgol Bro Hyddgen barhau i weithredu fel ysgol dwy ffrwd
- Cynorthwyo'r ysgol i symud y ddarpariaeth cyfnod sylfaen ar hyd y continwwm iaith Gymraeg
- Cynorthwyo'r ysgol i symud y ddarpariaeth gynradd ar hyd y continwwm iaith Gymraeg
- Cynorthwyo'r ysgol i symud y ddarpariaeth uwchradd ar hyd y continwwm iaith Gymraeg
- Cynorthwyo'r ysgol i symud yr holl gyfnodau allweddol ar hyd y continwwm iaith Gymraeg
- Newid categori iaith yr ysgol i fod yn gyfrwng Cymraeg

Mae swyddogion Sir Powys wedi cynnal gweithgarwch gwerthuso ar y chwe chynnig hyn. Canlyniad y gweithgarwch yw mai'r pumed opsiwn sy'n cynnig y safonau, darpariaeth a'r arweinyddiaeth gorau ar gyfer y ddwy ysgol bresennol. Cynhaliwyd dadansoddiadau pellach ar yr opsiynau gweithredu a ffafriwyd yr opsiwn o gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym mis Medi 2022.
Mae manteision y cynnig hwn, yn amlinellu materion pwysig sy'n cynnwys gwella canlyniadau addysgol, y ddarpariaeth addysgol a'r arweinyddiaeth a rheolaeth, ac i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn gyffredinol, mae ystyriaethau yn gadarn o blaid y cynnig hwn. Ar sail yr opsiwn a'r opsiwn gweithredu a ffafrir, amcan y cyngor yw cynorthwyo Ysgol Bro Hyddgen i symud ar hyd y continwwm iaith Gymraeg dros amser. Yn ôl y cynigydd, byddai hyn yn cyfrannu at weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor a Strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
Mae'r anfanteision o beidio derbyn y cynnig hwn yn cynnwys materion pwysig megis effaith bosib ar nifer y disgyblion yn Ysgol Bro Hyddgen yn y tymor hir, yr effaith bosib yn y tymor hir ar staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, gwrthwynebiad lleol a chyfnod pontio hir ar gyfer yr ysgol. Mae'r cynnig hwn yn ymateb yn dda i'r materion hyn.

Mae'r cynigydd wedi amlinellu heriau presennol yr ysgol. Mae nifer isel y disgyblion cyfrwng Saesneg yn her i Ysgol Bro Hyddgen o ran gallu cynnig darpariaeth briodol i'r dysgwyr hyn. Yn y sector gynradd, addysgir y plant cyfrwng Saesneg mewn dosbarthiadau bach, gyda nifer uchel o grwpiau blwyddyn ym mhob dosbarth. Yn y sector uwchradd, er mwyn gallu darparu ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, addysgir llawer

o’r gwersi’n ddwyieithog, gyda’r addysgu’n digwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr un dosbarth. Mae cryfderau’r cynnig hwn yn gorbwyso’r gwendidau yn gyson gyda bron pob un o’r ystyriaethau.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae’r cynigydd wedi ystyried yn briodol y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae’r cynigydd yn awgrymu na fyddai llawer o newid ar gyfer y disgyblion cyfrwng Saesneg sy’n mynychu’r ysgol ar hyn o bryd gan y byddent yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol. Ni chaiff effaith chwaith ar ddisgyblion sy’n mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Machynlleth gan eu bod oll yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, felly byddai gan y disgyblion i gyd y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Dywed y cynigydd y byddai angen i ddisgyblion o ysgolion cynradd y tu allan i ddalgylch Machynlleth a fyddai eisiau derbyn darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen fynychu ysgolion eraill. Nodir hefyd na fyddai gweithredu’r cynnig yn arwain at newid y trefniadau llywodraethu yn yr ysgol a bydd y nifer fach o staff nad ydynt yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael cyfle i wella a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Rhinwedd arall o ran yr addysgu a phrofiadau dysgu ydy y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, safonau a chynnydd y disgyblion i gyd, gan gynnwys disgyblion mewn grwpiau penodol fel Saesneg fel Iaith Ychwanegol, rhai sy’n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim, plant mewn gofal, a phlant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Disgwylir hefyd y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau’r holl ddisgyblion, yn enwedig sgiliau iaith Gymraeg, oherwydd gallai’r disgyblion wedyn ddod yn gwbl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal, nodir na fyddai angen i’r ysgol ddyblygu unrhyw ddarpariaeth a dylai hyn gael effaith gryfhaol ar y cwricwlwm y byddai’n bosib ei ddarparu, sicrhau addysg fwy cydlynol drwy’r ysgol ac ateb gofynion y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Amlinellir hyn yn 'Ein Cenhadaeth Genedlaethol', sy'n pennu'r uchelgais i bob ysgol ddatblygu fel sefydliadau dysgu.

O ran effaith y cynnig ar ddarpariaeth 11-16 ac ôl 16 nodir y bydd newid categori iaith yr ysgol, yn galluogi iddynt weithredu’n fwy effeithlon oherwydd ni fyddai angen dyblygu’r ddarpariaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a chynnig ystod ehangach o gyrsiau i ddisgyblion o bob gallu. Awgrymir y byddai’r newid hefyd yn cynorthwyo’r ysgol i ddatblygu trefniadau partneriaeth gwell â darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill, gan wella’r cyfleoedd i ddysgwyr ymhellach.  Mae’r cynnig yn cynorthwyo’r awdurdod lleol i gwrdd â thargedau’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a hefyd i gwrdd ag

amcan y Cyngor o ‘symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith’ a ddisgrifir yn Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys a Strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Awgrymir y byddai ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg yn rhoi cyfleoedd gwell i gynorthwyo disgyblion mewn grwpiau bregus. Disgwylir y byddai newid categori iaith yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddarparu’r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen ac ym mhob un o’r cyfnodau allweddol eraill, oherwydd ni fyddai mwyach angen dyblygu’r ddarpariaeth mewn dwy ffrwd ieithyddol. Mae’r cynnig yn gweld rhai heriau dros y cyfnod pontio oherwydd byddai angen i’r ysgol ddarparu ar gyfer nifer leihaol o ddisgyblion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae’r cynigydd yn sicrhau y byddai’n parhau i gynorthwyo’r ysgol drwy gydol y cyfnod pontio i sicrhau bod cwricwlwm priodol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol. Ystyriaeth bwysig arall a wneir ydy pwysleisio'r cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell a ddaw drwy gynyddu’r posibiliadau i gydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ar draws Cymru.

O ran arweinyddiaeth, byddai cyfle am arweinyddiaeth gadarn a pharhaol o ansawdd uchel ar draws pob cam allweddol. Trwy weithredu fel ysgol un ffrwd, gallai Ysgol Bro Hyddgen redeg yn fwy effeithlon a byddai gan arweinwyr a rheolwyr fwy o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth effeithiol ar draws yr ysgol.

Awgrymir na fyddai unrhyw effaith negyddol ar ddisgyblion o ysgolion cynradd eraill y dalgylch a fyddai’n mynychu’r ysgol gydol oed ym mlwyddyn 7.
Yn gyffredinol, mae’r cynigydd yn cynnig y byddai safonau a chynnydd pob disgybl ar draws yr holl adrannau, gan gynnwys disgyblion sy’n perthyn i grwpiau penodol, yn gwella ac yn cael effaith bositif dros gyfnod.

Ymddengys y byddai’r cynnig hwn o uno yn creu arbedion refeniw blynyddol o tua £184k y flwyddyn i’r Cyngor, unwaith y byddai’r ysgol yn ysgol un ffrwd drwyddi. Ni fyddai unrhyw arbedion yn y flwyddyn gyntaf, ac er y byddai cyfle i wneud arbedion wrth gyflwyno’r newid yn raddol, byddai hyn yn dibynnu ar nifer y disgyblion. Ni ddisgwylir y byddai unrhyw effaith ar gostau cludiant na chostau cyfalaf. Awgrymir na fyddai angen unrhyw waith adeiladu yn y tymor byr gan y byddai’r disgyblion yn derbyn eu haddysg yn yr un adeiladau presennol.

Dyfarnwyd deilliannau ‘Digonol a Da’ gan Estyn yn Chwefror 2017 a dyfarnwyd bod angen i’r ysgol gael ei hadolygu gan Estyn. Daeth Ysgol Bro Hyddgen allan o weithgarwch adolygu gan Estyn yn Rhagfyr 2018.

## 6. MATERION A GODWYD DROS Y CYFNOD YMGYNGHORI

Mae'r tablau canlynol yn rhestru'r materion a godwyd dros y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb yr awdurdod lleol iddynt.

## 1. YN CEFNOGI / O BLAID Y CYNNIG

| | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Mae addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi bod ar agenda'r Cyngor ers degawdau. Mae'n bryd symud ymlaen ac mae ardal Machynlleth yn fan cychwyn delfrydol. Os nad ym Machynlleth, yn ble? | Nodwn y sylw. |
| 1.2 | Rwy'n cytuno â'r cynnig, mae'n bechod bod gogledd Powys wedi gorfod aros mor hir am y trafodaethau hyn. | Nodwn y sylw. |
| 1.3 | Mae'n bryd i'r cyngor gymryd cyfrifoldeb am beth y mae siaradwyr Cymraeg yr ardal eisiau ei weld yn digwydd. Mae'n gywilyddus nad yw hyn wedi digwydd yn gynt. Mae llawer o blaid, nid dim ond siaradwyr Cymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 1.4 | Mae'r mater o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i or-ddylanwadu'n rhy hir gan rai sydd ond yn meddwl am ddiogelu hawliau'r gymuned uniaith Saesneg leiafrifol. Mae hyn wedi bod yn niweidiol i ni rieni a fu gymaint o blaid newid strategol a gweld manteision dwyieithrwydd. | Nodwn y sylw. |
| 1.5 | Mae'n hen bryd gweld hyn yn symud ymlaen o ran cyfeiriad strategol addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhowys, a'r ddarpariaeth sylfaenol sydd ar gael ym Mro Ddyfi. | Nodwn y sylw. |
| 1.6 | Mae'n gyfle i blant yr ardal a'r cyffiniau elwa o ysgol cyfrwng Cymraeg yn lle pasio'r ysgol hon i fynd i ardaloedd eraill i | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gormod o golli talent wedi bod yn y gorffennol oherwydd nad oes ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. | |
| 1.7 | Mae’r ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen i’w groesawu ac yn arwydd o newid ym Mhowys. Gyda’r cynnig hwn, mae’r Cyngor yn bwriadu sefydlu’r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf ym Mhowys. Mae’n dda ei weld yn digwydd, gobeithio mai YBH fydd y gyntaf o lawer. | Nodwn y sylw. |
| 1.8 | Nid yw’r dull dwyieithrwydd presennol yn arfogi plant gyda digon o amser i ddysgu drwy’r Gymraeg ac i fod yn hyderus i barhau i’w defnyddio. Mae Cymru’n wlad ei hun gyda’i hiaith ei hun ac mae’r dull hwn yn glastwreiddio’r iaith a chreu rhaniadau yn y gymuned. Yn y tymor hir byddwn yn hoffi gweld holl aelodau’r gymuned yn graddio o’r ysgol yn gallu sgwrsio yn iaith frodorol eu gwlad. | Nodwn y sylw. |
| 1.9 | Nid cyfle “arbenigol” i rieni gael anfon eu plant i gael “blas” o’r iaith yw addysg cyfrwng Cymraeg. Ein hiaith ni yng Nghymru yw hi ac felly dylai addysg gael ei darparu yn y cyfrwng hwn. | Nodwn y sylw. |
| 1.10 | Mae’r cynnig yn gam mawr ymlaen, nid yn unig i’r ardal a’r sir ond i Gymru gyfan. Byddai’n sicrhau gweithlu dwyieithog yn y dyfodol a sicrhau y gall pobl gyfathrebu’n hyderus yn Gymraeg a Saesneg. | Nodwn y sylw. |
| 1.11 | Mae nifer y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn golygu bod aros fel ysgol dwy ffrwd yn ariannol anghynaladwy, ac yn achosi trafferthion gyda threfniadaeth yr ysgol o ddydd i ddydd. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 1.12 | Mae pobl wastad yn ofni newid ond credaf y bydd y newid hwn yn rhoi addysg a dyfodol gwell i'n plant ac i ddyfodol yr iaith Gymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 1.13 | Mae'r cynnig yn gynhwysol iawn – mae'n rhoi cyfle i'r disgyblion ddechrau datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen, ac nid yw'n eithrio plant yn y ffrwd Saesneg sydd eisoes yn yr ysgol. | Nodwn y sylw. |
| 1.14 | Rwyf 100% o blaid gweld Ysgol Bro Hyddgen yn dod yn gyfrwng Cymraeg. Os yw'r iaith Gymraeg i ffynnu y tu allan i ysgolion cynradd a chartrefi siaradwyr Cymraeg, ac iddi gael siawns o gael ei siarad fel iaith gyntaf mewn mannau cyhoeddus, a chreu llythrennedd yn Gymraeg ar bob lefel academaidd, rydyn ni wedi cyrraedd pwynt lle mae angen gwahaniaethu'n bositif o blaid yr iaith. | Nodwn y sylw. |
| 1.15 | Mae hwn yn newid hanfodol sydd angen ei wneud i Ysgol Bro Hyddgen. Bydd yn gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r holl ddisgyblion, a'r cymorth fydd ar gael iddynt yn yr ysgol. Bydd yn sefydlogi addysg yn lleol, er mwyn gallu datblygu a gwella'r ddarpariaeth, a bydd yr ysgol yn gallu canolbwyntio ar yr addysg. Mae'n ddatblygiad fydd yn cyd-fynd yn briodol â'r cynlluniau cyffrous ar gyfer adeilad newydd i'r ysgol. | Nodwn y sylw. |
| 1.16 | Gellir sicrhau rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ddysgu - academaidd, cymorth dysgu a dinasyddiaeth fyd-eang - mewn unrhyw iaith. Gadewch i hynny fod yn Gymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 1.17 | Rwy'n cytuno â'r cynnig, mae'n syniad gwych. Roedd yn rhaid iddo ddigwydd yn y diwedd. Ar y cyfan mae'n beth da cyflwyno'r newid yn raddol dros nifer o flynyddoedd. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 1.18 | Rwy'n meddwl ei bod yn syniad da cael mwy o Gymraeg yn yr ysgol. | Nodwn y sylw. |

## 2. ANGHYTUNO GYDA'R CYNNIG

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | Mae'r sefyllfa bresennol yn gryfder gan yr ysgol yn fy marn i. | Nodwn y sylw, fodd bynnag fel y nodwn yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn, mae natur dwy ffrwd Ysgol Bro Hyddgen yn creu nifer o heriau i'r ysgol a hefyd yn golygu nad yw'r holl ddisgyblion yn yr ysgol yn cael cyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. |
| 2.2 | Mae'r cynnig yn mynd yn groes i natur ddwyieithog ardal Bro Ddyfi. Mae'r system o ffrwd Gymraeg, dysgu Cymraeg a ffrwd Saesneg yn adlewyrchu demograffeg yr ardal yn berffaith ac yn cwrdd â'r agenda o hybu twf yn nefnydd y Gymraeg. | Fel yr uchod. |
| 2.3 | Ni welaf unrhyw fanteision oherwydd mae addysg Gymraeg eisoes yn cael ei chynnig ac ar gael i blant sy'n dewis ei derbyn. | Fel yr uchod. |
| 2.4 | Gall unrhyw un sy'n symud i'r ardal hon ddysgu'r iaith – mae llawer yn gwneud. Gall myfyrwyr a'u teuluoedd siarad Cymraeg yn y siopau, gyda ffrindiau ayyb, mae digon o gyfleoedd. Nid oes angen newid yr ysgol gyfan. | Fel yr uchod. |
| 2.5 | Yn syml, dylid gollwng y cynnig a meddwl am ffyrdd eraill o hyrwyddo'r Gymraeg os mai dyna'r wir agenda. Peidiwch â chwarae o gwmpas ag addysg pobl gan efallai rwystro eu hopsiynau yn y dyfodol. | Nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i ddisgyblion a gwella eu hopsiynau yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.6 | Os gorfodwch bobl i ddysgu rhywbeth, yn aml iawn maen nhw’n tueddu i wrthryfela yn ei erbyn. Pe bai Cymraeg yn opsiwn yn lle’n orfodol, byddai mwy o bobl ddi-Gymraeg yn cael eu denu at yr iaith drwy ddiddordeb yn hytrach na chael eu gorfodi. | Nodwn y sylw. Hyn a fu’n digwydd yn ardal Machynlleth ers blynyddoedd, gan arwain at gynnydd yng nghyfradd y disgyblion sy’n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, a lleihad yng nghyfradd y disgyblion sy’n dewis addysg cyfrwng Saesneg.<br><br>Fel y nodwn yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn, mae natur dwy ffrwd Ysgol Bro Hyddgen yn creu nifer o heriau i’r ysgol a hefyd yn golygu nad yw’r holl ddisgyblion yn yr ysgol yn cael cyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. |
| 2.7 | Mae’n hollol hurt newid yr iaith i fod yn uniaith Gymraeg. Nid dim ond i’r plant ond hefyd i’r rhieni. Mae Saesneg yn llawer mwy adnabyddus ac yn cael ei defnyddio llawer mwy na’r Gymraeg. | Mae’r Cyngor yn llwyr gydnabod bod angen i ddisgyblion fod yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nod y cynnig i newid categori iaith yr ysgol i fod yn gyfrwng Cymraeg yw sicrhau bod y disgyblion i gyd yn hollol ddwyieithog yn y ddwy iaith erbyn iddynt adael yr ysgol. |
| 2.8 | Rwy’n hollol yn erbyn unrhyw gynnig i wneud Ysgol Bro Hyddgen yn ysgol uniaith. Yn union fel y byddai’n anghywir gorfodi addysg uniaith Saesneg ar yr ysgol, mae’r un peth yn wir am addysg uniaith Gymraeg. | Fel yr uchod. |
| 2.9 | Rwy’n cytuno bod angen cadw’r iaith yn fyw ond nid dyma’r ffordd i wneud hynny. | Nodwn y sylw. |
| 2.10 | Mi dderbyniais i fy addysg yn ysgol sirol Machynlleth drwy’r Saesneg a derbyniodd fy ffrind gorau addysg drwy’r Gymraeg...gadawodd y ddwy ohonom yr ardal a chael gyrfaoedd da...fe weithiodd i ni. Pam newid pethau... | Mae’r Cyngor yn nodi llwyddiannau disgyblion a fynychodd yr ysgolion ym Machynlleth yn y gorffennol. Nod y cynnig yw sicrhau y gall Ysgol Bro Hyddgen barhau i gynnig addysg o ansawdd uchel i’w holl ddysgwyr yn y dyfodol, a sicrhau bod gan ei disgyblion i gyd gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn y ddwy iaith. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.11 | Mae pobl a aeth drwy'r ffrwd Saesneg yn y gorffennol yn gallu deall a siarad Cymraeg, nid oes dim o'i le â'r system oherwydd ni fethodd â rhoi'r sgil o siarad Cymraeg a Saesneg i bobl. | Mae'r Cyngor yn falch o nodi bod rhai disgyblion a dderbyniodd addysg cyfrwng Saesneg ym Machynlleth yn y gorffennol wedi llwyddo i ennill sgiliau iaith Gymraeg, fodd bynnag mewn ysgolion dwy ffrwd, dim ond disgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg sy'n dod yn gwbl ddwyieithog fel arfer. Nod y cynnig i newid categori iaith yr ysgol i fod yn gyfrwng Cymraeg yw sicrhau bod y disgyblion i gyd yn hollol ddwyieithog yn y ddwy iaith erbyn iddynt adael yr ysgol. |
| 2.12 | Fe weithiodd y ddwy ffrwd yn dda ers degawdau...mi wnes i a fy ngŵr fynd drwy'r ffrwd Saesneg yn y 1990/2000au, a hefyd ein mamau yn y 1970au / 1980au – pam newid pethau nawr a'r system wedi darparu addysg ers cyhyd? | Fel yr uchod. |
| 2.13 | Credaf fod hyn yn syniad cibddall iawn y mae'r rhan fwyaf o bobl Machynlleth yn ei erbyn. Mae plant sy'n dod allan o'r ysgol amser cinio'n siarad yn Saesneg, hyd yn oed os ydynt yn y ffrwd Gymraeg. Eu dewis nhw yw hynny ac mae ceisio troi plant ysgol yn ddisgyblion uniaith yn syniad drwg ac yn wastraff o amser ac arian. | Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen eu bod o blaid y cynnig.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn ceisio troi'r plant ysgol yn uniaith – nod y cynnig yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n mynd i Ysgol Bro Hyddgen yn cael cyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r drefn ddwy ffrwd bresennol yn golygu bod plant cyfrwng Cymraeg yn dod yn gwbl ddwyieithog, ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg sy'n datblygu sgiliau dwyieithog llawn. |
| 2.14 | Bydd hyn yn niweidiol ac yn cau allan y gymuned Saesneg ei hiaith ym Machynlleth. Bydd angen i blant deithio'n bellach i gael addysg ac mewn amser bydd ganddynt ffioedd wrth | Mae'r cynnig yn un i gyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn |

| | | |
|---|---|---|
| | deithio rhwng siroedd, sy’n dod yn llai a llai parod i dalu am y costau hyn. | yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau’r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau’r ysgol, felly byddent wedi trochi’n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |
| 2.15 | Nid yw awgrymu y dylai rhai plant yn y gymuned fynychu ysgol wahanol mewn cymuned wahanol yn ddigon da. Hoffwn weld cynnig i gryfhau addysg cyfrwng Cymraeg sy’n gwreiddio cynhwysiant o fewn ei brosesau a’i ganlyniadau. | Nid yw’r Cyngor yn cynnig bod unrhyw blant yn mynychu ysgol wahanol mewn cymuned wahanol. Er mwyn lleihau’r effaith ar ddisgyblion sy’n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai’r holl ddisgyblion sy’n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau’r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau’r ysgol, felly byddent wedi trochi’n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |
| 2.16 | Pam fod hyn gymaint yn bwysicach na chyflawniad academaidd ein plant a sut y gall ein plant addasu i wahanol rannau o’r byd. Mae’r argyfwng amgylcheddol y mae ein plant yn ei wynebu’n llawer pwysicach a thaer na gwarchod yr iaith Gymraeg. | Nod y cynnig yw darparu’r cyfleoedd addysgol gorau i bob disgybl, a sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ochr yn ochr â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, mae'r Cyngor yn parhau i symud ymlaen â'i gynlluniau i adeiladu campws cymunedol newydd gyda chyfleusterau blynyddoedd cynnar, addysg, hamdden a llyfrgell.<br><br>Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo'n llawn i'r agenda datgarboneiddio ac wedi datgan argyfwng hinsawdd.<br><br>Bydd adeilad Campws Cymunedol Bro Hyddgen yn un o'r adeiladau 'passivhaus' cyntaf o'i fath yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd y cynllun hefyd yn darparu adeilad Rhagorol o ran BREEAM.<br><br>Fel rhan o'r Strategaeth Buddiannau Cymunedol, bydd disgyblion yn cael cynnig cyfleoedd unigryw i ddysgu am sut y mae'r adeilad 'passivhaus' newydd yn cyfrannu at yr agenda datgarboneiddio. |
| 2.17 | Credaf y bydd newid yr ysgol i fod yn ysgol cyfrwng Gymraeg i gyd yn niweidiol i Fachynlleth. Prosiect 'balchder' yw hwn i ychydig o unigolion â chymhelliad gwleidyddol a fu'n pwyso am hyn ers blynyddoedd. | Nod y cynnig yw darparu'r cyfleoedd gorau posib i ddysgwyr sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen. Mae'r cynnig yn adlewyrchu nod y Cyngor o wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol. |
| 2.18 | Mae gan y rhai sy'n ceisio gorfodi ysgol uniaith Gymraeg ar Fachynlleth barch isel iawn i dreftadaeth falch ein cymuned – cymhelliad gwleidyddol yn unig sydd ganddynt. | Nod y cynnig yw darparu'r cyfleoedd gorau posib i ddysgwyr sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen. Mae'r cynnig yn adlewyrchu nod y Cyngor o wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol. |
| 2.19 | Addysg ddylai fod y flaenoriaeth, nid defnyddio'r ysgol fel stỳnt cyhoeddusrwydd i dreialu ffrwd iaith. | Nid yw'r Cyngor yn defnyddio'r ysgol fel stỳnt cyhoeddusrwydd i dreialu ffrwd iaith. Nod y cynnig yw |

| | | |
|---|---|---|
| | | darparu'r cyfleoedd gorau posib i ddysgwyr sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen. Mae'r cynnig yn adlewyrchu nod y Cyngor o wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol. |
| 2.20 | Byddai ond o fudd i ddysgwyr rhugl, sydd efallai ond yn nifer fach; mae gennym gymuned amrywiol ym Machynlleth, sy'n dref ddwyieithog yn bennaf gydag ysgolion da, a dyna pam fod pobl yn cael eu denu i symud yma. | Nod y cynnig yw darparu'r cyfleoedd addysgol gorau i bob disgybl, a sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |
| 2.21 | Mae'r bobl yr wyf yn eu hadnabod sy'n anghytuno â'r cynnig yn anghytuno am y rhesymau canlynol:<br><br>Maen nhw'n dod o deuluoedd Cymraeg eu hiaith gyda rhieni a benderfynodd eu rhoi drwy'r ffrwd Saesneg gan feddwl y | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | byddai'n well iddynt. Maen nhw'n teimlo'n driw i gredo eu rhieni a bod y cynnig hwn yn tanseilio hynny.<br>Maen nhw, neu eu plant, wedi profi hiliaeth wrth-Seisnig yn yr ysgol ym Machynlleth.<br>Ni chawsant hwy, neu eu plant, gymorth dysgu digonol ar gyfer dyslecsia.<br><br>Mae angen i chi fod yn glir iawn wrth geisio ateb y tri pheth yma er mwyn cael pobl i'ch cefnogi. Yn achos rhesymau 2 a 3, mae angen i chi fod yn glir bod unrhyw fethiant yn y gorffennol wedi bod oherwydd camgymeriadau pobl, ac nad oes bai ar yr iaith. | |

## 3. EFFAITH AR DDISGYBLION

### 3.1 Effaith gadarnhaol ar ddisgyblion

#### 3.1.1 Effaith gadarnhaol addysg cyfrwng Cymraeg ar ddisgyblion

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.1.1 | Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn creu plant hyderus ac mae'r iaith yn agor drysau a chyfleoedd newydd iddynt. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.2 | Byddai gan ddisgyblion mwy o hyder i siarad Cymraeg gyda'i gilydd oherwydd byddai pawb yn y dosbarth yn dysgu yn Gymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.3 | Byddai gan bob disgybl gyfle cyfartal i ddysgu'r iaith yn lle parhau gyda'r sefyllfa anghyfartal bresennol. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.1.4 | Mae disgyblion nad ydynt yn cael eu trochi a'u haddysgu yn Gymraeg yn colli allan – yn broffesiynol a chymdeithasol. Mae gallu defnyddio'r Gymraeg o fudd i'r disgyblion hyn. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.5 | Mae'n bwysig bod cymaint o bobl ifanc â phosib yn cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg *iawn*. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.6 | Byddai'n gwella sgiliau ieithyddol plant. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.7 | Byddai disgyblion yn fwy profiadol a medrus wrth ddefnyddio'r Gymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.8 | Mae dwyieithrwydd o fudd i unrhyw ddisgybl, mewn unrhyw iaith. Mae'r ystadegau'n dangos hyn ar draws Ewrop. Mae'r canlyniadau addysgol yn ardal Gwynedd yn uchel iawn. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.9 | Drwy addysgu'n ddwyieithog, bydd plant yn dysgu geiriau syml ac yn eu defnyddio mewn cyd-destun fydd yn gwella eu dealltwriaeth o'r Gymraeg, yn hytrach na rhannu'r ddwy ffrwd. Byddai hyn yn integreiddio'r disgyblion er mwyn gallu eu haddysgu gyda'i gilydd i ddysgu Cymraeg a Saesneg. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.10 | Gallai rhai plant ddysgu'r iaith yn gymharol sydyn ac yna mynd ymlaen i'w defnyddio. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.11 | Byddai'n gwella sgiliau iaith Gymraeg pob disgybl i safon dda fel eu bod yn barod am y byd gwaith. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.12 | Mae plant dwyieithog yn cael canlyniadau gwell. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.13 | Byddai'r cynnig yn rhoi, i bob disgybl, y sgiliau Cymraeg sydd ei angen arnynt i fod yn ddinasyddion dwyieithog ac yn | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | eu helpu i gyfrannu'n llawn i'w cymuned, ehangu eu gorwelion a manteisio ar ystod eang o swyddi, yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, gan wella eu gwerthfawrogiad o'u diwylliant ac o ddiwylliannau eraill. | |
| 3.1.1.14 | Y plant fydd yn elwa o hyn – ni ddylai hyn fod yn ddadl i'r rhieni. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.15 | Byddai'n gwella'r cyfleoedd i siarad Cymraeg, nid yn unig i blant di-Gymraeg sydd efallai angen hwb arnynt, ond hefyd i ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith sy'n teimlo dan bwysau i siarad Saesneg y tu allan i'w gwersi oherwydd bod y rhan fwyaf o'u ffrindiau yn dewis siarad Saesneg er yn gallu siarad Cymraeg. Byddai'n annog plant yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, drwy wella eu hyder yn yr iaith. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.16 | Addysg cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo mwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wledig. Dylid annog plant i fod yn rhan o ddiwylliant Cymraeg yr ardal o'r dechrau un, ac ni ddylai fod gan rieni di-Gymraeg yr opsiwn i newid iaith addysg eu plant. Byddent i gyd yn falch pan fydd y plant yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y ddwy iaith. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.17 | Hollol gadarnhaol oherwydd byddai nifer o blant, o fynd drwy'r system hon, yn dysgu'r iaith i safon lle byddent yn rhugl ac yn gallu ei defnyddio pob dydd i gymdeithasu, yn y gwaith, i wella cyfleoedd cyflogaeth, ar gyfer diwylliant, ac i gael ymdeimlad o berthyn i'r gymuned. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.18 | Pe bai'r disgyblion i gyd yn cael eu haddysgu yn Gymraeg, byddai gan y plant ddealltwriaeth well o Gymru a'i hanes. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.1.19 | Rwy'n meddwl ei fod yn dda dechrau'n ifanc oherwydd mae'n haws dysgu ieithoedd pan fyddwch yn iau, rydych yn eu dysgu'n gynt. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.20 | Teimlaf fod addysg cyfrwng Cymraeg o oedran ifanc yn syniad da iawn. Yn yr oedran ifanc hwnnw, nid ydych yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r Gymraeg, ac i rai gyda rhieni di-Gymraeg, efallai nad ydynt yn sylweddoli pa mor bwysig yw dysgu'r Gymraeg yn rhugl tan fyddan nhw'n hŷn. Unwaith iddynt gyrraedd yr uwchradd, mae'n llawer anoddach dysgu Cymraeg yn rhugl. Felly mae'n llawer haws dysgu o oedran ifanc. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.21 | Byddai'n syniad da, mae mor bwysig bod plant yn ddwyieithog. Byddai'n beth da i'r iaith Gymraeg. Mae'n syniad da cael plant i ddysgu Cymraeg o oedran ifanc. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.22 | Ni chefais i drafferth dysgu Cymraeg, mae fy nain yn siarad Cymraeg a Saesneg ac fel helpodd fi i siarad Cymraeg. Nid oeddwn i'n poeni am ddysgu yn Gymraeg, roeddwn yn hapus i dderbyn addysg yn Gymraeg er bod fy rhieni'n siarad Saesneg. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.1.23 | Mae gan bobl ddwyieithog sgiliau meddwl gwell. Er enghraifft, maen nhw'n gallu canolbwyntio a chofio pethau'n well a bydd ganddynt swyddi gwell yn y dyfodol. | Nodwn y sylw. |

### 3.1.2 Swyddi gwell i ddisgyblion

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.2.1 | Byddai'n helpu plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a dod o hyd i swyddi na fyddai fel arall ar gael iddynt wrth adael yr ysgol. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.2.2 | Bydd gallu defnyddio’r Gymraeg yn rhoi mynediad at ystod ehangach o swyddi yn yr ardal neu’n bellach i ffwrdd. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.3 | Byddai’n helpu plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a dod o hyd i swyddi na fyddai fel arall ar gael iddynt wrth adael yr ysgol. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.4 | Efallai mwy o gyfleoedd gwaith. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.5 | Mae dysgu iaith arall yn rhoi mantais i ddisgyblion wrth chwilio am waith ac yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth a pharch tuag at ieithoedd eraill. Bydd hyn yn eu helpu ar draws y byd. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.6 | Yn ystod gyrfa eithaf llwyddiannus, bu’n bosib i mi ymgeisio am swyddi eithaf diddorol oherwydd roedd gallu ysgrifennu Cymraeg yn cael ei ystyried yn hanfodol, fel y dylai fod. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.7 | Mae parhad mewn addysg, o’r blynyddoedd cynnar tan ôl-16 / addysg bellach, yn hanfodol gyda’r gweithle’n galw am fod yn rhugl yn y ddwy iaith. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.8 | Fel cyflogwr lleol, rwy’n gweld hyn fel newid cadarnhaol iawn oherwydd mae’n debygol o gynyddu nifer y disgyblion sy’n gallu cyflawni ystod o swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.9 | Fel cyflogwr lleol ym maes gweithgynhyrchu sy’n gweithredu’n bennaf yn Gymraeg, gwelwn y newid i’r polisi iaith fel ffordd i blant ddatblygu sgiliau ymarferol (peirianneg a TG) drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â’r cymwysterau academaidd traddodiadol. Er yn ffodus ein bod wedi denu pobl ifanc ardderchog o ardal Machynlleth dros y | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | blynyddoedd, mae denu pobl gyda’r sgiliau technolegol hanfodol iawn wastad wedi bod yn broblem. Felly, rydym yn croesawu’r ffaith bod polisi iaith Ysgol Bro Hyddgen yn cael ei gryfhau fel cam tuag at wella’r sefyllfa. | |
| 3.1.2.10 | Disgyblion Ysgol Bro Hyddgen yw gweithwyr y dyfodol ac mae yna gyfrifoldeb i sicrhau bod yr ysgol yn creu disgyblion dwyieithog sy’n hyderus yn y ddwy iaith. Dengys ystadegau fod gweithwyr dwyieithog, ar gyfartaledd, yn ennill 9% yn fwy na gweithwyr sydd ond yn siarad un iaith. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.11 | Mae myfyrwyr a astudiodd yn Gymraeg yn fwy tebygol o gael swyddi graddedigion ar ôl graddio (ewch i wefan Prifysgol Aberystwyth). | Nodwn y sylw. |
| 3.1.2.12 | Pe bai pob disgybl yn cael eu haddysgu yn Gymraeg, byddai gan blant fwy o gyfleoedd a swyddi yng Nghymru. | Nodwn y sylw. |

### 3.1.3 Effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth i ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.3.1 | Byddai plant yn cael eu gwasgaru ar draws ystod iachach o ddosbarthiadau, yn enwedig wrth drosglwyddo i’r uwchradd. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.3.2 | Ar hyn o bryd, mae plant yn y ffrwd Saesneg wedi eu cyfyngu i’r un cohort o blant yn ystod eu gwersi. Mae’n gamarweiniol meddwl bod gan y ffrwd Gymraeg a’r ffrwd Saesneg gyfleoedd i gymysgu yn yr un ysgol; ychydig iawn o gyfle i gymysgu sydd tra bydd yr ysgol yn aros yn ddwy ffrwd. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.3.3 | Byddai’n osgoi dyblygu dosbarthiadau’n ddiangen i nifer fach o blant ac yn golygu y byddai disgyblion oed cynradd yn cael | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | eu haddysgu gyda'u cyfoedion, yn lle cyfuno nifer o flynyddoedd gyda'i gilydd. Bydd modd rhoi mwy o ffocws ar beth sydd angen iddynt ei ddysgu. | |

### 3.1.4 Cyfleoedd gwell i ddisgyblion

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.4.1 | Dyma'r cam naturiol i'w gymryd o ystyried datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf, ac yn gam cadarnhaol a fyddai'n gwella cyfleoedd i holl bobl ifanc yr ardal yn y dyfodol. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.4.2 | Byddai'n cynyddu'r cyflenwad o bobl ifanc yn yr ardal a allai ddefnyddio'r Gymraeg i weithio a chymdeithasu. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.4.3 | Byddai'r cynnig yn creu cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion drwy agor drysau i'w dyfodol ac agor eu llygaid i brofiadau mewn cymuned gryfach. | Nodwn y sylw. |

### 3.1.5 Rhywbeth arall

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.5.1 | Byddai'r disgyblion yn cael eu trochi yn y Gymraeg o oedran ifanc iawn, felly dylai fod yn naturiol iddynt ddewis parhau gyda'u haddysg yn Gymraeg wrth fynd yn hŷn heb deimlo eu bod yn colli allan drwy beidio ag astudio yn Saesneg. | Nodwn y sylw. |
| 3.1.5.2 | Nid oes budd i ddisgyblion a astudiodd drwy'r Gymraeg o astudio pynciau Gwyddoniaeth yn Saesneg yn unig – yn wir, mae astudio'r pynciau hyn yn Gymraeg yn fuddiol oherwydd mae plant yn dysgu'r termau Saesneg ochr yn ochr â'r termau Cymraeg (daw'r rhan fwyaf o dermau gwyddonol o'r | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | Lladin). Mae dysgu'r gwyddorau'n ddwyieithog yn arwain at ddealltwriaeth well o'r pynciau hyn. | |
| 3.1.5.3 | Mae myfyrwyr nad ydynt wedi astudio pynciau Lefel A yn Gymraeg yn annhebygol o astudio yn Gymraeg mewn addysg uwch (wele'r ymchwil gan Brifysgol Aberystwyth 2009-2011). | Nodwn y sylw. |

### 3.2 Pryderon am yr effaith negyddol ar ddisgyblion

### 3.2.1 Pryder y byddai disgyblion yn cael trafferth ag addysg cyfrwng Cymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.1.1 | Pryderon y bydd y disgyblion yn cael trafferth. | Noda'r Cyngor y pryderon hyn am effaith y cynnig ar ddisgyblion. Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Ar hyd a lled Cymru, daw cyfran helaeth o'r disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg o gartrefi hollol ddi-Gymraeg ac nid yw hyn yn effeithio dim ar eu gallu i |

| | | |
|---|---|---|
| | | lwyddo yn eu haddysg. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Cymraeg yn y pen draw'n dod yn brif iaith cyfathrebu'r ysgol, fel bod pob disgybl yn gallu gwella eu sgiliau Cymraeg a disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn fwy rhugl yn Gymraeg gan sicrhau eu bod yn gallu ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Ochr yn ochr ag unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol, byddai'r Cyngor yn sicrhau bod darpariaeth ychwanegol fel gwersi trochi a chymorth iaith ychwanegol ar gael i helpu disgyblion a'u teuluoedd. |
| 3.2.1.2 | Byddai gorfod dysgu pwnc yn Gymraeg, os na fyddai'r iaith yn famiaith i'r plentyn, yn eu rhoi dan anfantais o'i gymharu â phlant Cymraeg iaith gyntaf. Ni ddylai plant Saesneg eu hiaith orfod derbyn graddau is oherwydd na fyddent yn gallu cael eu haddysgu yn eu mamiaith. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.3 | Ni fydd plant yn dysgu i'w llawn botensial. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.4 | Byddai hyn yn achosi pryder aruthrol i blant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl ar hyn o bryd. Mae gan blant ddigon i ymdopi â fo'n barod heb gael y pwysau ychwanegol o geisio dysgu mewn iaith nad yw'n dod yn naturiol iddynt. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.5 | Byddai hyn yn rhoi rhai plant o dan anfantais ac yn dal eu haddysg yn ôl. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.6 | Pryder y byddai plant yn ofni mynd i'r ysgol oherwydd na fyddent yn gallu deall na hyd yn oed cadw i fyny â gwaith y dosbarth. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.1.7 | Pryder y byddai effaith andwyol ar addysg y plant. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.8 | Pryder y byddai'n ddryslyd ac y byddai cael eu haddysgu mewn iaith arall yn ormod i ddisgyblion ymdopi â fo. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.9 | Ni ddylai plant golli allan os ydyn nhw'n digwydd â chael trafferth pasio arholiadau mewn un iaith. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.10 | Efallai'n wir y byddai'n wych i fwy o bobl siarad Cymraeg, ond mae'n cael ei wrthbwyso gan y ffaith y byddai disgyblion di-Gymraeg naill ai'n gorfod dod yn rhugl i ddeall eu gwersi, neu'n gorfod symud i ysgol arall. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.11 | Byddai'n hollol annheg i blant di-Gymraeg a'u rhieni. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.12 | Pryder y byddai disgyblion o gartrefi hollol ddi-Gymraeg yn teimlo allan ohoni. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.13 | Bydd hyder myfyrwyr sy'n cael trafferthion academaidd, ac sy'n siarad Saesneg gartref, yn chwalu a byddai'n andwyol i'w haddysg. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.14 | Poeni y bydd plant yn teimlo'n dwp os na fyddent yn deall pynciau yn Gymraeg a dim cymorth gan y cartref i'w helpu. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.15 | Mae pob plentyn yn wahanol ac ni ddylai plant o gefndiroedd Saesneg eu hiaith ddioddef neu gael trafferth â'u haddysg. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.16 | Mae cyfran helaeth o fyfyrwyr ym Machynlleth yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Nid yw cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg yn ddelfrydol i bob un o'r plant hyn. Bydd llawer o blant llusgo ar ôl drwy gael eu haddysg yn Gymraeg yn unig. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.1.17 | Byddai'r cynnig i droi Ysgol Bro Hyddgen yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn eithrio llawer o'r disgyblion rhag cael profiad dysgu cadarnhaol, yn enwedig rhai a symudodd i'r ardal o dramor neu o ysgol cyfrwng Saesneg, disgyblion gydag anawsterau dysgu neu o deuluoedd llai cefnogol. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.18 | Mae llawer o fy ffrindiau i'n poeni am newid i ysgol cyfrwng Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 3.2.1.19 | Er bod plant dwyieithog yn perfformio'n well na phlant uniaith mewn rhai meysydd sgiliau, fel ieithoedd a meddwl yn ochrol, mae tystiolaeth dda hefyd fod plant sy'n cael eu haddysgu a'u harholi yn eu hiaith gyntaf at ei gilydd yn perfformio'n well na rhai a addysgir yn eu hail iaith, o gael eu hasesu ar draws yr amrediad cyfan o bynciau. Rhaid i rieni a disgyblion gydbwyso'r ffactorau hyn fesul unigolyn wrth benderfynu ar y ffordd orau o'u haddysgu. | Awgryma'r dystiolaeth yng Nghymru fod disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg sy'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg yn derbyn canlyniadau addysgol sydd o leiaf cystal â'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. |
| 3.2.1.20 | Pryder y byddai plant yn ofni siarad Saesneg yn yr ysgol rhag ofn iddynt gael eu dwrdio. | Byddai'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion i siarad y ddwy iaith. |
| 3.2.1.21 | Bydd yr opsiwn yma'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion yn y dyfodol ac yn anfantais o ran gwaith ac astudiaeth bellach nes ymlaen yn eu bywydau. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r sylw hwn. Nod y cynnig yw darparu'r cyfleoedd addysgol gorau i bob disgybl, a sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, a bod ganddynt y sgiliau dwyieithog sydd ei angen arnynt i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ac astudiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. |
| 3.2.1.22 | Mae lles plant yn bwysicach. | Mae'r Cyngor yn cytuno bod sicrhau lles plant yn hanfodol. Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Yn y tymor hirach, ym marn y Cyngor byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar les plant oherwydd byddent i gyd yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarthiadau ac yn cael cyfle i fod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg. Felly byddai'r cynnig yn arwain at gydlyniant gwell yn yr ysgol a'r gymuned. |

### 3.2.2 Poeni a allai rhieni helpu gyda gwaith cartref

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.2.1 | Ni fyddai rhai plant sydd heb rieni sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael help gyda gwaith cartref. | Mae'r Cyngor yn nodi pryderon na allai rhieni di-Gymraeg helpu gyda gwaith cartref. Ar draws Cymru, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cyflwyno nifer o strategaethau i helpu rhieni i gynorthwyo eu plant gyda gwaith cartref, gan sicrhau nad yw disgyblion gyda rhieni di-Gymraeg o dan anfantais. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dangoswyd hefyd bod gallu trafod gwaith cartref yn Saesneg gyda rhieni'n fuddiol i blant oherwydd bod dwyieithrwydd yn cynorthwyo datblygiad cysyniadol.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i roi trefniadau priodol yn eu lle i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd. |
| 3.2.2.2 | Nid yw pob plentyn yn gallu dysgu a mynd drwy'r ysgol heb riant i helpu gyda gwaith cartref, bydd llawer ohonynt efallai'n ddysgwyr Cymraeg eu hunain. | Fel yr uchod. |
| 3.2.2.3 | Byddai rhai rhieni'n cael trafferth helpu gyda gwaith cartref pe bai ond yn Gymraeg. | Fel yr uchod. |
| 3.2.2.4 | Dylid rhoi cymorth ychwanegol gyda gwaith cartref i blant o gartrefi di-Gymraeg fel na fyddent yn cael trafferth deall y gwaith. | Fel yr uchod. |
| 3.2.2.5 | Os bydd rhieni'n methu â helpu eu plant gyda gwaith cartref ayyb, bydd y rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol. | Fel yr uchod. |

### 3.2.3 Effaith negyddol ar ddisgyblion cyfrwng Cymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.3.1 | Byddai disgyblion Cymraeg eu hiaith o dan anfantais oherwydd bydd angen i'r athrawon ganolbwyntio ar ddysgwyr di-Gymraeg. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai'r cynnig yn rhoi disgyblion Cymraeg eu hiaith o dan anfantais.<br><br>Nod y cynnig yw sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg a bod ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg sydd ei angen arnynt i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Ar draws Cymru, daw'r rhan |

| | | |
|---|---|---|
| | | fwyaf o ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg o gartrefi hollol ddi-Gymraeg, ond nid yw hyn yn andwyol i ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. |
| 3.2.3.2 | Bydd yn dal y disgyblion presennol sy'n Gymraeg iaith gyntaf yn ôl. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai'r cynnig yn dal disgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn ôl.<br><br>Nod y cynnig yw sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg a bod ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg sydd ei angen arnynt i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Ar draws Cymru, daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg o gartrefi hollol ddi-Gymraeg, ond nid yw hyn yn andwyol i ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. |
| 3.2.3.3 | Bydd plant Cymraeg yn dioddef wrth i'r iaith a ddefnyddir gael ei glastwreiddio i sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn deall. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai'r cynnig yn golygu y byddai disgyblion Cymraeg eu hiaith yn dioddef.<br><br>Nod y cynnig yw sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg a bod ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg sydd ei angen arnynt i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Ar draws Cymru, daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg o gartrefi hollol ddi-Gymraeg, ond nid yw hyn yn andwyol i ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. |

### 3.2.4 Effaith negyddol ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg dros y cyfnod pontio

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.4.1 | Er y byddai addysg cyfrwng Saesneg cynyddol lai'n parhau am ychydig flynyddoedd (dan opsiwn 5A), mewn realiti byddai proses o leihad graddol yn digwydd yn yr Ysgol, | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | gydag addysgu drwy'r Saesneg yn lleihau'n raddol gan arwain at fyfyrwyr a fyddai'n parhau gyda'r cyfrwng Saesneg yn teimlo'n fwyfwy lleiafrifol ac efallai hefyd yn arwain at iddynt chwilio am ysgolion eraill. | Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i ddysgwyr a fyddai'n parhau gyda'r cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen dros y cyfnod pontio. |
| 3.2.4.2 | Gallai fod yn anodd i ddisgyblion ffrwd Saesneg Blynyddoedd 1-6 ddod i arfer â'r newid. | Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol. |

### 3.2.5 Poeni am yr effaith ar ddisgyblion sy'n symud i'r ardal ar ganol eu haddysg

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.5.1 | Mae gen i bryderon am sut y gallai effeithio ar blant sy'n symud i fyw i'r ardal yn ystod eu blynyddoedd ysgol os nad oes ffrwd Saesneg ar gael. Byddai trefniadau i gyflwyno'r plant yn raddol yn dda. | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn am yr effaith bosib ar blant a fyddai'n symud i'r ardal yn ystod eu haddysg ysgol pe na bai ffrwd Saesneg ym Machynlleth. Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Ochr yn ochr ag unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol, byddai'r Cyngor yn sicrhau bod darpariaeth ychwanegol fel gwersi trochi a chymorth iaith ychwanegol ar gael i helpu disgyblion a'u teuluoedd, gan roi cyfle i ddisgyblion sy'n symud i'r ardal yn ystod eu blynyddoedd ysgol gael eu trochi yn yr iaith Gymraeg, fel |

| | | |
|---|---|---|
| | | y byddent yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Hyddgen.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 3.2.5.2 | Beth am rai sy'n dod o Loegr ac a fyddai eisiau mynd i Ysgol Bro Hyddgen? | Fel yr uchod. |
| 3.2.5.3 | Mae angen cael darpariaeth glir wedi'i phrofi fel bod plant a theuluoedd di-Gymraeg yn derbyn cymorth ychwanegol ar bob lefel yn yr ysgol i gynorthwyo disgyblion sy'n symud i'r ardal ar unrhyw adeg yn eu gyrfa ysgol. | Fel yr uchod. |
| 3.2.5.4 | Efallai y byddai mewnfudwyr i'r ardal heb wybod dim am y Gymraeg yn cael trafferth dysgu iaith newydd. | Fel yr uchod. |
| 3.2.5.5 | Pe bai disgyblion yn symud o Birmingham neu rywle arall yn Lloegr ym mlynyddoedd hŷn eu haddysg, byddai'n anodd iawn iddynt symud i ysgol hollol Gymraeg. Felly gallai wneud pethau'n anoddach i lawer o fyfyrwyr. | Fel yr uchod. |
| 3.2.5.6 | Pe bai pobl di-Gymraeg yn symud i'r ardal, bydd yn anodd iawn iddyn nhw. Mae rhai disgyblion a ddaeth i fy mlwyddyn uwchradd i wedi cael trafferth. Teimlaf fod hynny'n rhywbeth sydd angen rhoi amser iddo i'w helpu i ddysgu'r iaith. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.5.7 | Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai'n hollol andwyol a sarhaus i bawb sy'n byw yn yr ardal a hefyd yn effeithio ar unrhyw un a fyddai'n symud i'r ardal yn y dyfodol. | Mae'r Cyngor yn anghytuno y byddai'r cynnig yn hollol andwyol a sarhaus i bawb sy'n byw yn yr ardal. Mae nifer y rhai wnaeth ymateb o blaid y cynnig yn awgrymu bod cefnogaeth leol sylweddol i'r cynnig.<br><br>Wele ymateb uchod y Cyngor i sylwadau am yr effaith ar unrhyw un yn symud i'r ardal yn y dyfodol. |

### 3.2.6 Rhywbeth arall

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.6.1 | Bydd disgyblion sy'n dewis mynd i ysgolion eraill i dderbyn addysg cyfrwng Saesneg yn colli'r cyfle i siarad Cymraeg mewn ysgol gydag ethos Cymraeg cryf fel Bro Hyddgen. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar eu defnydd o'r iaith wrth iddynt fynd yn hŷn. | Nodwn y sylw, fodd bynnag y bwriad yw cyflwyno'r newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, a fyddai'n lleihau nifer y disgyblion a fyddai'n dewis symud i ysgolion eraill i dderbyn addysg cyfrwng Saesneg.<br><br>Mae'n ofynnol i bob ysgol yng Nghymru addysgu Cymraeg fel ail iaith a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Pe bai disgyblion yn dewis derbyn addysg cyfrwng Saesneg mewn ysgolion gwahanol, yn lle mynd i Ysgol Bro Hyddgen, byddent yn parhau i dderbyn cyfleoedd i ddysgu Cymraeg fel ail iaith. |
| 3.2.6.2 | Mae plant a phobl ifanc Machynlleth, efallai'n fwy na'r rhan fwyaf, wedi bod drwy amser arbennig o anodd yn y deng mlynedd diwethaf. Nid ydynt yn haeddu cael eu defnyddio fel arbrawf gwleidyddol a hynny efallai ar draul eu dyfodol ac undod gwerthfawr eu cymuned. | Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau a wynebodd blant a phobl ifanc Machynlleth yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'n wir fod y Cyngor yn eu defnyddio fel rhan o arbrawf gwleidyddol.<br><br>Nod y cynnig yw darparu'r cyfleoedd addysgol gorau i bob disgybl, a sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg |

| | | |
|---|---|---|
| | | a Saesneg, a bod ganddynt y sgiliau dwyieithog sydd ei angen arnynt i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ac astudiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.<br><br>Y bwriad yw y byddai gweithredu'r cynnig yn cryfhau cydlyniant y gymuned yn y tymor hir wrth i'r disgyblion i gyd gael eu haddysgu yn yr un dosbarthiadau. |

## 4. CYFEIRIO AT DDARPARIAETH / SGILIAU DRWY'R SAESNEG

### 4.1 Dylai rhai pynciau fod ar gael yn Saesneg

| | | |
|---|---|---|
| 4.1.1 | Pan fo'n dod i'r ysgol uwchradd, credaf y gallai addysg cyfrwng Cymraeg yn unig fod yn niweidiol, er enghraifft mae iaith eu hunain gan bynciau Gwyddoniaeth a Mathemateg. | Mae Ysgol Bro Hyddgen eisoes yn addysgu Mathemateg a phynciau Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Mae ennill dealltwriaeth o derminoleg pwnc-benodol yn Gymraeg a Saesneg yn rhan naturiol o addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ychwanegu at ddealltwriaeth y disgyblion o'r cysyniadau.<br>Nid oes tystiolaeth bod y canlyniadau i ddisgyblion yn y pynciau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r canlyniadau i ddisgyblion sy'n astudio drwy'r Saesneg. |
| 4.1.2 | Mae'r byd i gyd yn siarad Saesneg – byddai gallu dysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth a phynciau eraill drwy gyfrwng y Saesneg ond yn beth da pe byddech yn dewis mynd i brifysgol y tu allan i Gymru? | Mae disgyblion sy'n astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth yn Gymraeg hefyd yn deall y derminoleg a'r cysyniadau yn Saesneg, felly nid oes unrhyw reswm pam na allent barhau i astudio'r pynciau hyn mewn prifysgolion y tu allan i Gymru. Mae sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru wedi llwyddo mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a gwledydd eraill, yn ogystal â rhai yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 4.1.3 | Byddai'r disgyblion yn elwa o ddysgu terminoleg Mathemateg a Gwyddoniaeth yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg. | Fel yr uchod. |
| 4.1.4 | Byddai'n well dysgu Mathemateg yn Saesneg yn lle drwy'r Gymraeg pe bai rhywun yn bwriadu astudio mewn prifysgol drwy'r Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 4.1.5 | Dylid cynnig rhai pynciau TGAU a Lefel A yn Saesneg, er enghraifft Gwyddoniaeth – byddai hyn yn rhoi opsiwn i ddisgyblion fydd yn astudio pynciau Gwyddoniaeth / Saesneg yn y brifysgol nes ymlaen. | Fel yr uchod. |
| 4.1.6 | Ai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg fydd y pynciau i gyd ar gael? Os edrychwch ar ysgolion uwchradd Penweddig a Thywyn, mae rhai pynciau'n cael eu cynnig yn Gymraeg neu Saesneg, neu'n ddwyieithog. A fydd pob pwnc yn cael ei addysgu yn Gymraeg? | Fel yr uchod. |
| 4.1.7 | A oes canran o bynciau y gall ysgol ddwyieithog eu cynnig yn Saesneg? Mae angen i ni dawelu'r ofnau a dangos bod opsiwn i'r plant. Os yw'r ysgol yn gweithio i sicrhau y bydd gan ddisgyblion fynediad at y ddwy iaith, yna efallai na fyddai'r syniad o ofni na fyddai pwnc penodol ar gael yn Saesneg neu Gymraeg yn bodoli. | Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ymgynghori ar gategorïau iaith newydd i ysgolion. |
| 4.1.8 | Bydd angen i blentyn a fyddai eisiau gyrfa mewn Mathemateg neu bynciau Gwyddoniaeth astudio yn Saesneg mewn addysg bellach. Felly, bydd angen i blant ysgol uwchradd sydd eisiau gyrfa o'r fath ddeall y pynciau hyn yn Saesneg yn yr uwchradd, yn enwedig rhai o gartrefi Cymraeg eu hiaith, i osgoi anfantais nes ymlaen yn eu bywydau. | Nid oes angen i blentyn a fyddai eisiau gyrfa mewn Mathemateg neu bynciau Gyddoniaeth astudio yn Saesneg mewn addysg bellach. Mae cyfleoedd sylweddol i astudio'r pynciau hyn yn Gymraeg mewn addysg bellach yng Nghymru. Mae sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi llwyddo mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a gwledydd eraill, yn ogystal â rhai yng Nghymru.<br><br>Mae ennill dealltwriaeth o derminoleg pwnc-benodol yn Gymraeg a Saesneg yn rhan naturiol o addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ychwanegu at ddealltwriaeth y disgyblion o'r cysyniadau. |
| 4.1.9 | Mae angen i blant sydd eisiau gyrfa dechnegol (peiriannydd / meddyg) fod yn gallu astudio naill ai drwy'r Saesneg neu'r Gymraeg yn y pynciau penodol hyn (Mathemateg / Gwyddoniaeth). | Fel yr uchod. |
| 4.1.10 | Opsiynau i astudio rhai pynciau yn Saesneg, yn enwedig Lefel A. | Fel yr uchod. |
| 4.1.11 | Dylai disgyblion fod yn gallu parhau gyda phynciau craidd yn Saesneg oherwydd, wedi tyfu fyny a symud i ffwrdd, byddant yn astudio yn Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 4.1.12 | Beth am flynyddoedd 10-13, sy'n flynyddoedd pwysig gydag arholiadau.  A fyddai'n bosib gwneud y pynciau yn Gymraeg neu yn Saesneg? Byddai astudio Lefel A yn Saesneg yn haws i ddisgyblion a fyddai'n mynd i astudio yn Saesneg yn y brifysgol. Ar gyfer TGAU a Lefel A, weithiau mae rhai pynciau'n haws yn Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 4.1.13 | Un o'r cwestiynau a ofynnir yn aml gan rieni yw ynghylch pynciau Gwyddoniaeth. A fydd disgyblion yn gorfod astudio pynciau fel hyn drwy'r Gymraeg? Pynciau fel hyn sy'n gwneud i rieni boeni, a phe byddent er enghraifft yn mynd i | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | brifysgol Lerpwl, a fyddent yn deall beth sy'n cael ei addysgu? | |

### 4.2 Mae angen sgiliau Saesneg

| | | |
|---|---|---|
| 4.2.1 | Rhaid i Saesneg bob amser cael ei ddefnyddio mewn ysgolion Cymraeg. Ni ddylai plant sydd ei angen arnynt golli'r opsiwn i astudio yn Saesneg. Rydyn ni'n ddinasyddion byd-eang ac mae addysgu yn Gymraeg yn unig yn gibddall ac yn cymryd yn ganiataol y bydd ein plant yn aros yng Nghymru. Bydd gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg wastad yn llawer mwy gwerthfawr i'n plant nes ymlaen yn eu bywydau, na gallu gwneud hynny yn Gymraeg. Dim ond nifer fach o swyddi a fyddai'n gofyn cael y Gymraeg. Mae Saesneg yn iaith fyd-eang. Byddai addysgu ein plant mewn Ffrangeg, Sbaeneg, Mandarin neu Rwsieg yn fwy gwerthfawr. | Mae'r Cyngor yn llwyr gydnabod bod angen i ddisgyblion fod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg.<br><br>Nod addysg cyfrwng Cymraeg yw sicrhau bod disgyblion yn dod yn ddwyieithog ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai'r disgyblion i gyd yn parhau i astudio Saesneg hyd at TGAU ac yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn ogystal â Chymraeg. |
| 4.2.2 | Mae'n bwysig cofio bod Saesneg yn iaith fyd-eang sy'n cael ei chydnabod drwy'r byd a bydd y rhan fwyaf o gyflogaeth neu addysg bellach drwy gyfrwng y Saesneg lle mae angen dealltwriaeth gadarn o'r iaith honno. | Fel yr uchod. |
| 4.2.3 | Yn gyntaf oll, hoffwn i fy mhlentyn ddarllen ac ysgrifennu'n dda yn Saesneg a phe bai fy mhlentyn am ddysgu Cymraeg nes ymlaen yn eu bywyd, eu dewis nhw fyddai hynny. | Fel yr uchod. |
| 4.2.4 | Byddai siarad Saesneg yn fwy rhugl na Chymraeg yn agor llawer mwy o ddrysau na'r Gymraeg. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 4.2.5 | Er yn cytuno bod angen mwy o bobl i siarad Cymraeg, ni allwn wadu ein bod yn rhan o ynys lle y mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 4.2.6 | Mae'n bwysig bod gan blant feistrolaeth dda o'r Saesneg. | Fel yr uchod. |

## 5. CYFEIRIO AT ADDYSG ÔL-16 / ADDYSG BELLACH / UWCH

### 5.1 Cyfeirio at ddarpariaeth chweched dosbarth

| | | |
|---|---|---|
| 5.1.1 | Nid oes gan Wynedd unrhyw ysgol gyda Chweched Dosbarth yn yr ardal, felly ar hyn o bryd rhaid i fyfyrwyr o Wynedd sydd eisiau addysg Chweched deithio i Fachynlleth. Bydd disgyblion Saesneg eu hiaith o Ddolgellau ayyb yn cael eu heffeithio'n negyddol drwy golli'r ddarpariaeth hon. | Er y noda'r Cyngor y pryderon hyn am effaith bosib y cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen ar ddisgyblion chweched dosbarth yng Ngwynedd, nid mater i Gyngor Sir Powys yw hyn.<br><br>Mater i Gyngor Sir Gwynedd a'i bartneriaid ôl-16 yw mynediad at addysg ôl-16 i ddisgyblion yng Ngwynedd. |
| 5.1.2 | Mae Ysgol Bro Idris hefyd yn gyfrwng Cymraeg, felly bydd ail-ddynodi Bro Hyddgen yn gyfrwng Cymraeg, ac yn enwedig drwy addysgu'n drochol yn Gymraeg, yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion o'r ardal honno. | Fel yr uchod. |
| 5.1.3 | Ni fydd gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth cyfrwng Saesneg (yn enwedig myfyrwyr o ardal coleg Dolgellau) fynediad mwyach at fwy o gyrsiau academaidd nag a gynigir gan goleg Dolgellau (e.e. Mathemateg Bellach, Mathemateg, ayyb) | Fel yr uchod. |
| 5.1.4 | Byddai'n rhaid i fyfyrwyr chweched dosbarth o Bowys a fyddai'n dymuno addysg Saesneg deithio y tu allan i'r sir i Aberystwyth, sy'n siwrne bell iawn i rai disgyblion. Hefyd, | Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol / darparwr ôl-16 a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd bod hyn y tu allan i'r dalgylch, bydd efallai angen i'r disgyblion hyn dalu allan o boced dim ond i gael eu haddysgu yn Saesneg. | categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le gyda darparwr arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno.<br><br>Byddai cludiant yn cael ei ddarparu'n unol â'r cludiant o'r cartref i'r ysgol a fyddai'n weithredol ar y pryd. |

## 5.2 Cyfeirio at addysg bellach / uwch

| | | |
|---|---|---|
| 5.2.1 | Gallai myfyrwyr yn mynd ymlaen i addysg bellach i astudio Mathemateg a phynciau Gwyddoniaeth fod o dan anfantais oherwydd bydd hefyd angen iddynt ddysgu termau Saesneg newydd yn ogystal â'r pwnc ei hun. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai myfyrwyr yn mynd ymlaen i addysg bellach i astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth o dan anfantais.<br><br>Mae sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru wedi llwyddo mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a gwledydd eraill, yn ogystal â rhai yng Nghymru. |
| 5.2.2 | Pam ddylai plentyn fynd drwy eu haddysg i gyd yn Gymraeg, ac yna mynd ymlaen i brifysgol neu i swydd yn Saesneg? | Byddai bod yn rhugl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg yn fantais mewn nifer o sefyllfaoedd.<br><br>Mae sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru wedi llwyddo mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a gwledydd eraill, yn ogystal â rhai yng Nghymru, ac wedi mynd ymlaen i gael swyddi sy'n gofyn iddynt weithio yn Saesneg, Cymraeg, neu yn y ddwy iaith. |
| 5.2.3 | Byddai myfyrwyr yn gadael am y brifysgol heb fawr ddim gafael o'r Saesneg mewn pynciau y byddent yn eu hastudio. A oes unrhyw brifysgolion cyfrwng Cymraeg? Mae Saesneg | Ni fyddai myfyrwyr yn gadael heb fawr ddim gafael ar yr iaith Saesneg, byddent yn rhugl ddwyieithog. |

| | | |
|---|---|---|
| | yn iaith ryngwladol ac felly'n llawer mwy defnyddiol i ddyfodol person ifanc na chael pynciau Lefel A wedi eu haddysgu yn Gymraeg. | Mae sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru wedi llwyddo mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a gwledydd eraill, yn ogystal â rhai yng Nghymru.<br><br>Mae cyfleoedd i astudio yn Gymraeg ym mhob prifysgol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cael eu datblygu'n barhaus o hyd. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a sefydlwyd yn 2011, yn cynllunio a chefnogi darpariaeth addysg uwch drwy'r Gymraeg ar draws prifysgolion Cymru, gan weithio gyda darparwyr i sicrhau a datblygu mwy o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr yng Nghymru. |
| 5.2.4 | Mae angen i bob plentyn hefyd fod yn rhugl yn Saesneg oherwydd dyma'r iaith ddysgu mewn addysg bellach. Bydd gan bob plentyn eu llwybr gyrfa eu hunain ac mae angen meddygon a staff meddygol arnom sy'n gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, iaith feddygol a thechnegol y byd yw Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 5.2.5 | Mewn addysg bellach, ychydig iawn o bynciau technegol a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid oes gwerslyfrau Cymraeg ar gael ychwaith. Mae rhai myfyrwyr wedi gorfod cael darllenwyr wrth sefyll arholiadau oherwydd bod eu gafael o'r Saesneg mor wael ac nid ydynt yn deall y cwestiynau. Dylid gwarchod yr iaith Gymraeg ond nid ar draul bod rhai disgyblion yn cael trafferth mewn addysg bellach a chyfyngu eu gyrfaoedd i gwmnïau a sefydliadau Cymraeg eu hiaith. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 5.2.6 | Gallai dechrau yn y brifysgol fod yn her i ddisgyblion os ydynt wedi astudio pob pwnc yn Gymraeg oherwydd ni fyddent yn gyfarwydd â’r termau. | Mae sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru wedi llwyddo mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a gwledydd eraill, yn ogystal â rhai yng Nghymru.<br><br>Mae ennill dealltwriaeth o derminoleg pwnc-benodol yn Gymraeg a Saesneg yn rhan naturiol o addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ychwanegu at ddealltwriaeth y disgyblion o’r cysyniadau. |
| 5.2.7 | Pryder y gallai myfyrwyr addysg bellach yn astudio i fod yn feddygon ac yn dilyn gyrfaoedd technegol / peirianyddol fod o dan anfantais oherwydd na fyddent yn deall termau technegol Saesneg. Felly byddent yn cael trafferth yn y pynciau hyn gan arwain at lai o feddygon a pheirianwyr Cymraeg yn cymhwyso. | Fel yr uchod. |
| 5.2.8 | Dim ond yn Saesneg y gellir astudio meddygaeth yng Nghaerdydd – pe bai disgyblion eisiau astudio meddygaeth, byddai’n rhaid iddynt symud i ysgol yn Aberystwyth i astudio pynciau yn Saesneg. | Ar sail gwybodaeth ar wefannau Prifysgol Caerdydd a’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae hyd at 73% o’r cwrs meddygaeth yng Nghaerdydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.<br><br>Nid yw’n wir y byddai angen i ddisgyblion a fyddai eisiau astudio meddygaeth neu bwnc arall drwy gyfrwng y Saesneg yn y brifysgol symud i ysgol wahanol i astudio pynciau yn Saesneg - mae sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru wedi llwyddo mewn prifysgolion yn Lloegr, yr Alban a gwledydd eraill, yn ogystal â rhai yng Nghymru. |
| 5.2.9 | A ydych wedi gweithio gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o gwbl? Yn y diwrnodau agored, mae myfyrwyr yn ein holi am | Mae’r Cyngor yn gweithio gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a bydd yn parhau i ddatblygu’r berthynas |

| | | |
|---|---|---|
| | ddysgu Cymraeg oherwydd eu bod efallai wedi derbyn peth Cymraeg yn yr ysgol, neu ddim o gwbl, ond yn gweld y potensial o swyddi gwell, ond erbyn iddynt gyrraedd y brifysgol mae'n aml yn rhy hwyr. A oes unrhyw beth yn cael ei wneud i fyfyrwyr sydd eisiau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch? | hon i sicrhau bod pobl ifanc ym Mhowys yn ymwybodol o'r Coleg a bod ganddynt fynediad at y cyfleoedd a gynigir ganddynt. |

## 6. MAE ANGEN DEWIS

| | | |
|---|---|---|
| 6.1 | Cytunaf fod manteision i blant fod yn gwbl ddwyieithog. Ond teimlaf hefyd y dylai fod ganddynt ddewis. | Noda'r Cyngor y sylwadau hyn bod angen dewis rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae'r mwyafrif o bobl yn nalgylch Machynlleth yn dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu'r dewis hwn.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 6.2 | Dylai fod gan y plant ddewis o ran pa iaith y maen nhw'n teimlo'n hyderus i wneud eu gwaith. Credaf y dylent ddysgu Cymraeg ond ni fydd yn eu helpu yn y dyfodol. | Fel yr uchod. |
| 6.3 | Ni ddylid cyflwyno unrhyw newid a pharhau i roi cyfle i rieni gael dewis ym mha gyfrwng y bydd dyfodol eu plant er mwyn y fantais orau i'r plant. Oni ddylai fod gan rieni ddewis. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.4 | Mae’r ddwy iaith yn bwysig.  Cyn belled ag y bydd Cymraeg yn cael ei haddysgu, ni ddylai fod yn orfodol i blant. Cael dewis o ffrwd Gymraeg neu ffrwd Saesneg yw’r opsiwn gorau – mae wedi gweithio hyd yma. | Fel yr uchod. |
| 6.5 | Mae hyn yn amharu ar y rhyddid i ddewis sy’n ganolog i unrhyw wlad ddemocrataidd. Mae cadw pethau fel y maen nhw’n rhoi rhyddid i rieni a phlant gael dewis cyfrwng addysg y plant – pam fod y Cyngor am eu hamddifadu o’r dewis hwn? Yn wir pa hawl sydd ganddo, yn enwedig o edrych ar y cynghorwyr sydd wedi elwa o’r dewis hwnnw, i amddifadu eraill o’r dewis hwnnw? | Fel yr uchod. |
| 6.6 | Byddai’n wych pe bai mwy o blant yn dysgu Cymraeg (neu ail iaith yn gyffredinol) ond ni ddylid gwneud i ffwrdd â’r dewis o ddysgu ym mha bynnag iaith sydd orau i’r plentyn. | Fel yr uchod. |
| 6.7 | Dylid rhoi dewis i deuluoedd. Mae gwersi iaith Gymraeg yn bwysig i gynnal yr iaith, ond fel y mae pob disgybl arall hyd at 2020 wedi’i gael, dylid cadw’r dewis o ba iaith y maen nhw’n dewis dysgu ynddi. | Fel yr uchod. |
| 6.8 | Nid yw gwneud i ffwrdd â defnyddio’r Saesneg yn ffordd briodol i annog defnyddio’r Gymraeg. Mater i unigolion yw sut y maen nhw eisiau cyfathrebu; gall disgyblion ddefnyddio’r Gymraeg eisoes os ydynt yn dymuno. Ni ddylai iaith gael ei rheoli gan unrhyw awdurdod. | Fel yr uchod. |
| 6.9 | Mae gan bob plentyn a’u teuluoedd hawl i benderfynu drostynt eu hunain ym mha gyfrwng i dderbyn eu haddysg, fel y gall y plant ffynnu hyd orau eu gallu. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.10 | Mae angen i bawb ym Machynlleth gael yr hawl i ddewis ffrwd Gymraeg neu ffrwd Saesneg fel bo'r dref yn gallu parhau i ffynnu fel cymdeithas ddwyieithog ac nid lle mae'r Gymraeg yn cael ei gwneud yn orfodol a'r unig ddewis i symud allan o'r ardal fel bod eu plant yn cael eu haddysgu yn eu mamiaith. | Fel yr uchod. |
| 6.11 | Dylai fod gan blant / rhieni ddewis o'r naill ffrwd neu'r llall, y plant fydd yn dioddef yn y tymor hir. | Fel yr uchod. |
| 6.12 | Rwy'n credu ei bod yn syniad da pan fydd plant yn ifanc, ond mater i rieni yw penderfynu a ydynt eisiau i'w plant fynd i'r ffrwd Saesneg neu'r ffrwd Gymraeg wedyn. | |
| 6.13 | Dylai lles y plant ddod yn gyntaf, nid yw'n deg peidio â rhoi opsiwn iaith i blant. | Fel yr uchod. |
| 6.14 | Dylai'r ysgol gynrychioli demograffeg yr ardal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a hyrwyddo amrywiaeth y gymuned drwy roi opsiwn i deuluoedd a fyddai'n elwa o'r ffrwd addysg Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 6.15 | Rwy'n poeni y byddai newid categori iaith yr ysgol yn golygu na fydd dewis o ran y pynciau iaith a fyddai'n cael eu haddysgu yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i'r disgyblion hyn symud i ysgolion eraill i ddewis yr iaith sydd fwyaf cyffyrddus iddynt oherwydd mae'r gwaith yn mynd yn anoddach wrth baratoi i fynd i brifysgol. | Fel yr uchod. |
| 6.16 | Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw gwneud i ffwrdd â'r dewis fydd gan blant yn y dyfodol. I'r plant sy'n dewis cael eu haddysgu yn Saesneg yn yr uwchradd, byddai'n rhaid iddynt deithio dros 40 milltir i dderbyn addysg cyfrwng Saesneg. Rhaid ystyried | Fel y dywedwn uchod, mae'r mwyafrif o bobl yn nalgylch Machynlleth yn dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu'r dewis hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | yr amser / pellter teithio i dderbyn addysg cyfrwng Saesneg ac effaith hyn ar blant o bob oed. | Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno.<br><br>Er y byddai hyn yn gofyn bod disgyblion yn teithio'n bellach i dderbyn addysg cyfrwng Saesneg yn lle derbyn y ddarpariaeth ym Machynlleth, mae amryw o ardaloedd ym Mhowys lle nad oes mynediad lleol o gwbl at addysg cyfrwng Cymraeg yn y cynradd na'r uwchradd, felly rhaid i ddisgyblion sydd eisiau derbyn addysg cyfrwng Cymraeg deithio'n bell iawn weithiau i gael eu haddysgu yn iaith eu dewis. |
| 6.17 | Drwy wneud i ffwrdd â'r opsiwn o addysg cyfrwng Saesneg i blant sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf, byddech yn creu anfantais nad oedd yn bodoli o'r blaen. Mae hyn yn debygol o effeithio fwyaf ar ddisgyblion sy'n agos i'r trothwyon cyflawni, ac mewn pynciau lle mae angen bod yn rhugl iawn yn yr iaith i ddeall cysyniadau cymhleth neu gynnil, fel pynciau Gwyddoniaeth / Dyniaethau. | Mae'r Cyngor yn anghytuno â'r datganiad hwn. Mae ennill dealltwriaeth o derminoleg pwnc-benodol yn Gymraeg a Saesneg yn rhan naturiol o addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ychwanegu at ddealltwriaeth y disgyblion o'r cysyniadau. Nid oes tystiolaeth bod addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi disgyblion o unrhyw allu o dan anfantais. |
| 6.18 | Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan blant hawl i addysg yn eu mamiaith. Mae'n parhau i ddangos bod gan blant sy'n cael eu haddysgu yn eu hiaith gyntaf fantais glir dros rai sy'n dysgu yn eu hail (neu drydedd) iaith.<br><br>Drwy wneud i ffwrdd â'r ffrwd cyfrwng Saesneg, byddwch yn rhoi myfyrwyr nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg o dan anfantais | Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | o'i gymharu â'u cyfoedion, fydd yn effeithio arnynt am weddill eu bywydau. | Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |

## 7. POENI AM YR EFFAITH AR NIFER Y DISGYBLION YN YSGOL BRO HYDDGEN

| | | |
|---|---|---|
| 7.1 | Gallai newid yr iaith arwain at lai o gyfle, os yw dewisiadau'r rhieni'n arwain at nifer fawr o blant o Fachynlleth a'r ardal yn cael eu bysio allan i ysgolion pellach i ffwrdd. | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn am effaith bosib newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen ar nifer y disgyblion yn yr ysgol yn y dyfodol.<br><br>Os bydd y Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, y bwriad fyddai ei gyflwyno'n raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol, gan felly leihau'r effaith ar nifer y disgyblion. Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i |

| | | |
|---|---|---|
| | | dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Fel y noda'r ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn:<br><br>*'Mae'n bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at leihad yn nifer y disgyblion oherwydd na fyddai disgyblion o'r tu allan i'r sir sydd ar hyn o bryd yn derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol mwyach yn dewis dod i'r ysgol, neu gallai disgyblion o'r ardal leol ddewis mynychu darparwyr cyfrwng Saesneg eraill.*<br><br>*Fodd bynnag, mae hefyd yn bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion dros y tymor hirach, wrth i ddisgyblion o ardaloedd eraill ddewis mynychu'r ysgol. Gallai hyn ddigwydd gyda'r ddarpariaeth uwchradd yn enwedig.'* |
| 7.2 | Bydd rhieni'n dewis ysgolion eraill. | Fel yr uchod. |
| 7.3 | Bydd pobl leol yn teithio allan o'r sir ar gyfer addysg. | Fel yr uchod. |
| 7.4 | Byddai llai o rieni'n debygol o anfon eu plant i Ysgol Bro Hyddgen. | Fel yr uchod. |
| 7.5 | Credaf y bydd y cynnig hwn yn cael effaith ddinistriol ar nifer y disgyblion. | Fel yr uchod. |
| 7.6 | Rwy'n ofni na fyddai gan ddisgyblion sy'n newid o Gymraeg i Saesneg yn yr uwchradd unrhyw opsiwn heblaw dewis ysgol uwchradd wahanol, ac yn achos Machynlleth byddai hynny'n golygu mynd i sir gyfagos. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 7.7 | Byddai unrhyw newid i'r categori iaith yn andwyol i nifer y disgyblion. Mae angen addysg dwy ffrwd ar ein cymuned er mwyn cadw digon o ddisgyblion i wneud yr ysgol yn gynaliadwy. | Fel yr uchod. |
| 7.8 | Byddai cadw ffrwd Saesneg o fantais i'r ysgol drwy gynnal nifer y disgyblion. | Fel yr uchod. |
| 7.9 | Credaf yn gryf y bydd newid i Gymraeg yn unig yn gweld llai o ddisgyblion yn yr ysgol. | Fel yr uchod. |
| 7.10 | Yn achos plant a fyddai'n dechrau yn yr ysgol gynradd yn y dosbarth Cymraeg, ac yna'n cael trafferth gyda'r iaith yn yr uwchradd, byddai angen iddynt symud i ysgol arall. Ar hyn o bryd mae gan y plant hyn ddewis o symud dosbarth a pheidio â symud i ysgol arall. Ni ddylen nhw orfod teithio i dderbyn addysg allan o'r ardal, ac o dan y cynnig hwn dyma a fyddai'n digwydd. | Fel yr uchod. |
| 7.11 | O ystyried bod ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddai rhai rhieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol os na fyddai addysg Saesneg; sut y byddai hynny'n effeithio ar niferoedd? | Fel yr uchod. |
| 7.12 | Bydd rhieni'n anfon eu plant i ysgolion eraill gan felly leihau'r niferoedd yn Ysgol Bro Hyddgen oherwydd na fyddai dewis o iaith. | Fel yr uchod. |
| 7.13 | Yr effaith niweidiol amlwg fyddai llai o ddisgyblion yn mynd i Ysgol Bro Hyddgen. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd yn cael eu gorfodi i fynd i ysgol arall, mae'n debyg mewn sir arall. Credaf fod y | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor wedi amcanu'n rhy isel faint o ddisgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg. | |
| 7.14 | Byddai unrhyw newid i'r categori iaith yn andwyol i nifer y disgyblion. Mae angen addysg dwy ffrwd ar ein cymuned er mwyn cadw digon o ddisgyblion i wneud yr ysgol yn gynaliadwy. | Fel yr uchod. |
| 7.15 | Os gwnewch i ffwrdd â gwersi yn Saesneg, bydd y disgyblion yn symud ysgol a bydd hyn yn anodd iawn os ydynt yng nghanol eu blynyddoedd ysgol. | Fel yr uchod. |
| 7.16 | Bydd pethau i rai yn y ffrwd Gymraeg yn parhau fel arfer. Y rhai yn y ffrwd Saesneg sydd fwyaf tebygol o geisio dod o hyd i addysg yn rhywle arall. | Fel yr uchod. |
| 7.17 | Byddai'n cael effaith negyddol wrth i rieni ddewis anfon eu plant dros y ffin. | Fel yr uchod. |
| 7.18 | Gallaf ddychmygu pobl yn symud allan o'r ardal neu'n dewis ysgolion eraill. | Fel yr uchod. |
| 7.19 | Poeni y bydd rhieni Saesneg yn unig yn pleidleisio gyda'u traed ac efallai'n anfon eu plant i Ysgol Penglais. Byddwn yn tybio bod modd rhagweld faint o effaith y byddai hynny'n ei gael a'i fod yn cael ei ystyried. Byddai'n bechod mawr effeithio ar hyfywedd ysgol leol dda ar hyn o bryd. | Fel yr uchod. |
| 7.20 | Mae llawer o blant yn mynd i Dywyn neu Benglais yn barod oherwydd teimlo bod Ysgol Bro Hyddgen yn rhy Gymraeg. Byddai'r cynnig hwn yn dieithrio mwy ar ddisgyblion o gartrefi | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | di-Gymraeg ac yn atal llawer o ddisgyblion rhag mynd i Ysgol Bro Hyddgen. | |
| 7.21 | Bydd y rhan fwyaf o'r plant yn mynd i ysgolion cyfagos yn Aberystwyth a Thywyn. | Fel yr uchod. |
| 7.22 | Bydd mwy o blant yn mynd allan o'r sir, h.y. Aberystwyth neu Dywyn, felly bydd llai o blant yn yr ysgol. | Fel yr uchod. |
| 7.23 | Bydd penderfyniad o'r fath hefyd yn andwyol i'r ysgol a'i staff: bydd rhieni a disgyblion yn pleidleisio gyda'u traed. Yn drist, bydd yn denu llai o blant i'r ysgol ac yn cyfrannu at wthio'r plant Saesneg i Benglais, Tywyn a'r Drenewydd. Yn y gorffennol byddai disgyblion wedi gallu newid ffrwd yn Ysgol Bro Hyddgen, ond fel hyn yr unig ddewis fydd symud ysgol. | Fel yr uchod. |
| 7.24 | Drwy gyfyngu'r ysgol i un ffrwd, mae perygl y bydd disgyblion yn dieithrio ac yn chwilio am ysgolion eraill. Gallai hyn effeithio ar niferoedd yn yr ysgol yn y dyfodol, gan wneud yr ysgol yn anhyfyw efallai, ac ni fyddai hynny'r ateb gorau o ystyried faint y mae'r Cyngor yn ei fuddsoddi. | Fel yr uchod. |
| 7.25 | Nodaf o'r amcan-ffigurau fod nifer y disgyblion ar i lawr ac os na wneir rhywbeth ynghylch hyn, bydd gormod o gapasiti yn yr ysgol. Credaf yn gryf y bydd cyflwyno'r newidiadau'n ei gwneud yn llai tebygol y bydd siaradwyr Saesneg iaith gyntaf yn gadael i'w plant fynychu ffrwd ysgol Bro Hyddgen. Mae cael gor-gapasiti mewn unrhyw sefydliad sydd angen arian cyhoeddus yn faes lle gellid gwneud arbedion ariannol. Felly mae perygl y bydd y gor-gapasiti hwn yn cael ei 'neilltuo' neu ei leihau i lefel sy'n ateb yr angen yn well. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 7.26 | Bydd teuluoedd nad ydynt eisiau i'w plant gael eu haddysg yn Gymraeg yn eu tynnu allan a'u symud i ysgolion eraill. Felly bydd yr amgylchedd dysgu'n llai amrywiol i'r rhai ar ôl. Sut y mae hyn yn beth da yn yr unfed ganrif ar hugain? | Fel yr uchod. |
| 7.27 | Mae llai o ddisgyblion yn golygu y bydd mwy'n cael eu gwasgu i un dosbarth. Mae 'gwaedu' disgyblion ar ôl TGAU yn broblem yn barod yn Ysgol Bro Hyddgen, fel y nododd Gyngor Sir Powys yn 2019. Mae'r ganran fwyaf o fyfyrwyr Lefel A yn YBH yn dod o'n myfyrwyr TGAU ni ein hunain. Ar sawl ystyr byddai hyn yn beth cibddall i'w wneud a byddai'n gamgymeriad cymdeithasol ac economaidd mawr newid y categori iaith o gofio nad yw ysgolion cyfrwng Saesneg eraill mor bell i ffwrdd. | Fel yr uchod. |
| 7.28 | Gallai'r ysgol golli rhai disgyblion wrth iddynt symud i ysgol arall gyda ffrwd Saesneg. | Fel yr uchod. |

## 8. Y CYMORTH YCHWANEGOL A FYDDAI EI ANGEN I GYNNAL Y NEWID I'R CATEGORI IAITH

### 8.1 Addysg drochi

| | | |
|---|---|---|
| 8.1.1 | Unedau trochi yn yr ysgol gynradd, tebyg i'r hyn sydd gan gynghorau sir cyfagos. Hefyd, pam ddim ar gyfer ysgol uwchradd? Pam ddim cynnig trochi iaith i staff sydd ei eisiau hefyd? | Noda'r Cyngor y sylwadau bod angen gwersi trochi i gynnal unrhyw newid i gategori iaith Ysgol Bro Hyddgen. Mae'r Cyngor yn llwyr gydnabod bod angen y math yma o ddarpariaeth yn yr ardal.<br><br>Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys yn cynnwys amcan strategol i ddatblygu cyfleoedd trochi, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r cyfleoedd hyn ym Mhowys. Cyflwynwyd gwersi trochi ar-lein yn Ionawr |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2021 a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai swyddogion yn gweithio gyda'r ysgol i adnabod a chyflwyno'r cymorth sydd ei angen i helpu unrhyw ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Bro Hyddgen, yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion a allai symud i'r ardal yn y dyfodol. |
| 8.1.2 | Dylid cael uned drochi ym Machynlleth. | Fel yr uchod. |
| 8.1.3 | Byddwn yn gofyn i chi leoli unrhyw uned drochi newydd ym Machynlleth. Byddai hynny'n help mawr ac yn tawelu pryderon y gymuned leol. | Fel yr uchod. |
| 8.1.4 | Mae llawer o bobl yn symud i'r ardal o Loegr. Pa ddarpariaeth fydd ar gael iddyn nhw? A fydd gwersi trochi ar gael – yn enwedig i CA2? | Fel yr uchod. |
| 8.1.5 | Beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun di-Gymraeg yn dod i YBH mewn rhai blynyddoedd? A fyddech yn eu helpu i ddeall Cymraeg? | Fel yr uchod. |
| 8.1.6 | Pa fath o wersi trochi fydd ar gael i sicrhau bod trochi ar gael i ddisgyblion hŷn sy'n symud i'r ardal? Roedd prosiect trochi ar gael ychydig flynyddoedd yn ôl. Cawsom ddau ddisgybl yn dechrau ym mlwyddyn 7 heb ddim Cymraeg o gwbl ond fe wnaethant symud ymlaen drwy'r ysgol yn y ffrwd Gymraeg yn llwyddiannus iawn. Mae angen cyllid yn ei le i sicrhau bod trochi ar gael. Yn y gorffennol mae Powys wedi addo cyllid ond wedi torri eu haddewidion. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.1.7 | Mae angen cynnig cyfle ar gyfer datblygiad iaith cyflym, gan gynnwys cymorth a rhaglen drochi. | Fel yr uchod. |
| 8.1.8 | Mae'n bwysig iawn bod canolfan bontio yn yr ysgol neu'r ardal a fyddai'n helpu disgyblion newydd ayyb i gael cefnogaeth gyda'u dysgu, ac yn eu cynorthwyo i ffynnu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol. | Fel yr uchod. |
| 8.1.9 | Dylid tawelu ofnau pobl leol y bydd digon o gymorth yn cael ei roi, drwy drochi a staff ychwanegol i helpu yn y dosbarth, ac y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol. | Fel yr uchod. |
| 8.1.10 | Mae trochi'n hanfodol a chlywais adroddiadau da am Lanfyllin. Felly, os gallwn ddysgu o hynny, gorau oll. | Fel yr uchod. |
| 8.1.11 | Yn achos plant sy'n symud i ddalgylch yr ysgol heb ddealltwriaeth ddigonol o'r iaith Gymraeg, yn enwedig yn yr uwchradd, dylid sicrhau bod ganddynt fynediad at gyrsiau dwys o'r ansawdd gorau i'w trochi yn y Gymraeg cyn iddynt ymuno yng ngweithgareddau arferol yr ysgol. | Fel yr uchod. |
| 8.1.12 | Ynghyd â'r newid i'r categori iaith, dylai'r Cyngor sicrhau bod unedau trochi ar gael ar draws Powys, fel y gall disgyblion dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg beth bynnag yw eu cefndir neu ble bynnag ym Mhowys y maen nhw'n byw. | Fel yr uchod. |
| 8.1.13 | Sicrhau bod y fframwaith i gynnal y datblygiad cadarnhaol hwn yn cynnwys uned drochi a deunyddiau i gynorthwyo rhieni di-Gymraeg i helpu eu plant gyda gwaith cartref. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.1.14 | Dylid rhoi amser i bob teulu di-Gymraeg amser gael trochi yn yr iaith. | Fel yr uchod. |
| 8.1.15 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod help a chymorth ymarferol ar gael i ddisgyblion hŷn sy'n symud i'r ardal, e.e. drwy sefydlu uned / gwersi trochi tebyg i'r hyn sydd ar gael yng Ngwynedd, i helpu teuluoedd disgyblion hŷn i ddeall pwrpas ac ethos addysg cyfrwng Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 8.1.16 | Mae angen cymorth i blant sy'n symud i'r ardal – mae gan Wynedd le rhagorol ym Mhorthmadog. Dylai Powys ystyried sut y mae Gwynedd yn gwneud hyn, mae'r plant yn gadael yn rhugl. Gwaith gwych. | Fel yr uchod. |
| 8.1.17 | Mae rhoi cyfle i blant dderbyn gwersi trochi mor fuan â phosib yn eithriadol werthfawr, a dylai cyflwyniad graddol y cynnig hwn gynorthwyo plant na chafodd y cyfle hwnnw o'r dechrau. | Fel yr uchod. |
| 8.1.18 | Cyfeirir at drochi nifer o weithiau. Sut fath o drochi fydd ar gael? A fydd cyllid ar ei gyfer a chymorth i'r rhieni? | Yr opsiwn a ffafrir ar gyfer trochi fyddai drwy 'ganolfan drochi' lle y mae'r disgyblion yn mynychu cwrs iaith Gymraeg dwys am 12 wythnos, er enghraifft, am bedwar diwrnod yr wythnos.<br><br>Byddai'r awdurdod lleol yn talu'n llawn am yr addysg drochi. Byddai'r cyfathrebu gyda rhieni'n effeithiol a byddai'r rhieni'n cael eu hannog i fynychu gwersi dysgu Cymraeg yn y gymuned. |
| 8.1.19 | Fel y gall POB disgybl dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg, rydych yn cynnig rhoi cymorth iaith ychwanegol i ddisgyblion hŷn sy'n symud yma neu sydd angen cymorth ychwanegol | Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys yn cynnwys amcan strategol i ddatblygu cyfleoedd trochi, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r cyfleoedd hyn ym |

| | | |
|---|---|---|
| | arnynt. A ydych yn credu mewn difrif y byddai rhaglenni trochi o’r fath yn golygu y gallai POB disgybl lwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg a sefyll eu cyrsiau TGAU yn Gymraeg? Os yw gwersi trochi o’r fath mor llwyddiannus ag yr ydych yn ei honni, pam nad ydych wedi eu cyflwyno mewn ardaloedd fel y Drenewydd neu’r Trallwng? Cytunaf y gall cymorth trochi fod yn llwyddiannus i helpu disgyblion sy’n symud i’r ardal yn y sector cynradd, ond a ydych mewn difrif yn meddwl y byddai hyn yn cynorthwyo disgyblion di-Gymraeg i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr uwchradd? | Mhowys. Cyflwynwyd gwersi trochi ar-lein yn Ionawr 2021 a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y misoedd nesaf. Yn y pen draw, y bwriad yw cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ar draws Powys gael derbyn gwersi trochi, fel bod disgyblion yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol. Byddai hyn yn cynnwys ardaloedd fel y Drenewydd neu’r Trallwng, yn ogystal ag ardal Machynlleth.<br><br>Mae addysg drochi ar gael mewn gwahanol ffurfiau ar draws Cymru. Er bod rhai rhaglenni’n canolbwyntio ar blant cynradd, mae rhaglenni llwyddiannus ar gael sy’n rhoi cyfle i ddisgyblion gael eu trochi mewn addysg cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo i’r uwchradd. Nid oes rheswm dros feddwl na fyddai’n bosib cynnig darpariaeth o’r fath yn effeithiol yn Ysgol Bro Hyddgen. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd – er enghraifft pan fydd dysgwyr yn dod at ddiwedd eu hamser yn yr ysgol – efallai na fyddai hyn yn briodol.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai’r Cyngor yn symud ymlaen gyda’r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni’n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy’n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |

**8.2 Cymorth iaith Gymraeg ychwanegol i rieni / teuluoedd**

| | | |
|---|---|---|
| 8.2.1 | Byddai mynediad at ystod eang o wersi Cymraeg i rieni'n hanfodol fel y gallent deimlo bod cefnogaeth ar gael fel eu bod yn gallu helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn sy'n dangos bod angen darparu cymorth iaith ychwanegol i rieni / teuluoedd ochr yn ochr ag unrhyw newid i gategori iaith Ysgol Bro Hyddgen.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol fel rhan o'r broses bontio i adnabod pa gymorth a fyddai ei angen, ac i sicrhau bod trefniadau ar gael i gynnig cymorth priodol i rieni / teuluoedd. Gallai hyn gynnwys gwersi Cymraeg i rieni, cymorth gyda gwaith cartref, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, a chynlluniau eraill. |
| 8.2.2 | Dylid rhoi cymorth i rieni a gwersi am ddim. | Fel yr uchod. |
| 8.2.3 | Rhoddir pwyslais sylweddol ar roi cymorth i deuluoedd di-Gymraeg ar gyfer helpu ag addysg eu plant. | Fel yr uchod. |
| 8.2.4 | Mae angen cysylltiad cryf rhwng yr ysgol a rhieni di-Gymraeg. Maen nhw'n aml yn poeni (heb reswm yn aml) ynghylch gallu helpu eu plant gyda gwaith cartref. Bydd technoleg a chyswllt cyfeillgar yn hollbwysig ar gyfer hyn. | Fel yr uchod. |
| 8.2.5 | Mae cymorth i deuluoedd di-Gymraeg yn greiddiol bwysig a rhaid i'r ymdrech fod yn sylweddol os yw'r teuluoedd hynny i gael ffydd yn y cynnig. | Fel yr uchod. |
| 8.2.6 | Dylid rhoi gwersi Cymraeg am ddim i rieni di-Gymraeg i helpu ag addysg eu plant. | Fel yr uchod. |
| 8.2.7 | Gwersi Cymraeg i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.2.8 | Dylid trefnu i Brifysgol Aberystwyth ddarparu cyrsiau dwys i rieni yn adeilad Hyddgen. | Fel yr uchod. |
| 8.2.9 | Dylid darparu cyrsiau o safon uchel a thechnegau i ddysgu ieithoedd eraill i breswylwyr yr ardal, gyda mynediad at y dechnoleg angenrheidiol. | Fel yr uchod. |
| 8.2.10 | Dylid cynnig cyrsiau gwella iaith fel bod gan rieni a phobl eraill hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn llafar ac ysgrifenedig. | Fel yr uchod. |
| 8.2.11 | Dylid sicrhau bod rhieni'n gallu helpu eu plant gyda gwaith cartref a defnyddio'r iaith am resymau ar wahân i addysg – i fwynhau / hamdden, e.e. chwaraeon. | Fel yr uchod. |
| 8.2.12 | Dylid cael system 'bontio' sy'n cynnig cymorth i unigolion, e.e. clwb gwaith cartref ar ôl ysgol am ddim dros y cyfnod pontio. | Fel yr uchod. |
| 8.2.13 | Bydd cymorth ymarferol i ddysgwyr a'u rhieni'n hanfodol. | Fel yr uchod. |
| 8.2.14 | Dylid sicrhau bod cymorth ar gael i'r holl ddisgyblion – a bod rhieni'n gwybod at bwy i droi os oes unrhyw broblemau neu os oes angen mwy o wybodaeth arnynt. | Fel yr uchod. |
| 8.2.15 | Yn anffodus, nid oes cymorth ar gael i rieni di-Gymraeg sydd er hynny'n rhoi eu plant yn y ffrwd Gymraeg ac yna'n gorfod gofyn am helpu drwy gysylltu â rhieni eraill ar Facebook, sydd ddim yn broblem ond byddai'n dda pe byddent yn cael cynnig cyrsiau iaith. | Fel yr uchod. |
| 8.2.16 | A fydd cymorth i deuluoedd di-Gymraeg? | Fel yr uchod. |

## 8.3 Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg / yr iaith Gymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 8.3.1 | Dylid trefnu ymgyrch hyrwyddo yn y wasg leol, ac ar y cyfryngau cymdeithasol. | Nodwn y sylw. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'i bartneriaid i ddatblygu deunyddiau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys tudalen we newydd a thaflenni gwybodaeth i rieni. Mae'r deunyddiau hyn, a lansiwyd yn ddiweddar, bellach ar gael i'w defnyddio gan ysgolion, rhieni a sefydliadau eraill.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phenaethiaid yn nalgylch Bro Hyddgen ar ymgyrch fwy penodol i rannu gwybodaeth gyda rhieni / rhanddeiliaid eraill yn lleol. |
| 8.3.2 | Dylid cael ymgyrch farchnata'n egluro manteision addysg cyfrwng Cymraeg a sut y mae'n cysylltu i amcan Llywodraeth Cymru i ddarparu miliwn o siaradwyr Cymraeg, Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys ac argymhellion Estyn. | Fel yr uchod. |
| 8.3.3 | Mae angen ymgyrch PR gref i gyfathrebu manteision siarad Cymraeg, yn ogystal ag ymgyrch i gynnig gwersi Cymraeg hygyrch (ac am ddim os yn bosib) i siaradwyr di-Gymraeg yn y gymuned, tebyg i'r gwersi Saesneg sy'n orfodol i fewnfudwyr heb Saesneg sy'n symud i Gymru. Ydy Powys yn bwriadu cael rhyw fath o ymgyrch farchnata neu hyrwyddo i werthu manteision y Gymraeg a sicrhau bod disgyblion a'u rhieni'n deall yn union beth yw addysg cyfrwng Cymraeg? | Fel yr uchod. |
| 8.3.4 | Fel rhiant, mae peth brwdfrydedd wedi bod ynghylch Bro Hyddgen gan rieni o'r tu allan i'r sir, ond ni fyddent yn dymuno anfon eu plant i ysgol cyfrwng Saesneg nac ychwaith i ysgol cyfrwng Cymraeg. Felly credaf fod angen cael negeseuon clir allan i rieni. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.3.5 | Dylid addysgu’r gymuned a chynnal cyfarfodydd gyda siaradwyr gwadd. Sicrhau bod pobl yn gweld gwerth y ddwy iaith. | Fel yr uchod. |
| 8.3.6 | Mae angen i Bowys addysgu rhieni i weld y manteision bod eu plant yn tyfu i fod yn ddinasyddion dwyieithog. Mae angen i rieni ac athrawon fod yn hyderus bod unrhyw ddarpariaeth bresennol ym Mhowys yn parchu anghenion o bob math, a bod unedau trochi’n cael eu gwella. | Fel yr uchod. |
| 8.3.7 | Rwy’n croesawu’r cynnig ond yn pwysleisio bod gan Bowys ddyletswydd i ddarbwyllo pawb o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’n bwysig bod gan blant ym Mhowys yr un cyfle â phlant mewn rhannau eraill o Gymru i fod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 8.3.8 | Sut y byddwch yn egluro’r gwahaniaeth rhwng dwy ffrwd a dwyieithrwydd? | Fel yr uchod. |
| 8.3.9 | Fel rhan o’r broses farchnata, mae angen marchnata ein bod yn rhoi sgil ychwanegol i bob disgybl, beth bynnag yw eu gallu, a hynny’n rhoi mynediad iddynt at swyddi na fyddai ar gael i ddisgyblion o allu tebyg, oherwydd y sgil ychwanegol hon. Mae’n bwysig iawn marchnata’r cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru drwy’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond mae enghreifftiau o ddisgyblion yn astudio mewn mannau eraill eraill. Er enghraifft, penderfynodd ein Prif Ferch y llynedd fynd i Goldsmiths yn Llundain i astudio, a gwrthod y cynnig gan Rydychen. Felly mae enghreifftiau rhagorol yn yr ysgol ei hun ac nid oes angen i ni ddod o hyd i enghreifftiau o blant wedi llwyddo mewn ardaloedd eraill bob tro. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.3.10 | Wrth hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, mae'n bwysig pwysleisio na fydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael effaith negyddol ar safonau disgyblion yn Saesneg. Mae hon yn neges bwysig sydd angen ei chyfathrebu a'i hyrwyddo. | Nodwn y sylw. |
| 8.3.11 | Cyn belled ag y mae addysgu pynciau Gwyddoniaeth drwy'r Gymraeg yn y cwestiwn, mae astudiaethau achos penodol o ddisgyblion a dderbyniodd addysg cyfrwng Cymraeg ac sydd yna wedi dod o hyd i waith, fel arfer yn Lloegr ond hefyd mewn mannau eraill, a gallai'r rhain fod o ddiddordeb i ddangos beth sy'n bosib wrth i'r cynnig hwn symud ymlaen. | Nodwn y sylw. |

**8.4 Gweithgareddau allgyrsiol**

| | | |
|---|---|---|
| 8.4.1 | Dylid cydweithio â sefydliadau eraill, e.e. Menter Iaith, i drefnu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a chodi ymwybyddiaeth o weithgareddau iaith Gymraeg yn yr ardal. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn sy'n dangos bod angen cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, ochr yn ochr ag unrhyw newid i gategori iaith Ysgol Bro Hyddgen.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol a sefydliadau eraill fel rhan o'r broses bontio i adnabod yr angen a rhoi trefniadau priodol yn eu lle. |
| 8.4.2 | Dylid sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o gymorth i barhau i ddarparu cyfleoedd i blant cynradd ac uwchradd gael cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg allgyrsiol fel yr Urdd a Menter Maldwyn. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.4.3 | Dylai'r Cyngor ariannu prosiectau mwy positif i hyrwyddo'r iaith a chadw'r diwylliant cyfrwng Cymraeg yn fyw. Gellid rhoi cymorth ariannol i ddisgyblion o gartrefi difreintiedig i ddysgu Cymraeg a chael profiadau fel aros yng ngwersylloedd yr Urdd. | Fel yr uchod. |
| 8.4.4 | Dylid sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chefnogi a'i chyllido i ddod yn ganolfan i'r gymuned mewn datblygu'r iaith Gymraeg ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr. Dylai fod yn ganolfan i ddysgu Cymraeg ar gyfer gwahanol grwpiau o oedolion, teuluoedd ifanc gyda babanod / plant, pobl di-Gymraeg sy'n symud i'r ardal, ac yn y blaen. Byddwn hefyd yn gobeithio y gallai fod yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn ystod y gwyliau, ac ar gyfer gwersi nos dysgu Cymraeg. | Fel yr uchod. |

**8.5 Cyfeirio at addysgu gartref yn ystod Covid**

| | | |
|---|---|---|
| 8.5.1 | Ar hyn o bryd rwy'n addysgu fy mhlentyn hynaf gartref ac rwy'n difaru ei fod yn y ffrwd Gymraeg. Mae bellach ym mlwyddyn 3 ac mae'r rhan fwyaf o'i waith ar Teams yn Gymraeg a phan fo'n cael ei gyfieithu i'r Saesneg, mae mewn Saesneg gwael. Rwy'n cael trafferth ei helpu gyda'i waith oherwydd mae'r gefnogaeth i rieni di-Gymraeg gyda phlant yn y ffrwd Gymraeg yn wael iawn. | Nodwn y pryderon hyn am drafferthion rhieni di-Gymraeg a fu'n helpu i addysgu eu plant gartref dros gyfnod Covid.<br><br>Yr ysgolion yw'r prif gyswllt o hyd ar gyfer addysg plant. Dylai ysgolion fod yn gallu cynorthwyo neu gynghori rhieni ar y ffordd orau i helpu eu plant i gynnal eu sgiliau iaith Gymraeg a deall yr holl dasgau a osodir ar eu cyfer. Yn ogystal â'r gwaith a osodir gan yr ysgol, gall rhieni hefyd helpu eu plant drwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy wahanol gyfryngau, e.e. gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, lawrlwytho apiau iaith Gymraeg, gwylio rhaglenni teledu Cymraeg ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | amrywiol adnoddau ar-lein. Y peth pwysig yw bod y plant yn cael cyswllt â'r iaith mor aml â phosib.<br><br>Mae cymorth ychwanegol i rieni ar gael drwy https://www.welsh4parents.cymru. Mae'r adnoddau a'r canllawiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. |
| 8.5.2 | Mae addysgu gartref wedi dangos nad oes digon o gefnogaeth ar gael. Ni ystyriwyd o gwbl y plant sy'n cael trafferth wrth bontio o'r cynradd i'r uwchradd a throsglwyddo o'r ffrwd Gymraeg i'r ffrwd Saesneg. Dylen ni gadw'r gwersi'n ddwyieithog fel ar hyn o bryd. Hyn sy'n gweithio. Byddai plant a fyddai fel arall yn gorfod gadael y dosbarth Cymraeg yn gallu aros mewn amgylchedd dwyieithog ac felly'n dal i gael cyswllt â'r iaith a'r diwylliant ond hefyd yn cael cyfle i ysgrifennu a dysgu mewn iaith y maen nhw'n teimlo'n gyffyrddus ynddi. | Fel yr uchod. |
| 8.5.3 | Mae'r profiad o addysgu gartref wedi creu problemau mawr i rai teuluoedd gyda phlant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhieni'n cael trafferth eu helpu oherwydd y rhwystr iaith. Mae dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod clo'r haf wedi achosi oedi i ddysgu llawer o blant am y rhesymau hyn; bu'n rhaid defnyddio'r grant Covid i gyflogi staff ychwanegol i helpu'r plant hyn i ddod yn rhugl eto yn yr iaith, sy'n anochel wedi arwain at roi rhai ymyriadau eraill i un ochr, yn ogystal ag ymyriadau lles. | Mae'r cyllid ychwanegol drwy Grant Dysgu Carlam Llywodraeth Cymru wedi golygu y gallodd ysgolion flaenoriaethu cymorth i blant yr effeithiwyd arnynt. Mae dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn cartrefi di-Gymraeg wedi eu hadnabod fel rhan o Egwyddor 1. Mae hwn yn gyllid ychwanegol a dylai'r effaith ar ymyriadau eraill a gynlluniwyd fod yn fach. |
| 8.5.4 | Mae'r argyfwng Covid wedi dangos y trafferthion sy'n codi pan fydd plant yn cael eu haddysgu mewn iaith wahanol i'r un a siaredir gartref. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 8.5.5 | Mae'r profiad o addysgu gartref wedi creu problemau mawr i rai teuluoedd gyda phlant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhieni'n cael trafferth eu helpu oherwydd y rhwystr iaith. Mae dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod clo'r haf wedi achosi oedi i ddysgu llawer o blant am y rhesymau hyn; bu'n rhaid defnyddio'r grant Covid i gyflogi staff ychwanegol i helpu'r plant hyn i ddod yn rhugl eto yn yr iaith, sy'n anochel wedi arwain at roi rhai ymyriadau eraill i un ochr, yn ogystal ag ymyriadau lles. Mae'r wybodaeth yn dangos yn glir fod y rhan fwyaf o rieni'n dibynnu'n llwyr ar yr ysgol am addysg Gymraeg ac felly'r rheswm pam fod gymaint o blant yn dewis symud i ffrwd arall wrth i'r iaith ddod yn fwy heriol nes ymlaen. | Fel yr uchod. |

## 8.6 Rhywbeth arall

| | | |
|---|---|---|
| 8.6.1 | Dylai Menter Iaith leoli swyddog cymunedol yn y dref. | Nodwn y sylw. Er bod y Cyngor o blaid yr awgrym y dylai Menter Maldwyn ddatblygu mwy o bresenoldeb ym Machynlleth i gynorthwyo gyda phontio i fodel darparu newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen, mater i'w benderfynu gan Menter Maldwyn ei hun fyddai ble i leoli staff Menter Maldwyn. |
| 8.6.2 | Mae angen mwy o eglurder ar ba gymorth, adnoddau a chyllid ychwanegol sydd ar gael i ddisgyblion a allai fod yn cael trafferth derbyn eu haddysg mewn ail iaith. | Nodwn y sylw. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol fel rhan o'r broses bontio i adnabod pa gymorth a fyddai ei angen, ac i sicrhau bod trefniadau ar gael i gynnig cymorth priodol i rieni / teuluoedd. |
| 8.6.3 | Mae'n bwysig bod yr ysgol a'r awdurdod yn llwyr gefnogi plant di-Gymraeg, rhai sy'n cyrraedd yn yr ysgol yn y | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | dosbarth Derbyn, ac yn ymrwymo'n llawn i'w haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, nid dim ond ar y dechrau ond drwy gydol eu siwrne drwy'r ysgol. | |
| 8.6.4 | Os dangoswn y gallwn roi cefnogaeth lwyr i blant ym Mro Hyddgen, rydym yn llawer mwy tebygol o'u gweld yn aros yno ac nid yn gadael i fynd i ysgolion eraill. | Fel yr uchod. |
| 8.6.5 | Bydd angen staff ychwanegol ar gyfer y 'cyfnod pontio' ar gyfer plant sydd yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd. Bydd angen staff un-i-un gyda chlybiau gwaith cartref am ddim ar ôl ysgol. Mae angen rhoi strwythur o gymorth positif yn ei le fel bo'r plant yn teimlo'n hapus, hyderus ac i dawelu pryderon. | Fel yr uchod. |
| 8.6.6 | Mae angen cyfleoedd rheolaidd i rieni a theuluoedd gael ymweld â'r ysgol (ar ôl i gyfyngiadau Covid gael eu llacio); polisi drws agored. | Fel yr uchod. |
| 8.6.7 | Dylid gwneud mwy o ymdrech i ddwysau addysgu Cymraeg fel iaith gymunedol yn y ffrwd Saesneg bresennol er mwyn cyflymu'r pontio a chyfleu rhai o'r manteision i'r disgyblion presennol. | Fel yr uchod. |
| 8.6.8 | Mae angen sefydlu cymuned o rieni a theuluoedd – Cyfeillion yr Ysgol fydd yn helpu'r staff a'r llywodraethwyr i hyrwyddo nod ac ethos yr ysgol. | Nodwn y sylw. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol fel rhan o'r broses bontio i adnabod pa gymorth a fyddai ei angen, ac i sicrhau bod trefniadau ar gael i gynnig cymorth priodol i rieni / teuluoedd. |
| 8.6.9 | Mae'n bryder y bydd consortiwm ERW yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol; rhaid sicrhau bod y cymorth cyfrwng Cymraeg effeithiol sydd gan Gyngor Sir | Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu strwythur cymorth newydd ar gyfer ysgolion, yn lle'r hyn a roddir gan ERW. Bydd yn cynnwys staff cymorth i gynorthwyo addysg cyfrwng |

| | | |
|---|---|---|
| | Powys yn ei le ar hyn o bryd yn cael ei ymestyn ar draws y ddarpariaeth gyfan i adlewyrchu gwaith yr ysgol, a bod rhieni'n gweld bod cymorth a darpariaeth ar gael yn Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Ym maes ADY, mae hyn yn hanfodol oherwydd mae gymaint o rieni di-Gymraeg yn poeni na all eu plant ddatblygu'n addysgol mewn iaith sy'n wahanol i'w hiaith gyntaf; byddai sicrhau y rhoddir sylw i hyn o dan y cynnig hwn yn gam tuag at dawelu pryderon y rhieni hyn. | Cymraeg. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio ag awdurdodau cyfagos i sicrhau bod cymorth i ddisgyblion ADY ar gael. |
| 8.6.10 | Mae angen annog rhieni'n gadarnhaol i anfon eu plant i'r ffrwd Gymraeg. Mae llawer nad ydynt yn gwneud hyn oherwydd eu bod yn dilyn patrwm hanesyddol, neu enghreifftiau eraill. Diffyg hyder yw'r rheswm am lawer o'r penderfyniadau hyn. | Nodwn y sylw. |

## 9. CYFEIRIO AT DREFNIADAU CLUDIANT

| | | |
|---|---|---|
| 9.1 | A fydd Cyngor Sir Powys yn darparu cludiant bws ysgol am ddim i'r holl blant hyn yr ydych yn eu gorfodi allan o addysg yn eu tref – ble mae eu teuluoedd wedi bod yn byw ers cenedlaethau – cywilydd arnoch Gyngor Sir Powys. | Nid yw'r Cyngor yn gorfodi plant allan o addysg ym Machynlleth.  Nod y cynnig yw sicrhau y gall Ysgol Bro Hyddgen barhau i gynnig addysg o ansawdd uchel i'w holl ddysgwyr yn y dyfodol, a sicrhau bod gan ei disgyblion i gyd gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn y ddwy iaith.<br><br>Byddai cludiant am ddim yn cael ei ddarparu'n unol â'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol a fyddai'n weithredol ar y pryd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd y polisi a gymeradwyodd y Cabinet ym mis Medi 2020 yn dod i rym ym mis Medi 2021. O dan y polisi hwn, cynigir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ysgol dalgylch neu addas agosaf y dysgwr, os bydd y dysgwr yn bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys. Os gwrthodir cais am gludiant, mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae penderfyniadau pob apêl cludiant yn cael eu gwrando a'u penderfynu fesul achos. |
| 9.2 | Dylid darparu cludiant / bws am ddim i'r ysgol agosaf lle rhoddir yr opsiwn i ddysgu yn Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 9.3 | Bydd angen i blant deithio'n bellach i gael addysg ac mewn amser bydd ganddynt ffioedd wrth deithio rhwng siroedd, sy'n dod yn llai a llai parod i dalu am y costau hyn. | Mae'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol fydd yn dod i rym ym mis Medi 2021 yn nodi fel a ganlyn:<br>*'Mae'r Cyngor yn cydnabod ei ymrwymiadau o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i gydymffurfio â dewisiadau'r rhieni o ran dewis ysgol. Fodd bynnag, lle mae rhieni / gwarcheidwaid yn dewis ysgol nad yw'r ysgol addas agosaf iddynt, ni fydd gan y plentyn / plant hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Rhaid i rieni wneud eu trefniadau cludiant eu hunain a byddent yn gwbl gyfrifol am drefnu i'w plant deithio i'r ysgol a ddewisant, ac am yr holl gostau cludiant cysylltiedig.'* |
| 9.4 | Byddai newid Ysgol Bro Hyddgen i ysgol cyfrwng Cymraeg yn golygu y byddai'n rhaid i rai plant deithio allan o'r sir i dderbyn eu haddysg, a fyddai'n daith ddwy ffordd o 36 milltir. | Fel yr uchod. |

## 10. SYLWADAU AM Y DDARPARIAETH BRESENNOL YN YSGOL BRO HYDDGEN

**10.1 Ar hyn o bryd mae nifer fawr o blant yn symud o'r ffrwd Gymraeg i'r ffrwd Saesneg**

| | | |
|---|---|---|
| 10.1.1 | Mae rhai plant yn mynd drwy'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ond mae eraill yn cael trafferthion ac felly'n symud i'r ffrwd Saesneg nes ymlaen. | Noda'r Cyngor y sylwadau am blant yn symud o'r ffrwd Gymraeg i'r un Saesneg yn ystod eu hamser yn Ysgol Bro Hyddgen.<br><br>Nod y Cyngor, cyn belled ag y bo'n bosib, yw bod disgyblion sy'n dechrau yn y ffrwd Gymraeg yn parhau yn y ffrwd Gymraeg drwy gydol eu haddysg. Dyma'r ffordd orau i sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog fel eu bod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg wrth adael yr ysgol.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai'r ysgol yn elwa o ethos Cymraeg cryfach a ddylai gael effaith gadarnhaol ar sgiliau iaith Gymraeg y plant, gan eu harfogi'n well i barhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Nod y cynnig yw sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn y cyfleoedd gorau, a phe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai staff yn Ysgol Bro Hyddgen yn parhau i gynorthwyo disgyblion i sicrhau bod ganddynt bob cyfle i gyflawni eu potensial.<br><br>Mae llawer o ddisgyblion ar draws Cymru'n mynychu ysgolion un ffrwd iaith Gymraeg yn y cynradd a'r uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, nid oes unrhyw ffrwd Saesneg i'r plant symud iddi. Fodd bynnag, mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais |

| | | |
|---|---|---|
| | | am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 10.1.2 | Mae llawer o blant yn symud i'r ffrwd Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 10.1.3 | Mae rhai disgyblion yn dechrau yn y ffrwd Gymraeg ond yn symud i'r ffrwd Saesneg oherwydd yr effaith ar eu haddysg a'u lles o fod yn methu â chadw i fyny â dysgu yn Gymraeg. | Fel yr uchod. |
| 10.1.4 | Mae disgyblion yn dechrau yn y ffrwd Gymraeg ond yn symud i'r ffrwd Saesneg fel nad ydynt yn mynd ar ei hôl hi. | Fel yr uchod. |
| 10.1.5 | Mae rhai disgyblion wedi symud o'r ffrwd Gymraeg i'r un Saesneg oherwydd nad oeddent yn ffynnu yn y ffrwd Gymraeg a hynny'n cael effaith negyddol ar eu hunanwerth. | Fel yr uchod. |
| 10.1.6 | Mae plant yn cael eu symud o'r ffrwd Gymraeg i'r un Saesneg oherwydd nad ydynt yn gallu darllen ayyb – mae cymaint o straeon ofnadwy. | Fel yr uchod. |
| 10.1.7 | Mae rhai plant yn symud o'r ffrwd Gymraeg i'r un Saesneg er mwyn gallu cael graddau gwell. | Fel yr uchod. |
| 10.1.8 | Mae llawer o ddisgyblion wedi symud i'r ffrwd Saesneg yn yr uwchradd er mwyn gallu cael y graddau sy'n ddisgwyliedig ohonynt - dw i ddim yn meddwl y byddent wedi cael y graddau hyn drwy aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 10.1.9 | Mae'r rhan fwyaf am i'w plant fod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mae llawer o rieni o gartrefi di-Gymraeg yn rhoi eu plant yn y ffrwd Gymraeg gan wybod, os bydd y plant yn cael trafferth, bod opsiwn i'w symud i'r ffrwd Saesneg. Daw'r | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | newid o'r ffrwd Gymraeg i'r un Saesneg yn fwy amlwg yn yr ysgol uwchradd. | |
| 10.1.10 | Mae disgyblion yn gallu astudio rhai pynciau uwchradd yn Saesneg fel eu bod yn gallu cael y canlyniadau gorau. | Fel yr uchod. |
| 10.1.11 | Mae amryw o blant yn gorfod symud o'r ffrwd Gymraeg oherwydd nad ydynt yn deall a dod yn eu blaenau, beth yw'r opsiwn i blant yn y dyfodol os bydd hyn yn parhau? | Fel yr uchod. |
| 10.1.12 | Mae nifer y disgyblion sy'n dechrau yn y ffrwd Gymraeg yn gamarweiniol oherwydd bod rhieni'n cael eu hannog i roi eu plant yn y ffrwd Gymraeg. Mae angen i chi edrych ar faint o blant sy'n symud yn y pen draw i'r ffrwd Saesneg – symudodd o leiaf 8 o blant a ddechreuodd ym Mlwyddyn 7 ym mis Medi o'r ffrwd Gymraeg i'r Saesneg oherwydd bod eu rhieni'n credu eu bod yn cael trafferthion. | Fel yr uchod. |
| 10.1.13 | Cafwyd adroddiadau bod y niferoedd yn y ffrwd Saesneg yn gostwng, ond mae hyn oherwydd nad yw'r ysgol yn adrodd y ffigurau'n gywir a ddim yn dangos faint o fyfyrwyr sy'n dechrau yn y ffrwd Gymraeg ac yna'n symud i'r ffrwd Saesneg nes ymlaen, sy'n digwydd yn aml. | Fel yr uchod. |

### 10.2 Pryderon am y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Bro Hyddgen

| | | |
|---|---|---|
| 10.2.1 | Dylai'r Cyngor fod yn ystyried gwella'r addysg yn yr ysgol, yn buddsoddi arian a chynnal yr ysgol er budd y boblogaeth leol. | Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos â'r ysgol i ddarparu a brocera cymorth ar gyfer meysydd gwella'r ysgol a ddisgrifir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn cyllideb ddirprwyedig yn unol â fformiwla ariannu teg yr awdurdod lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| 10.2.2 | Mae gan yr ysgol broblemau mwy sydd angen eu hateb. Er yn deall bod angen ymgynghori, bydd y problemau yn yr ysgol yn aros beth bynnag fydd y categori iaith a gytunir ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen yn y dyfodol. | Fel yr uchod. |
| 10.2.3 | Ydy'r sefyllfa bresennol yn gweithio yn yr ysgol? Ydy'r plant yn derbyn y cymorth iawn, cymorth arbenigol? Mae prinder staff yn parhau i ddal datblygiad ein plant yn ôl. | Fel yr uchod. |
| 10.2.4 | Rydych wedi gadael i'r ysgol newid ei henw ar ôl arolygiad gwael, ond mae'n dal i fod gyda'r un pennaeth ayyb. Dylech geisio gwella'r addysg a'r canlyniadau i bob disgybl cyn gwneud newid mor fawr. | Yn Rhagfyr 2018, barnodd Estyn fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol gyda rhoi sylw i argymhellion yr arolygiad o dan Adran 28. Cafodd yr ysgol ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen eu hadolygu gan Estyn. Ni fydd unrhyw fonitro pellach yng nghyswllt yr arolygiad hwn. |
| 10.2.5 | Mae angen gwella lefel yr addysgu'n gyntaf, yn lle trafod yr iaith. Yn ystod y blynyddoedd iau, dylent ddysgu iaith ychwanegol fel Almaeneg neu Sbaeneg i fod yn dair-ieithog. | Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos â'r ysgol i ddarparu a brocera cymorth ar gyfer meysydd gwella'r ysgol a ddisgrifir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Nid yw'n statudol ofynnol i ysgolion addysgu ieithoedd ychwanegol i ddisgyblion iau. |
| 10.2.6 | Dylid gwella'r cyfleusterau sydd yno ac nid gwastraffu adnoddau'n newid pethau. Mae angen pennaeth priodol gyda phen busnes. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.7 | Mae Ysgol Bro Hyddgen yn trin y Gymraeg fel ei hiaith flaenoriaeth a theimlaf nad yw plant y ffrwd Saesneg yn cael eu hystyried yn gyfartal. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.8 | Mae ymdrech bendant wedi bod ers blynyddoedd i israddio ffrydiau Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 10.2.9 | Fel rhiant i ddisgybl Blwyddyn Derbyn, doeddwn i ddim yn hoffi sut ddaeth Ysgol Bro Hyddgen atom i'n perswadio i symud ein plant drosodd i'r ffrwd Gymraeg ar ôl ni ymgeisio am y ffrwd Saesneg, roedd hynny'n beth dan dîn. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.10 | Mae'r athrawon yn garedig a chlên ond mwy na heb yn anwybyddu unrhyw arwydd bod plant yn cael trafferth yn y cyfrwng Cymraeg mewn ymgais led eglur i gadw'r plant rhag symud i'r ffrwd Saesneg. Drwy wneud hynny, maen nhw'n cadw ffigurau'r ffrwd Saesneg yn isel (i baratoi mae'n siŵr am y newid hwn). | Nodwn y sylw. |
| 10.2.11 | O'r blynyddoedd cynnar / oed meithrin ym Machynlleth, mae rhieni'n clywed pethau fel, mae'r ffrwd Gymraeg yn cael ei hariannu'n well a'r plant clên i gyd yn mynd i'r ffrwd Gymraeg ayyb. Mae'n dan dîn ac anghyfrifol iawn pan ddylen ni mewn gwirionedd feddwl am beth fydd yn helpu plentyn i ddatblygu orau. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.12 | Fel rhiant di-Gymraeg rwy'n cael trafferth yn barod oherwydd bydd yr ysgol yn dosbarthu gwaith papur i ddisgyblion ffrwd Saesneg yn Gymraeg yn unig. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.13 | Mae'r cymorth Saesneg yn yr ysgol yn wael yn barod, felly ofnaf y bydd pethau ond yn gwaethygu os daw'r newid. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.14 | Mae'n bwysig bod y llywodraethwyr yn gwrando a chael cyfle i rannu pryderon rhieni sydd o blaid addysg ddwyieithog a hefyd y rhai sydd o blaid addysg sy'n bennaf gyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd nid oes trawsdoriad eang ar gorff llywodraethu'r ysgol. Teimlaf fod agwedd negyddol wedi bod | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | tuag at rai oedd eisiau mwy o wybodaeth, a'r bobl hyn wedi cael eu galw'n wrth-Gymreig. | |
| 10.2.15 | Mae dymuniad a rhagfarn rheolwyr yr ysgol yn hysbys ddigon yn yr ardal – byddai'n well rhoi tîm rheoli yn ei le sy'n deall anghenion a gofynion y gymuned leol yn well, yn lle gorfodi newid ideolegol ar y gymuned gan ddefnyddio arbed costau fel rheswm. Mae Machynlleth a'i chyffiniau'n ardal amrywiaeth a dylai'r addysg yn y gymuned adlewyrchu hyn. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.16 | Mae barn tîm rheoli ac arweinyddiaeth yr ysgol allan yn groes i deimlad y gymuned ar y mater. Gallai adnewyddu'r ysgol fod yn gatalydd i newid y tîm rheoli a'r arweinyddiaeth i fod yn un mwy amrywiol, cynhwysol a rhyngwladol eu hagwedd. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.17 | Yn barod, ni all yr ysgol gefnogi plant ag ADY. Mae rhieni wedi gorfod tynnu eu plant allan – sut y gall rhieni eu cefnogi mewn iaith wahanol?! | Nodwn y sylw. |
| 10.2.18 | Mae'r ysgol eisoes yn cael trafferth cynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol - mae disgyblion yn gadael yr ysgol heb hyder a gyda hunanwerth isel oherwydd bod yr ysgol yn eu methu. | Nodwn y sylw. |
| 10.2.19 | Rwy'n poeni am y diffyg ymrwymiad i gyllido ysgol fach (ôl 11 oed) yn effeithiol. Mae fel ein bod yn derbyn bod gan Fro Hyddgen achos busnes i aros ar agor a'r cynllun taer ei angen i uwchraddio'r cyfleusterau - ond hyd y gwelwn nid i'w hariannu fel bod gan blant fynediad at ddewis llawn o bynciau - hyd y gwelwn, mae cyllid refeniw'n seiliedig ar nifer y disgyblion - ond oni wneir iawn am y ffaith ei bod yn ysgol | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | lai, ni ellir ei rhedeg yn dda. Rwy'n poeni'n fawr bod disgwyl i ddisgyblion ddechrau gyda dewis llai o bynciau o flwyddyn 8 ymlaen, gyda dim ond un flwyddyn lawn o gwricwlwm eang i seilio'r dewis hwn arno. Mae hyn yn bryder llawer mwy na'r cwestiwn a fydd athrawon yn addysgu'n ddwyieithog neu ddim ond yn Gymraeg. | |

## 10.3 Rhywbeth arall

| | | |
|---|---|---|
| 10.3.1 | Ar hyn o bryd, mae disgyblion yn cael eu haddysgu ar Teams ac yn cael eu gwersi bron i gyd yn Gymraeg. Gall y disgyblion siarad Cymraeg yn hyderus. Pe byddent yn mynd i Ysgol Bro Hyddgen fel y mae'n bresennol, byddai llawer ohonynt yn dewis cael gwersi yn Saesneg a symud i ffwrdd o'r Gymraeg er eu bod yn gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg. | Nodwn y sylw. |

## 11. EFFAITH ARIANNOL

| | | |
|---|---|---|
| 11.1 | O gofio bod yr ysgol wedi cael trafferth gyda recriwtio athrawon, y gor-gapasiti yn y dyfodol a'r posibilrwydd o ddileu swyddi athrawon, bydd y rhan fwyaf o'r arbedion cost yn dod o leihau nifer y staff ac nid drwy symud disgyblion i ysgol arall. Mae'r ddogfen ymgynghori'n dangos bod gwariant yr ysgol fesul disgybl ar hyn o bryd fwy neu lai'r un fath â'r gwariant cyfartalog yn y sir. Er yn derbyn bod yn rhaid i'r sir wneud arbedion cost yn gyffredinol, bydd cyflwyno'r polisi hwn yn dod ag arbedion cost bach iawn i gyllideb ysgol Powys at ei gilydd, oherwydd mae'r ysgol eisoes yn cwrdd â'i hymrwymiadau. Mae modd gwneud mwy o arbedion ar | Prif nod y cynnig, yn hytrach na gwneud arbedion cost, yw cwrdd ag amcanion Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys o wella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith er y disgwylir i'r cynnig arwain at rai arbedion net i'r awdurdod.<br><br>Mae Rhaglen Trawsnewid y Cyngor hefyd yn ystyried ysgolion ar draws y sir lle mae'r gost fesul disgybl yn uwch na'r cyfartalog sirol. |

| | | |
|---|---|---|
| | bethau eraill, efallai lle mae'r gost fesul disgybl yn fwy na'r cyfartalog sirol. | |
| 11.2 | Bydd yn arbed costau, cael llai o staff addysgu. | Fel yr uchod. |
| 11.3 | Gwn fod angen cymorth ariannol ar yr ysgol ond nid ar draul anghenion addysgol plant di-Gymraeg yw'r ffordd i wneud hynny. | Mae llawer o ddisgyblion ar draws Cymru'n mynd i ysgolion un ffrwd iaith Gymraeg yn y cynradd a'r uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, nid oes unrhyw ffrwd Saesneg i'r plant symud iddi. Fodd bynnag, mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 11.4 | Mae'n bwysig bod yr ysgol yn gwneud defnydd da o arbedion effeithlonrwydd i gynorthwyo'r broses bontio a chadw'r amrediad o bynciau. | Nodwn y sylw. Fodd bynnag, byddai unrhyw arbedion yn cael eu hailfuddsoddi yng nghyllideb gorfforaethol y Cyngor ac unrhyw ail-fuddsoddi yn y system ysgolion yn cael ei gytuno fel rhan o'r cylch cynllunio cyllideb blynyddol. |
| 11.5 | Roedd 'cefnogaeth' a 'cymorth ychwanegol' wedi'i addo i'r gymuned ar gyfer rhieni di-Gymraeg a roddodd eu plant yn y ffrydiau Cymraeg yn y blynyddoedd diwethaf, ond nid oes unrhyw help wedi bod iddynt. Mae hyn yn bendant wedi newid barn a theimladau pobl oherwydd, os nad oedd cymorth ar gael bryd hynny, sut allwch chi warantu hyn nawr, gyda dros filiwn o bunnau o doriadau i'r gwasanaeth iaith yn flynyddol, neu o leiaf eleni. | Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol i adnabod y cymorth ychwanegol sydd ei angen i gynorthwyo'r broses o bontio i'r model newydd. Gallai hyn gynnwys rhoi cyfle i'r disgyblion presennol fynd ar gyrsiau trochi fel y gallent drosglwyddo'n gynt i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn gallu gweithredu'r newid yn llawn yn gynt.<br><br>Mae'r addysg drochi yma eisoes yn cael ei datblygu a'i ehangu. |

| | | |
|---|---|---|
| 11.6 | Rwy’n deall bod y cyllid gan y llywodraeth ar gyfer yr adeilad ysgol newydd yn dibynnu ar fod yr ysgol yn gyfrwng Cymraeg. | Nid yw cyllid ar gyfer yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen yn dibynnu ar yr ysgol yn dod yn gyfrwng Cymraeg. |
| 11.7 | Mae pryder y byddai’r cynnig yn lleihau buddsoddiad allanol a’i gwneud yn anoddach gwella safonau. | Nid oes disgwyl i fuddsoddiad allanol leihau o ganlyniad i’r cynnig hwn.<br><br>Mae’r awdurdod lleol yn gweithio’n agos â’r ysgol i ddarparu a brocera cymorth ar gyfer meysydd gwella’r ysgol a ddisgrifir yng nghynllun datblygu’r ysgol. |
| 11.8 | Mae’n debygol y bydd llai o blant (h.y. y ganran o blant Saesneg a fyddai’n dewis ysgol arall) yn golygu llai o gyllid ac y gwelwn yr un heriau sy’n lleihau’r dewisiadau pwnc mor ddifrifol ar hyn o bryd. | Nid yw’r newidiadau yn nifer y dysgwyr yn y ffrwd Saesneg yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael i’r ffrwd Gymraeg ar hyn o bryd. Pe bai’r newid hwn yn digwydd, bydd y cyllid yn parhau i fod yn seiliedig ar nifer y disgyblion ond dylai’r costau leihau oherwydd bydd y disgyblion i gyd mewn un ffrwd a byddai’r cyllid yn lleihau o ganlyniad. |
| 11.9 | Yn y gorffennol, cawsom addewidion ariannol gan Bowys ynglŷn â newidiadau i’w gwneud i’r ysgol, addewidion sydd wedi cael eu torri. Pa sicrwydd allwch ei roi y bydd darpariaeth ariannol ar gael i gynorthwyo’r ysgol yn y dyfodol? | Pe bai’r Cyngor yn symud ymlaen gyda’r cynnig, byddai’n gweithio gyda’r ysgol i adnabod y cymorth ychwanegol sydd ei angen i gynorthwyo’r broses o bontio i’r model newydd. Gallai hyn gynnwys rhoi cyfle i’r disgyblion presennol fynd ar gyrsiau trochi fel y gallent drosglwyddo’n gynt i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn gallu gweithredu’r newid yn llawn yn gynt.<br><br>Mae’r addysg drochi yma eisoes yn cael ei datblygu a’i ehangu. |

## 12. EFFAITH AR STAFF

### 12.1 Poeni am yr effaith ar staff di-Gymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 12.1.1 | Beth fydd yn digwydd i staff di-Gymraeg? | Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i newid categori iaith yr ysgol, byddai ymgynghoriad staff llawn yn cael ei gynnal i edrych ar lefelau staffio ac i adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant i'r staff sy'n gweithio yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd. |
| 12.1.2 | Beth fydd yn digwydd i'r staff sy'n addysgu yn y ffrydiau Saesneg ar hyn o bryd? | Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i newid categori iaith yr ysgol, byddai ymgynghoriad staff llawn yn cael ei gynnal i edrych ar lefelau staffio ac i adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant i'r staff sy'n gweithio yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd. |
| 12.1.3 | Beth am staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, a fydd angen iddynt ddysgu Cymraeg cyn gallu addysgu yn yr ysgol, pe bai'r categori iaith yn newid i gyfrwng Cymraeg? - Eglurwyd y byddai angen i'r Cyngor helpu'r ysgol i roi mwy o gyfle i athrawon a staff eraill gael dysgu Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 12.1.4 | Pa mor ddiogel yw swyddi staff di-Gymraeg, a pha drefniadau fydd yn eu lle i helpu'r staff hyn i ddysgu Cymraeg? | Fel yr uchod. |
| 12.1.5 | Poeni am y staff di-Gymraeg – nid yw'n dderbyniol bod staff yn colli eu gwaith oherwydd nad ydynt yn siarad Cymraeg – gwahaniaethu yw hyn. | Fel yr uchod. |
| 12.1.6 | Er y bydd yr ysgol yn fodlon dileu swyddi athrawon sydd naill ai'n ddi-Gymraeg neu na fyddent yn gallu addysgu nifer o bynciau'n dilyn archwiliad sgiliau dileu swyddi, beth fydd yn | Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid y categori iaith, byddai angen cynnal adolygiad o'r cwricwlwm ynghyd ag adolygiad o'r gofynion staffio i |

| | | |
|---|---|---|
| | digwydd i'r athrawon sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith? 9 gwers pob pythefnos ym mlynyddoedd 7, 8, 9, 10, 11...? | gynnal y cwricwlwm hwnnw. Ar sail hyn byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ba staff fydd ei angen yn y dyfodol a byddem yn ymgynghori'n llawn â staff. |
| 12.1.7 | Bydd angen i'r staff presennol i gyd siarad Cymraeg a bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i rai sydd ei angen. Fodd bynnag, efallai na fydd yr athrawon hyn yn dymuno siarad Cymraeg neu'n methu â chyrraedd y safon ofynnol, ac felly drwy wneud hynny'n gwneud eu hunain allan o waith. Mewn geiriau syml, bydd rhaid dysgu Cymraeg neu golli eich swydd. Pe bai hyn yn digwydd byddwch yn datrys eich problem gor-gapasiti a gwneud yr arbedion ariannol y soniwch amdanynt. | Mae nifer sylweddol o brosesau y byddai angen eu dilyn cyn i staff wynebu unrhyw risg o ddileu swyddi, gan gynnwys ymgynghori â staff, efallai adolygu unrhyw swyddi cyfnod penodol a chwilio am wirfoddolwyr i ymddeol. Byddai'r Cyngor yn gweithio â phob aelod unigol o staff i adolygu'r opsiynau, gan gynnwys hyfforddiant a datblygu, cyn i unrhyw ddileu swyddi ddigwydd. |
| 12.1.8 | Sut y gallwch ddisgwyl i athro / athrawes Ffrangeg addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? Oni fyddai siaradwr Ffrangeg yn fwy o fantais i'r plant na siaradwr Cymraeg yn ceisio dysgu Ffrangeg? Onid y sgiliau sydd ganddynt sy'n bwysig, ac nid yr iaith! | Nodwn y sylw, ac fel yr uchod, pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid y categori iaith, byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r cwricwlwm a'r anghenion staffio a byddai ymgynghori â staff hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried barn staff am y strwythur staffio. |

### 12.2 Poeni am bwysau ychwanegol ar staff

| | | |
|---|---|---|
| 12.2.1 | Bydd staff o dan fwy o bwysau nag o'r blaen oherwydd y dosbarthiadau mwy. | Nodwn y sylw. |
| 12.2.2 | Nid yw'r plant yn derbyn digon o gymorth yn y dosbarth fel y mae hi. | Nodwn y sylw. |

### 12.3 Poeni am yr effaith ar gyfleoedd gwaith

| | | |
|---|---|---|
| 12.3.1 | Ni fydd y newid iaith yn dod â mwy o blant Cymraeg. Rydyn ni'n fwy tebygol o waedu disgyblion Saesneg posib na disgyblion Cymraeg. Felly bydd llai o ddisgyblion yn golygu llai o ddosbarthiadau, a bydd angen llai o athrawon. | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn am effaith bosib newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen ar nifer y disgyblion yn yr ysgol yn y dyfodol.<br><br>Os bydd y Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, y bwriad fyddai ei gyflwyno'n raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol, gan felly leihau'r effaith ar nifer y disgyblion. Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Fel y noda'r ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn:<br><br>*'Mae'n bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at leihad yn nifer y disgyblion oherwydd na fyddai disgyblion o'r tu allan i'r sir sydd ar hyn o bryd yn derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol mwyach yn dewis dod i'r ysgol, neu gallai disgyblion o'r ardal leol ddewis mynychu darparwyr cyfrwng Saesneg eraill.*<br><br>*Fodd bynnag, mae hefyd yn bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion dros y tymor hirach, wrth i ddisgyblion o ardaloedd eraill ddewis mynychu'r ysgol. Gallai hyn ddigwydd gyda'r ddarpariaeth uwchradd yn enwedig.'* |

| | | |
|---|---|---|
| 12.3.2 | Ni all athrawon fforddio cael eu cyflogi'n rhan amser yn aml. | Nodwn y sylw. |
| 12.3.3 | Bydd llai o angen athrawon arbenigol a hynny, yn y pen draw, yn arwain at lai o ddewis ar gyfer TGAU i blant y gymuned hon, a llai fyth ar gyfer Lefel A lle mae'n rhaid i fyfyrwyr fideo-gynadledda fan hyn a fan draw'n barod ar gyfer pynciau sydd heb athrawon arbenigol. | Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i newid categori iaith yr ysgol, byddai ymgynghoriad staff llawn yn cael ei gynnal i edrych ar lefelau staffio ac i adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant i'r staff sy'n gweithio yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd. |
| 12.3.4 | O gofio bod yr ysgol wedi cael trafferth gyda recriwtio athrawon, y gor-gapasiti yn y dyfodol a'r posibilrwydd o ddileu swyddi athrawon, bydd y rhan fwyaf o'r arbedion cost yn dod o leihau nifer y staff ac nid drwy symud disgyblion i ysgol arall. | Fel yr uchod. |

**12.4 Cyfleoedd gwell i recriwtio staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

| | | |
|---|---|---|
| 12.4.1 | Byddai'r cynnig yn rhoi'r pŵer i'r ysgol fynnu bod staff yn gallu siarad Cymraeg wrth recriwtio a phenodi staff yn y dyfodol. | Nodwn y sylw. |
| 12.4.2 | Bydd recriwtio athrawon ar draws y cwricwlwm yn gwella oherwydd bydd yr angen / disgwyl iddynt addysgu'n ddwyieithog yn lleihau / cael ei ddileu. Gall hyn weithiau fod yn rhwystr ar hyn o bryd. | Nodwn y sylw. |

**12.5 Rhywbeth arall**

| | | |
|---|---|---|
| 12.5.1 | Yn poeni y gallai fod yn anodd dod o hyd i athrawon Cymraeg i addysgu rhai pynciau arbenigol fel astudiaethau busnes, ac y gallai hyn gyfyngu ar y dewis o bynciau. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

## 13. EFFAITH AR Y GYMUNED

### 13.1 Effaith gadarnhaol ar y gymuned

#### 13.1.1 Byddai'r cynnig yn gwneud y gymuned yn fwy clòs

| | | |
|---|---|---|
| 13.1.1.1 | Byddai hyn yn uno'r gymuned yn y tymor hir. | Nodwn y sylw. |
| 13.1.1.2 | Dros gyfnod hir, byddai newid y categori iaith o fantais i'r gymuned drwy greu hwyluso cysylltiadau cryfach rhwng gwahanol sectorau'r gymuned. Mae cadw llond llaw o blant ar wahân oherwydd dewisiadau ieithyddol eu rhieni'n creu gwahanfur, byddai cael y plant i gyd mewn un ffrwd iaith yn creu pont. | Nodwn y sylw. |
| 13.1.1.3 | Byddai'n dod â phawb yn yr ardal at ei gilydd ac yn gwella ysbryd y gymuned. | Nodwn y sylw. |
| 13.1.1.4 | Byddai cael un ffrwd iaith yn rhoi diwedd ar effeithiau negyddol y sefyllfa bresennol o greu rhaniadau yn y gymuned. | Nodwn y sylw. |
| 13.1.1.5 | Gwelodd y sefyllfa ddiweddar gyda Covid-19, yn enwedig y cyfnod clo ar ddechrau 2020, dref Machynlleth yn dod at ei gilydd fel un gymuned; bydd newid yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn cael effeithiau cadarnhaol pellach ar gryfhau a dod â'r gymuned at ei gilydd. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 13.1.1.6 | Unwaith fydd y newid wedi digwydd, bydd yn helpu i wneud y gymuned, yn yr ysgol a'r ardal, yn fwy clòs oherwydd byddai pawb yn dod at ei gilydd fel rhan o un ddarpariaeth addysg yn lle cael eu rhannu'n ddwy ffrwd. | Nodwn y sylw. |

### 13.1.2 Effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg yn y gymuned

| | | |
|---|---|---|
| 13.1.2.1 | Byddai hyn yn atgyfnerthu iaith ein cymuned. | Nodwn y sylw. |
| 13.1.2.2 | Mwya'n byd o bobl yn y gymuned y gallwn eu cael i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mwya'n byd y fantais yn y dyfodol. | Nodwn y sylw. |
| 13.1.2.3 | Byddai mwy o bobl yn ardal Machynlleth yn gallu siarad Cymraeg. | Nodwn y sylw. |

### 13.1.3 Rhywbeth arall

| | | |
|---|---|---|
| 13.1.3.1 | Yn reddfol, rwy'n meddwl bod hyn yn cynnig manteision aruthrol i blant a phobl ifanc, ac i'r gymuned gyfan. | Nodwn y sylw. |

## 13.2 Effaith negyddol ar y gymuned

### 13.2.1 Poeni y byddai'r cynnig yn arwain at hollti'r gymuned

| | | |
|---|---|---|
| 13.2.1.1 | Bydd yn creu gwrthdaro yn y gymuned. | Er bod y Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig achosi rhai tensiynau yn y gymuned leol yn y tymor byr, yn y tymor hir gobeithia'r Cyngor y byddai'r cynnig yn gwneud |

| | | |
|---|---|---|
| | | y gymuned yn fwy clòs oherwydd byddai'r disgyblion i gyd yn mynychu'r un ddarpariaeth.<br><br>Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd fel rhan o'r dogfennau ymgynghori:<br><br>*'Yn y tymor byr, mae'n bosib y gallai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol greu tensiynau ac anghytundeb yn y gymuned leol, yn enwedig wrth i'r prosesau ymgynghori ddigwydd. Fodd bynnag yn y pen draw byddem yn disgwyl i'r tensiynau hyn leihau, ac yn y tymor hirach wrth weithredu'r newid i'r categori iaith, y gobaith yw y byddai'r cynnig yn helpu i wneud y gymuned yn fwy clòs oherwydd byddai'r holl ddisgyblion yn yr ardal yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg.'* |
| 13.2.1.2 | Gallai symud at gyfrwng Cymraeg feithrin teimladau anniddig yn y gymuned ddi-Gymraeg leol. | Fel yr uchod. |
| 13.2.1.3 | Gallai pobl weld newid fel rhywbeth sy'n creu gwahaniaethu a rhaniadau mewn tref gyda chymuned ddwyieithog integredig. | Fel yr uchod. |
| 13.2.1.4 | Rwy'n poeni bod ymgynghori eto ar statws iaith yr ysgol yn achosi rhaniadau yng nghymunedau Machynlleth. | Fel yr uchod.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn ymgynghori <u>eto</u> ar statws iaith yr ysgol – nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal yn y gorffennol ar gategori iaith Ysgol Bro Hyddgen. |
| 13.2.1.5 | Mae cael gwared ar blant dosbarth is sy'n siarad Saesneg, neu "blant trafferthus", yn teimlo fel "boneddigeiddio" ac mae'n hollol amlwg. | Nid nod y cynnig yw cael gwared ar blant dosbarth is sy'n siarad Saesneg. Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol, gan gynnwys rhai o gartrefi di-Gymraeg, yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |
| 13.2.1.6 | Mae'n bwysig bod disgyblion o bob cefndir yn cael eu croesawu yn yr ysgolion lleol. Byddai colli'r ffrwd Saesneg yn gwneud yr ysgolion hyn yn llai cynhwysol yn fy marn i. | Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion o bob cefndir yn parhau i gael eu croesawu i Ysgol Bro Hyddgen.<br><br>Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol, gan gynnwys rhai o gartrefi di-Gymraeg, yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly |

| | | |
|---|---|---|
| | | byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |
| 13.2.1.7 | Mae cael gwybod nad oes croeso i chi yn y gymuned hon mwyach yn warthus a chywilyddus. | Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion o bob cefndir yn parhau i gael eu croesawu i Ysgol Bro Hyddgen. Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru.<br><br>Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol, gan gynnwys rhai o gartrefi di-Gymraeg, yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |
| 13.2.1.8 | Mae Machynlleth wastad wedi bod ag awyrgylch cynhwysol ac aml-ddiwylliannol sydd nawr dan fygythiad oherwydd lleiafrif o genedlaetholwyr dosbarth canol sydd eisiau cymdeithas uniaith Gymraeg. | Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion o bob cefndir yn parhau i gael eu croesawu i Ysgol Bro Hyddgen. Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol, gan gynnwys rhai o gartrefi di-Gymraeg, yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Nid nod y Cyngor yw creu cymdeithas uniaith Gymraeg. Nod y cynnig yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r drefn ddwy ffrwd bresennol yn golygu bod plant cyfrwng Cymraeg yn dod yn gwbl ddwyieithog, ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg sy'n datblygu sgiliau dwyieithog llawn. |
| 13.2.1.9 | Mae Bro Ddyfi'n gymuned garedig a chroesawus o gymysgedd amrywiol o bobl. Mae bod yn agored a chynhwysol wrth graidd y rhan fwyaf o gymunedau Bro Ddyfi. Os yw'r gwerthoedd cymunedol hyn ac "ymdeimlad" yr ardal i barhau, rhaid i'r ysgol barhau i ddarparu addysg Gymraeg a Saesneg yn deg a chyfartal. | Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |

| | | |
|---|---|---|
| 13.2.1.10 | Bydd hyn yn niweidiol ac yn cau allan y gymuned Saesneg ei hiaith ym Machynlleth. | Fel yr uchod. |
| 13.2.1.11 | Drwy wneud i ffwrdd â'r ffrwd Saesneg bydd anghyfartaledd amlwg rhwng y ddwy iaith. Bydd pobl yn gweld bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth dros anghenion plant Saesneg eu hiaith, ac mae'r teimlad hwn o annhegwch a gorfodaeth yn debygol o achosi adlach yn erbyn y Gymraeg mewn rhai rhannau o'r gymuned. Bydd ceisio hyrwyddo'r Gymraeg fel hyn yn gwneud cam â'r iaith, a rhai o'r plant mwyaf bregus fydd y rhai mwyaf tebygol o ddioddef. | Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |
| 13.2.1.12 | Nid oes cwestiwn o wneud i ffwrdd ag addysg cyfrwng Cymraeg o'r ysgol, ond eto mae'r newyddion am yr ymgynghoriad hwn wedi ysgogi ymateb trawmatig gan rai aelodau o'r gymuned Gymraeg, sy'n dal i gofio'r gorthrwm hanesyddol o'r Gymraeg. Mae iaith mor bwysig ac mor ganolog i'n diwylliant a'n hunaniaeth ac rwy'n ofni, yn yr amseroedd anodd hyn, y gallai'r ymgynghoriad hwn roi straen ar natur oddefol a pharchus arferol y dref gan greu rhaniadau di-fudd rhwng cymunedau a fyddai'n elwa mwy o gefnogi ei gilydd. | Nodwn y sylw. |
| 13.2.1.13 | Tan y blynyddoedd diwethaf, ni welais erioed bobl yn cael eu gwgu arnynt neu eithrio am beidio â siarad y ddwy iaith. Ond yn drist, ymddengys mai hyn sy'n digwydd drwy brotestiadau gwleidyddol lleiafrif bach ond uchel eu cloch.<br>Fel siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, fi fyddai'r person diwethaf i adael i fy iaith gael ei chysgodi gan iaith arall.0} Ond y peth pwysicaf yn anad dim yw lles cenedlaethau'r dyfodol a byw mewn cymuned dwymgalon, groesawus a chariadus. Mae | Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |

| | | |
|---|---|---|
| | hyn yn y fantol er mwyn ennill mantais wleidyddol rad a rhaid ei wrthod er mwyn achub natur glòs ein hardal. Da chi cadwch yr ysgol yn ddwy ffrwd, mae ein cymuned angen ac yn haeddu hyn. Mae Machynlleth yn gymuned eang ei gorwelion sy'n falch, fel y dylai fod, o'i chysylltiadau diwylliannol traws-DU a rhyngwladol hefyd, drwy ei gwyliau diwylliannol, ei chyfleusterau diwylliannol a'i chyrhaeddiad ehangach. | |
| 13.2.<br>1.14 | Yn groes i beth y mae rhai'n ei honni ar hyn o bryd, nid gwir ddiffiniad o ardal ddwyieithog yn un lle gall pawb siarad Saesneg a Chymraeg, ond un lle mae pob iaith yn cael ei pharchu'n gyfartal; lle mae pobl yn byw mewn cytgord, ochr yn ochr, gan siarad eu dewis iaith; lle mae pawb yn rhanddeiliaid cyfartal a phob unigolyn yn cael ei werthfawrogi am sut y maen nhw'n cyfoethogi ein cymdeithas. | Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |

**13.2.2 Ni fyddai'r ardal yn apelio at bobl sy'n ystyried symud yma / i fusnesau newydd**

| | | |
|---|---|---|
| 13.2.2.1 | Bydd y cynnig yn gwneud i'r ardal edrych yn gaeedig i bobl o'r tu allan. Nid yn unig y byddai hyn yn rhoi enw drwg i'r ardal ond yn atgyfnerthu'r ardal fel rhywle lle addysgir plant mewn amgylchedd sy'n elyniaethus i siaradwyr di-Gymraeg. Nid dyma agwedd pobl yr ardal ar hyn o bryd felly pam fod Cyngor Powys eisiau creu safbwynt mor gul ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol? | Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. Byddai croeso o hyd i bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen.<br><br>Mae gan lawer o ardaloedd gwledig yng Nghymru ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nid yw'n gwneud iddynt edrych yn gaeedig i bobl o'r tu allan. |

| | | |
|---|---|---|
| 13.2.2.2 | Mae'r polisi wedi'i strwythuro i wneud yr ardal yn anfanteisiol i newydd-ddyfodiad mewn dwy ffordd: yn gyntaf, sut fydd yr ysgol yn helpu siaradwyr di-Gymraeg sy'n symud i'r ardal (er enghraifft, pan fydd yn rhaid i rieni symud ar gyfer gwaith neu pan fydd teulu'n chwalu), yn enwedig rhieni disgyblion hŷn? Ar ganol proses symud fydd eisoes yn straen, mae'r Cyngor eisiau eu gorfodi i dderbyn eu haddysg mewn iaith ddieithr iddynt, gan ysgogi problemau iechyd meddwl a'u dal yn ôl gyda'u haddysg. Yn ail, gall hyn ond gwaethygu'r "colli talent" y mae Cymru'n dioddef ohono, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Bro Ddyfi, drwy atal pobl rhag symud i'r ardal a dod â sgiliau, arbenigedd a buddsoddiad sydd taer ei angen ar yr ardal. | Mae'r Cyngor yn anghytuno y bydd y cynnig yn atal pobl rhag symud i'r ardal. Nid oes unrhyw dystiolaeth o hyn ar draws Cymru.<br><br>Bydd Ysgol Bro Hyddgen yn parhau i groesawu disgyblion, beth bynnag yw eu cefndir, a bydd disgyblion sy'n dod i Ysgol Bro Hyddgen i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyr yn eu haddysg yn derbyn cymorth datblygu iaith Gymraeg i'w helpu i bontio i addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft drwy raglenni trochi.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn y pen draw byddai'r holl ddisgyblion yn Ysgol Bro Hyddgen yn gwbl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg ac yn gallu defnyddio'r sgiliau hyn yn y gweithle, lle mae mwy o alw o hyd am bobl sy'n rhugl yn y ddwy iaith yng Nghymru.<br><br>Y disgwyl yw y byddai'r cynnig yn arwain at swyddi gwell i holl ddisgyblion yr ardal yn y dyfodol, oherwydd byddai'r disgyblion i gyd yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ac felly'n gallu manteisio ar swyddi lle byddai angen bod yn rhugl yn y ddwy iaith. |
| 13.2.2.3 | Ni fyddai teuluoedd newydd yn dod yma i fyw. | Fel yr uchod. |
| 13.2.2.4 | Mae Machynlleth yn enwedig wedi croesawu preswylwyr newydd o bob man, yn ogystal ag o rannau eraill o Gymru. Dros y blynyddoedd mae preswylwyr newydd wedi symud yma a chyfrannu i'r dref ac i economi Bro Ddyfi, ochr yn ochr â siaradwyr Cymraeg brodorol, drwy sefydlu a datblygu | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod cael ysgol cyfrwng Cymraeg yn effeithio ar ddatblygiad busnesau. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn y pen draw byddai'r holl ddisgyblion yn Ysgol Bro Hyddgen yn gwbl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg ac yn gallu defnyddio'r |

| | | |
|---|---|---|
| | busnesau llwyddiannus sydd wedi cryfhau gwydnwch yr economi leol. | sgiliau hyn yn y gweithle, lle mae mwy o alw o hyd am bobl sy’n rhugl yn y ddwy iaith yng Nghymru. |
| 13.2.2.5 | Faint o fusnesau newydd fydd eisiau symud i’r ardal gan wybod bod yr unig addysg ar gael yn gyfrwng Cymraeg? Byddwn yn colli swyddi sydd taer eu hangen arnom. Pe bai’r Alban yn penderfynu cael addysg cyfrwng Gaeleg yn unig, byddai’n hurt a byddai swyddi’n symud i ardaloedd eraill fel bod gan weithwyr ddewis o addysg Saesneg. Rwy’n ofni bod yr un peth yn wir yng Nghymru ac mae gwir angen mewnfudwyr arnom i ddod â gwaith a swyddi i’r ardal, fel y gwnaethant yn y gorffennol er lles mawr i’r economi leol. | Y disgwyl yw y byddai’r cynnig yn arwain at swyddi gwell i holl ddisgyblion yr ardal yn y dyfodol, oherwydd byddai’r disgyblion i gyd yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ac felly’n gallu manteisio ar swyddi lle byddai angen bod yn rhugl yn y ddwy iaith. |
| 13.2.2.6 | Mae Machynlleth yn dibynnu’n drwm ar ddenu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a’u teuluoedd i’r ardal i sicrhau bod gennym wasanaeth meddyg teulu digonol yn yr ardal. Yn aml iawn mae’r teuluoedd hyn wedi teithio o siroedd neu wledydd eraill a bydd y newid hwn yn cael effaith ganlyniadol aruthrol ar yr ardal. Yn y tymor hir mae’n bosib y bydd diffyg gweithwyr proffesiynol a diffyg plant yn yr ysgol leol. | Fel yr uchod. |
| 13.2.2.7 | Byddai’r cynnig yn cymell teuluoedd i beidio â symud i’r ardal, gweithwyr a allai lenwi swyddi hanfodol yn y gymuned fel meddygon, parafeddygon, milfeddygon ac athrawon. Sut y gallai eu plant gael eu haddysgu drwy’r Gymraeg yn unig? Nid yw pawb yn rhugl yn Gymraeg er mwyn gallu cynorthwyo eu plant. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 13.2.2.8 | Mae angen i Fachynlleth fod yn gallu cyflogi pobl o'r tu allan ar gyfer swyddi arbenigol, e.e. meddygon, peirianwyr ayyb. Bydd rhai ohonynt yn dod o ardaloedd di-Gymraeg ac yn dod â budd mawr i'r ardal. Unwaith eto, oni fyddai rhoi dewis i'w plant dderbyn eu haddysg yn Saesneg, gyda chymorth i ddod yn gwbl ddwyieithog, yn well i'r ardal. | Fel yr uchod. Bydd disgyblion Ysgol Bro Hyddgen yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol yn 16 oed. |
| 13.2.2.9 | Byddai'n annog pobl i symud allan, mi fyddwn i'n sicr, fel bod fy mhlant yn derbyn yr addysg y maen nhw'n ei haeddu!! | Nodwn y sylw. |
| 13.2.2.10 | Mae Machynlleth yn gymdeithas aml-ddiwylliannol a bydd hyn yn dieithrio teuluoedd, fydd yn symud eu plant i ysgolion eraill, e.e. Aberystwyth, a hefyd yn cymell pobl i beidio â symud i'r ardal a ninnau'n erfyn am feddygon, deintyddion a milfeddygon. | Fel yr uchod. |
| 13.2.2.11 | Bydd pobl fusnes leol, sy'n dod ag incwm a gwaith i'r ardal leol, yn symud allan. | Fel yr uchod. |
| 13.2.2.12 | Pwy fydd eisiau symud i Fachynlleth os siaredir ond Cymraeg yn yr ysgol uwchradd? Mae hwn yn bolisi hirdymor i newid y gymdeithas yma, a feirniadwyd ers tro byd am beidio â bod yn ddigon Cymreig. Mae'n gymaint o bechod bod Cenedlaetholdeb yn codi ei ben eto ac yn defnyddio'r ysgol i'w bwrpas. | Nod y cynnig yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. |
| 13.2.2.13 | Efallai na fyddwn yn gallu denu pobl broffesiynol i fyw yma os na allwn ddarparu addysg ddwyieithog i blant. | Fel yr uchod. |
| 13.2.2.14 | Os bydd rhieni'n dewis symud tŷ i fod yn nes at ysgolion eraill, gallai effeithio ar fusnesau lleol a'r economi. Yn wir, | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | efallai na fydd busnesau lleol yn symud yma o’r tu allan yn y dyfodol – nid wyf yn siŵr a fyddai plant di-Gymraeg hŷn yn gallu ymdopi â system addysg uniaith Gymraeg – neu byddent yn wynebu siwrne bell bob dydd. | |
| 13.2.2.15 | Hefyd, drwy wneud i ffwrdd â’r ffrwd Saesneg, byddwch yn creu rhwystr i bobl sy’n ystyried symud i’r ardal. Er bod “gwarchod” yr iaith Gymraeg yn iawn, os gwneir hyn drwy eithrio eraill byddwn yn colli pobl o ardal sy’n denau iawn ei phoblogaeth yn barod. Bydd yr iaith heb os wedyn yn marw.<br><br>Os yw unrhyw gymuned i ffynnu, mae angen iddi addasu i gadw ei phobl ifanc a denu eraill i fagu plant ynddi. Wrth fod yn rhan o hyrwyddo’r ardal drwy gwmni buddiannau cymunedol Dyfi Mountain Biking, gwn am wyth cwpwl (gyda theuluoedd) a symudodd i’r ardal oherwydd y gamp hon. Gwnaeth pob un ymdrech i ddysgu Cymraeg ond cawsant eu sicrhau bod addysg ar gael yn iaith gyntaf eu plant.<br><br>Oherwydd bod Covid wedi ail-ddiffinio sut y gallwn weithio o gartref, mae mwy o bobl yn chwilio am rywle gwledig a braf i fyw yn lle rhywle o fewn hyn a hyn i’w gwaith. Mae Canolbarth Cymru’n gweld ymchwydd mewn diddordeb gan bobl ifanc a theuluoedd, rhywbeth sy’n rhaid i ni ei annog nid ei rwystro.0} Drwy wneud Machynlleth yn ysgol Gymraeg yn unig, byddwch yn cyfyngu ei hapêl i rai sy’n ystyried eu hunain yn rhugl (11%) neu’n gallu siarad “tipyn” o Gymraeg (8%) (Arolwg Defnydd Iaith, 2013-15, Llyw.Cymru). Bydd hyn yn arwain yn uniongyrchol at lai o deuluoedd yn symud i’r ardal a dirywiad o ganlyniad yn nifer y bobl ifanc. Yn eironig, gallai’r cynnig hwn i “achub” yr iaith helpu i’w lladd! | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 13.2.2.16 | Os na fydd ffrwd Saesneg yn y dyfodol, ni ddaw pobl newydd i'r ardal, llawer ohonynt yn llenwi swyddi iechyd / proffesiynol pwysig. Ni fydd lleoliadau i blant maeth nad ydynt yn gallu derbyn addysg mewn ail iaith. Ni fydd anghenion y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn cael eu cwrdd... A'r cwbl oherwydd nad ydych eisiau rhoi cyfle addysg cyfartal i'n plant Saesneg eu hiaith? Mae gan blant Cymraeg eu hiaith y cyfle hwn yn barod. | Fel yr uchod. |

**13.2.3 Rhywbeth arall**

| | | |
|---|---|---|
| 13.2.3.1 | Mae ein hiaith yn cael ei siarad yn eang, ond ymhell o fod gan bawb, yn y dref. Nid yw Machynlleth erioed wedi'i diffinio gan yr iaith a siaredir yma. | Mae'r Cyngor yn llwyr gydnabod nad yw pawb yn ardal Machynlleth yn siarad Cymraeg.<br><br>Er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd, y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol.<br><br>Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol, gan gynnwys rhai o gartrefi di-Gymraeg, yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Byddai hyn yn sicrhau bod holl ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen, yn y pen draw, yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, yn y gymuned a thu allan iddi. Y bwriad yw y bydd hyn, yn y tymor hir, yn gwella cydlyniant y gymuned yn yr ardal. |
| 13.2.3.2 | Yr hyn sy'n nodweddu trigolion ein hardal fwyaf o bell yw ein hysbryd cymunedol, yr ewyllys cytûn i ddod at ein gilydd, ar adegau o ddathlu ac adegau o adfyd mawr. Mae hyn i'w weld yn y ffordd y daethom at ein gilydd dros y cyfnod clo, a laweroedd o weithiau o'r blaen. Mae'r iaith a siaradwn yn dod yn ail i hyn oll. | Fel yr uchod. |
| 13.2.3.3 | Os yw hwn i fod yn opsiwn cynaliadwy, mae angen i'r gymuned i gyd ei gefnogi. | Er bod canfyddiadau'r ymgynghori hwn wedi dangos yn glir bod yna deimladau cryf yn lleol am y cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, gan adnabod nifer o bryderon am y cynnig, ar y cyfan mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig achosi rhai tensiynau yn y gymuned leol yn y tymor byr, ond yn y tymor hir gobeithia'r Cyngor y byddai'r cynnig yn gwneud y gymuned yn fwy clòs oherwydd byddai'r disgyblion i gyd yn mynychu'r un ddarpariaeth. Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd fel rhan o'r dogfennau ymgynghori:<br><br>*'Yn y tymor byr, mae'n bosib y gallai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol greu tensiynau ac anghytundeb yn y gymuned leol, yn enwedig wrth i'r prosesau ymgynghori ddigwydd. Fodd bynnag yn y pen draw byddem yn disgwyl i'r tensiynau hyn leihau, ac yn y* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *tymor hirach wrth weithredu'r newid i'r categori iaith, y gobaith yw y byddai'r cynnig yn helpu i wneud y gymuned yn fwy clòs oherwydd byddai'r holl ddisgyblion yn yr ardal yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg.'* |

## 14. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

### 14.1 Byddai'n arwain at ddefnyddio mwy ar yr iaith Gymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 14.1.1 | Byddai newid categori iaith yr ysgol yn helpu i wasgaru'r iaith ar draws y gymuned gyfan. Byddai'n creu undod rhwng disgyblion ac yn lleihau unrhyw wahaniaethau yn eu haddysg. Byddai gan blant o wahanol gefndiroedd yr un cychwyn i'w haddysg. | Noda'r Cyngor y sylwadau hyn a chytunwn y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. |
| 14.1.2 | Byddai'r hwb i'r Gymraeg yn lleol yn aruthrol oherwydd byddai plant o gartrefi di-Gymraeg yn ysbrydoli eu teuluoedd i ddysgu Cymraeg. Wrth i'r plant dyfu gyda'r iaith, byddent yn symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ymlaen i'r gweithle lle byddai ganddynt sgiliau dwyieithog. Byddai hyn ond yn cynyddu'r manteision i'r economi leol. | Fel yr uchod. |
| 14.1.3 | Byddai'n hwb anferth i'r Gymraeg yn y dref. Mae gymaint o bobl yn y dref yn deall Cymraeg ond heb yr hyder i'w siarad. | Fel yr uchod. |
| 14.1.4 | Byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn hyrwyddo mwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wledig. Dylid annog plant i fod yn rhan o ddiwylliant Cymraeg yr ardal o'r dechrau un, ac ni ddylai fod gan rieni di-Gymraeg yr opsiwn i newid | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | iaith addysg eu plant. Byddent i gyd yn falch pan fydd y plant yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y ddwy iaith. | |
| 14.1.5 | Byddai'n naturiol i'r Gymraeg gael ei harfer fwy, nid yn unig yn yr ysgol ond yn nheuluoedd y plant ac felly yn y gymuned ehangach. | Fel yr uchod. |
| 14.1.6 | Dylen ni fod yn annog gymaint o siaradwyr Cymraeg â phosib yn ardal Bro Ddyfi. Os yw pobl yn dewis byw yma yng Nghymru wledig, ni ddylai fod ganddynt opsiwn heblaw dod yn rhugl yn y ddwy iaith, a bod yn hyderus i ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd yn yr ardal ar ôl gadael yr ysgol. | Fel yr uchod. |
| 14.1.7 | Newid categori iaith yr ysgol yw'r unig ffordd o sicrhau y bydd mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg – ni fyddai'n bosib cynyddu'r cyfleoedd hyn drwy gadw'r ysgol yn ddwyieithog oherwydd mae'n cyfyngu ar faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 14.1.8 | Mwy o gyfleoedd i bawb gael defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned leol. | Fel yr uchod. |
| 14.1.9 | Bydd newid categori iaith yr ysgol yn arwain at newid yn y defnydd o'r iaith yn gymdeithasol, fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg. | Fel yr uchod. |
| 14.1.10 | Byddai mwy o bobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 14.1.11 | Byddai newid categori iaith yr ysgol yn cryfhau ethos addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a hefyd, heb os, yn | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | cael effaith ar y gymuned a chreu mwy o gyfle i bobl gael defnyddio'r Gymraeg. | |
| 14.1.12 | Byddai newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg, e.e. byddai gan y plant i gyd a'u teuluoedd gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg, e.e. yr Urdd. | Fel yr uchod. |
| 14.1.13 | Byddai ysgol cyfrwng Cymraeg yn creu dinasyddion cwbl ddwyieithog drwy drochi'r disgyblion yn Gymraeg. Byddai hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn y gymuned ac yn creu mwy o gyfle i unigolion gael defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. | Fel yr uchod. |
| 14.1.14 | Byddai'r cynnig yn gwella statws y Gymraeg yn lleol, yn enwedig yn y dref lle mae Saesneg yn tueddu i fod yn fwy ffasiynol. | Fel yr uchod. |
| 14.1.15 | Bydd iaith iard yr ysgol yn newid i Gymraeg oherwydd bydd ffrindiau'n trafod popeth yn Gymraeg. Y tu allan i oriau'r ysgol, bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan blant sy'n byw mewn cartrefi di-Gymraeg a bydd mwy o gyfleoedd ar gyfer addysg bellach, swyddi, cymdeithasu ac i fod yn rhan o'r gymuned. | Fel yr uchod. |
| 14.1.16 | Byddai'n arwain at ddisgyblion yn siarad y Gymraeg pob dydd yn yr ysgol. | Fel yr uchod. |
| 14.1.17 | Byddai Cymraeg yn dod yn ddewis naturiol i'r disgyblion gyfathrebu gyda'i gilydd oherwydd byddent wedi arfer â hynny ers yn ifanc. Byddai'n arwain at fwy o ddefnydd | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | cymunedol o’r Gymraeg yn y gymuned ehangach – nid dim ond yn yr ysgol. | |
| 14.1.18 | Bydd cryfhau’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, ac yn enwedig cyfyngu ar y cyfle a’r esgusodion i ddefnyddio’r Saesneg, yn gwneud y Gymraeg yn fwy tebygol o fod yn ddewis iaith, yn enwedig ar iard yr ysgol ac ar gyfryngau cymdeithasol. O dan y ddarpariaeth bresennol, mae tuedd i ddisgyblion di-Gymraeg droi i’r Saesneg oherwydd nad yw’r disgyblion uniaith Saesneg yn gallu siarad Cymraeg. Pa fwy sydd ei angen i ddangos manteision bod yn ddwyieithog? Pan fydd disgyblion Cymraeg eu hiaith yn dechrau sôn am eu diwrnod yn Saesneg (fel prif iaith eu gweithgareddau), gall greu tensiynau rhwng y disgyblion a’r rhieni sy’n poeni, unwaith eto, bod y Gymraeg dan fygythiad. | Fel yr uchod. |
| 14.1.19 | Byddai mwy o gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg oherwydd byddai pawb yn ei siarad. Bydd yn eithaf anodd cael rhai disgyblion i siarad Cymraeg gyda’i gilydd yn lle Saesneg, ond gyda mwy o ymarfer byddent yn dod yn fwy hyderus i siarad Cymraeg gyda’i gilydd. | Fel yr uchod. |
| 14.1.20 | Byddai’r cynnig yn cryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg yn y gymuned ac yn gyfle gwych i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig yn yr ardal a sicrhau bod ein pobl ifanc yn tyfu fyny i fod yn unigolion cwbl ddwyieithog ym Mro Ddyfi. | Fel yr uchod. |
| 14.1.21 | Byddai’r cynnig yn normaleiddio’r iaith Gymraeg ac yn gyfle i hyrwyddo’r iaith ac addysgu pobl nad yw iaith yn rhywbeth i’w hofni. Mae’n sgil ychwanegol fydd yn helpu ac nid yn rhwystr i ddisgyblion ar eu siwrne drwy fywyd. | Noda’r Cyngor y sylwadau hyn a chytunwn y byddai gweithredu’r cynnig yn cyfrannu at normaleiddio’r Gymraeg yn yr ardal ac yn arwain at wneud mwy o ddefnydd o’r Gymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| 14.1.22 | Oherwydd y cyfryngau cymdeithasol, mae'n anochel bod plant a phobl ifanc yn ymwneud â diwylliant Saesneg ac o ganlyniad mae pwysau aruthrol ar y Gymraeg. Drwy newid statws yr ysgol, mae'r Cyngor hefyd yn newid statws yr iaith gan ddatgan bod Cymraeg yn gydradd â'r Saesneg ac yn haeddu statws cyfartal. | Fel yr uchod. |
| 14.1.23 | Dylai'r newid hwn fod yn wych. Bydd yn gymuned wirioneddol ddwyieithog, yn enwedig yma yn y Canolbarth lle gallwn bontio'r dafodiaith Gogledd a De fymryn yn haws. Efallai y gallwn ddechrau denu ychydig o waith gweinyddol allan o Aberystwyth. | Nodwn y sylw. |
| 14.1.24 | Dengys data'r Cyfrifiad fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng ar gyflymdra dychrynllyd. Mae angen i'r Cyngor fod yn uchelgeisiol ac arloesol wrth arwain ar gynlluniau i gryfhau a sicrhau dyfodol i'r Gymraeg ym Mhowys. Byddai newid categori iaith yr ysgol yn gam mawr yn y cyfeiriad iawn. | Noda'r Cyngor y sylwadau hyn a chytunwn y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. |
| 14.1.25 | Byddai hyn yn gwarchod y diwylliant Cymraeg yn y gymuned. | Noda'r Cyngor y sylwadau hyn a chytunwn y byddai gweithredu'r cynnig yn helpu i hyrwyddo'r diwylliant Cymraeg yn yr ardal. |
| 14.1.26 | Rwy'n cytuno bod y cam hwn nid yn unig yn hanfodol i achub y Gymraeg ond hefyd yn fuddiol i'r gymuned gan helpu i hyrwyddo traddodiadau a diwylliant Cymraeg sy'n araf ddiflannu. | Noda'r Cyngor y sylwadau hyn a chytunwn y byddai gweithredu'r cynnig yn helpu i hyrwyddo'r diwylliant Cymraeg yn yr ardal. |

## 14.2 Sylwadau am ddwyieithrwydd

| | | |
|---|---|---|
| 14.2.1 | Mae'n bwysig codi safonau ac mae dwyieithrwydd yn gwneud hyn. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.2 | Dengys ymchwil fod addysg ddwyieithog yn rhoi llawer o fanteision i blant. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.3 | Byddai newid categori iaith yr ysgol yn hwyluso'r broses o sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r ddwy iaith drwy greu dinasyddion dwyieithog a fyddai'n defnyddio eu dwyieithrwydd yn eu gwaith ac i gyfrannu i'r wlad yn fwy cyffredinol. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.4 | Mae plant dwyieithog ac amlieithog yn gwneud yn well mewn arholiadau ac yn dysgu sgiliau datrys problemau'n gynt na phlant sydd ond yn siarad un iaith. Mae dwyieithrwydd hefyd yn arafu datblygiad dementia. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.5 | Mae cael iaith ychwanegol yn fantais enfawr wrth ymgeisio am swyddi yng Nghymru, ac mae bod yn gwbl ddwyieithog yn golygu y bydd plant yn tyfu fyny'n teimlo'n rhan lawn o'u cymuned, yn enwedig mewn ardal Gymreig fel Bro Ddyfi. Mae gallu siarad dwy iaith yn agor gymaint o ddrysau, i fyd hollol newydd. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.6 | Mae siarad dwy iaith neu fwy'n sgil ynddi ei hun ac yn helpu'r broses o ddysgu ieithoedd eraill. Mae sicrhau sgiliau cyfartal yn Gymraeg a Saesneg yn rhywbeth i'w hyrwyddo, fel bod gan ddisgyblion fynediad at gyfleoedd cymdeithasol, addysgol a chyflogaeth / busnes yn lleol a phellach i ffwrdd. Mae siarad mwy nag un iaith yn hyderus yn ffordd o ehangu gorwelion yn effeithiol. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 14.2.7 | Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r ffordd orau a chyflymaf o fod yn wirioneddol ddwyieithog. Bydd y Saesneg yn gofalu amdani ei hun! Mae Bro Ddyfi wastad wedi bod a dylai barhau i fod yn fro Gymraeg a chredaf y dylai'r Cyngor wneud popeth o fewn ei allu i gynorthwyo hynny. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.8 | Mae angen i'r plant i gyd mewn cymdeithas ddwyieithog fod yn ddwyieithog. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.9 | Mae'n hanfodol bod gan bob plentyn gyfle teg i dderbyn addysg ddwyieithog. Mewn ardal sy'n gweld llawer iawn o fewnfudwyr, mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i siarad ar bob lefel er mwyn cynnal yr iaith ac ehangu gorwelion plant yn ddwyieithog. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.10 | Dylid darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru ac mae angen diogelu'r iaith ar bob cyfrif. Mae yna hefyd fantais iechyd wedi'i phrofi'n wyddonol fod bod yn rhugl mewn dwy iaith neu fwy, fel Cymraeg a Saesneg, yn gallu lleihau'r risg o ddatblygu dementia sy'n un peth da er mwyn ysgafnu'r pwysau ar y GIG. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.11 | Mae llawer o bobl yn anymwybodol o fanteision dwyieithrwydd a'r cyfoeth o gyfleoedd a phrofiadau sydd ar gael o fod yn gallu siarad yr iaith leol. Drwy gynnig addysg cyfrwng Cymraeg i bawb, bydd yn bosib newid rhai o'r agweddau hyn. | Nodwn y sylw. |
| 14.2.12 | Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn fantais aruthrol i wella dealltwriaeth plant o'u diwylliant a'u hanes, yn | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | ogystal â hyrwyddo arfer yr iaith drwy gydol eu bywydau, e.e. rhagolygon gwaith gwell, manteision dwyieithrwydd ayyb. | |
| 14.2.13 | Bydd creu disgyblion dwyieithog yn agor drysau iddynt ar draws gwahanol sgiliau, yn gymdeithasol ac o ran gwaith / busnes. Wrth i flaenoriaeth Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ddatblygu, bydd y cynllun hwn yn sicrhau y bydd gan ddisgyblion YBH fynediad at y cyfleoedd fydd yn deillio o hynny, yn lleol a thu allan i'r ardal. | Nodwn y sylw. |

### 14.3 Cyfeirio at 'Cymraeg 2050'

| | | |
|---|---|---|
| 14.3.1 | Bydd y cynnig yn cyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Nodwn y sylw. Mae'r Cyngor yn cytuno y byddai'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |
| 14.3.2 | Bydd hyn yn sicrhau bod plant yn hyderus yn y ddwy iaith, gan helpu i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 14.3.3 | Nod polisi Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Nid oes un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys ar hyn o bryd (yr unig sir yng Nghymru), felly mae'n hen bryd i ni gael un. | Fel yr uchod. |
| 14.3.4 | Bydd y cynnig yn cefnogi'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau ei dyfodol fel iaith gymunedol ac fel rhan o darged Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Fel yr uchod. |
| 14.3.5 | Bydd yn helpu i warchod a datblygu'r iaith Gymraeg ym Mro Ddyfi, ac ym Mhowys yn gyffredinol, drwy gynyddu nifer y | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | siaradwyr Cymraeg a chyfrannu at nod y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | |
| 14.3.6 | Bydd y cynnig yn cefnogi'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau ei dyfodol fel iaith gymunedol ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Fel yr uchod. |
| 14.3.7 | Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r unig ffordd o gyrraedd y nod hwn yw cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol. Mae angen normaleiddio dwyieithrwydd a'r ffordd i wneud hynny yw o'r crud, a dyna'n union sy'n cael ei argymell yma. | Fel yr uchod. |
| 14.3.8 | Mae'n rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 14.3.9 | Ni fydd yn hawdd cyrraedd targed 'Cymraeg 2050' heb fod continwwm iaith Gymraeg ar gael i ddisgyblion o'r crud i'r brifysgol. Mae'n hanfodol bod newidiadau strwythurol a systematig fel hyn yn digwydd fel mater o frys. Rhaid cymryd camau a rhoi newidiadau ymarferol yn eu lle i gyrraedd y targedau hyn. Polisi'r Cyngor ei hun yw hwn (yn ei strategaeth WESP ddiweddaraf). | Fel yr uchod. |

### 14.4 Rhywbeth arall

| | | |
|---|---|---|
| 14.4.1 | O ran hyrwyddo mwy ar y Gymraeg i'w chryfhau fel y byddai'n cael ei siarad yn ehangach, un o'r prif rwystrau yw diffyg addysgu'r Gymraeg wyneb yn wyneb y tu allan i Gymru ei hun, yn wahanol i'r Saesneg ac ieithoedd Ewropeaidd | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | eraill.0} Nid oes dim rheswm pam na ddylai'r Gymraeg fod ar gael fel iaith addysgu yng ngweddill y DU, efallai gan ddechrau gyda'r siroedd cyfagos yn Lloegr a choridorau teithio uniongyrchol eraill fel Gorllewin Canolbarth Lloegr, Glannau Mersi ac Avon. Mae llawer o feibion a merched o Gymru sy'n siarad Cymraeg eisoes yn addysgu mewn ysgolion yn yr ardaloedd hyn a gellid dibynnu arnynt i wirfoddoli i addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion a dosbarthiadau nos dros y ffin. | |

## 15. CYFEIRIO AT FODELAU DARPARU ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

### 15.1 Addysg cyfrwng Cymraeg

#### 15.1.1 Cefnogaeth i addysg cyfrwng Cymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 15.1.1.1 | Mae ysgol cyfrwng Cymraeg yn amgylchedd gwell i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Yn aml iawn, mae cael ffrwd Saesneg yn atal datblygiad naturiol y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. | Nodwn y sylw. |
| 15.1.1.2 | Byddai'r adnoddau ar gael, a'r profiad, yn fwy cyfoethog pe bai'r ysgol yn gyfrwng Cymraeg yn hytrach na'n ddwy ffrwd. | Nodwn y sylw. |
| 15.1.1.3 | Byddai creu ysgol cyfrwng Cymraeg neilltuol hefyd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y Gymraeg ym Mro Ddyfi ac yn y cymunedau lleol a gallai'r ysgol ganolbwyntio mwy fyth ar weithgareddau diwylliannol ac yn Gymraeg. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.1.1.4 | Mae ysgolion Cymraeg yn creu dinasyddion dwyieithog sy’n gallu defnyddio’r ddwy iaith yn gyfartal. Yr unig ffordd o wneud hyn yw drwy godi statws yr iaith leiafrifol fel eu bod yn gyfartal. Ysgolion Cymraeg swyddogol yw’r unig lefydd sy’n gwneud hyn. Nid yw’r model presennol yn darparu cydraddoldeb iaith. Bydd y Saesneg wastad yn cael ei defnyddio mwy. | Nodwn y sylw. |
| 15.1.1.5 | Mae gan Bowys gynllun strategol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai ysgol Gymraeg ddynodedig ym Mro Hyddgen yn helpu i gwrdd ag ymrwymiadau strategol y Cyngor o gefnogi datblygiad y Gymraeg ar draws Powys ac yn cwrdd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod mwy o bobl ar draws Cymru’n gallu siarad Cymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 15.1.1.6 | Dyma’r amser iawn i gyflwyno newid fel hwn oherwydd bydd adeilad newydd ar un safle. Bydd hefyd yn cwrdd ag ymrwymiad a pholisi iaith Gymraeg Cyngor Sir Powys i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Ers tro bellach, mae llawer o awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru (hyd yn oed cymunedau lle nad yw’r Gymraeg yn iaith fwyafrifol) wedi agor ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. | Nodwn y sylw. |
| 15.1.1.7 | Bydd newid statws yr iaith yn golygu na fyddai rhaniadau ar sail iaith yn yr ysgol. | Nodwn y sylw. |
| 15.1.1.8 | Rhaid sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg cyn gynted â phosib. | Nodwn y sylw. |
| 15.1.1.9 | Bydd y newid statws yn sicrhau y gall yr ysgol gynllunio ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy i addysg cyfrwng Cymraeg, a bydd mewn sefyllfa well i reoli staff ac adnoddau a rhoi ffocws ar ddatblygu’r Gymraeg ar draws y cymunedau sy’n | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | gweld tref Machynlleth fel canolbwynt i gymdeithas ehangach yn y Canolbarth. | |
| 15.1.1.10 | Mae ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn agor y drws i ddisgyblion fynychu prifysgolion drwy'r byd, beth bynnag yw'r iaith. Hefyd, ar draws pob ystod oed, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn agor y drws i ddisgyblion, gan gynnwys rhai ag ADY, lle mae'r sgil o fod yn gallu siarad Cymraeg yn fuddiol. Felly, nid y disgyblion mwyaf abl yn unig sy'n gallu cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg. | Nodwn y sylw. |

### 15.1.2 Beirniadaeth o addysg cyfrwng Cymraeg

| | | |
|---|---|---|
| 15.1.2.1 | Nid wyf wedi fy mherswadio o fanteision ysgol uniaith Gymraeg – a ellir sicrhau'r un canlyniadau gydag uchelgais iaith Gymraeg cryfach ac wedi'i ddiffinio'n gliriach? | Fel y nodwn yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn, mae'r trefniant dwy ffrwd presennol yn Ysgol Bro Hyddgen yn creu nifer o heriau i'r ysgol.<br><br>Ym marn y Cyngor, byddai newid categori iaith yr ysgol yn raddol er mwyn gallu rhedeg yr ysgol fel ysgol un ffrwd yn sicrhau y gallai ddarparu'r cyfleoedd gorau posib i ddysgwyr yn y dyfodol. |

## 15.2 Addysg dwy ffrwd

### 15.2.1 Cefnogaeth i addysg dwy ffrwd

| | | |
|---|---|---|
| 15.2.1.1 | Mae addysg dwy ffrwd yn annog dysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r ysgol. | Nid yw hyn yn wir. Mewn ysgol dwy ffrwd, mae rhai dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i ddod yn gwbl ddwyieithog ac mae dysgwyr eraill yn astudio yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | Saesneg yn unig. Mae'r dysgwyr yn y ffrwd Gymraeg yn astudio Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd cyntaf a disgwylir iddynt fod yn gwbl ddwyieithog; mae dysgwyr yn y ffrwd Saesneg yn astudio Saesneg fel iaith gyntaf a Chymraeg fel ail iaith, ac nid yw hyn wedi'i gynllunio iddynt ddod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. |
| 15.2.1.2 | Mae cael dwy ffrwd yn osgoi dangos unrhyw ffafriaeth tuag at y naill iaith neu'r llall ac yn cynnig addysg fwy cynhwysol sy'n rhoi cyfle i bob disgybl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu hastudiaethau. | Fel yr uchod. |
| 15.2.1.3 | Er bod cyfarwyddyd dosbarth dwy ffrwd yn cael ei feirniadu gan yr adroddiad a chan Estyn, y realiti yw bod y drefn hon yn yr uwchradd, naill ai gyda grwpiau blwyddyn wedi eu hollti'n rhannol neu 'ddyblu fyny' yn y cynradd, yn gyfaddawd hanfodol mewn ardaloedd gwledig os yw addysg gymharol leol i barhau'n eang. Ni allwn ddisgwyl i'r amodau sy'n bodoli mewn ardaloedd trefol mawr fod yn bosib mewn ardaloedd gwledig llai. Fodd bynnag, mae gan ganolfannau trefol mawr yn aml eu problemau penodol eu hunain a rhaid cofio bod arolwg lles diweddar wedi barnu mai pobl Powys yw'r hapusaf yn y DU! | Rydym yn cydnabod bod Ysgol Bro Hyddgen yn ysgol pob oed fach a gwledig gyda dwy ffrwd o gohortau amrywiol o ran maint a chydbwysedd iaith. Byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn datrys y materion hyn dros amser a byddai'r model addysg yn fwy effeithlon. Fel y nodwn yn y ddogfen ymgynghori, un o'r rhesymau am y cynnig yw er mwyn gwella canlyniadau addysgol:<br><br>o Ni fyddai plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ieithoedd cymysg yn yr uwchradd mwyach<br>o Ni fyddai plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oed cymysg yn y cynradd mwyach<br>o Bydd mwy o ddisgyblion yn rhugl ac yn hyderus mewn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal |
| 15.2.1.4 | Mae'r drefn ddwy ffrwd bresennol yn gwasanaethu'r HOLL blant yn ein cymuned: | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | - Os dymunwch i'ch plentyn dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, maen nhw'n gallu astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg<br>- Os dymunwch i'ch plentyn dderbyn addysg cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd, maen nhw'n gallu astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Saesneg.<br>- Os dymunwch i'ch plentyn barhau i astudio rhai pynciau yn Gymraeg ar hyn o bryd, ond gyda mynediad at rai pynciau yn Saesneg, mae YBH yn cynnig hyn hefyd. | |
| 15.2.1.5 | Mae rhieni'n bendant o blaid yr addysg ddwy ffrwd yn YBH. Mae'n rhoi hyblygrwydd i'r rhieni a'r disgyblion ac yn rhoi cyfle i BOB plentyn gael llwyddo. Yn wir, mae'n gadael i ddisgyblion barhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn hirach – mae'r newid mwyaf o Gymraeg i Saesneg yn digwydd yn CA4 pan fydd TGAU yn dechrau. | Fel yr uchod. |
| 15.2.1.6 | Yn y gorffennol, roedd cryfder ac ansawdd y ffrwd Gymraeg ym Mro Ddyfi'n tueddu i berswadio teuluoedd di-Gymraeg i anfon eu plant i'r ffrydiau Cymraeg – sy'n ymddangos i fod yn gwneud mwy i greu cymuned gydlynus na system o wahanu. | Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cryfder ac ansawdd y ffrwd Gymraeg ar gael i bob disgybl – mae'r model dwy ffrwd yn parhau'r dull gwahanu. |

### 15.2.2 Beirniadaeth o addysg ddwy ffrwd

| | | |
|---|---|---|
| 15.2.2.1 | Rwyf wedi bod yn hyrwyddo newid i gyfrwng Cymraeg ers i'r cyntaf o fy mhum plentyn ddechrau eu haddysg ym Mhowys tua 30 mlynedd yn ôl. Mae'r sefyllfa ddwy ffrwd bresennol wastad wedi cyfyngu ar y potensial i ddysgu'n effeithiol ym Mro Ddyfi. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.2.2.2 | Dros amser, mae adnoddau wedi cael eu neilltuo'n ddiangen i gynnal addysg dwy ffrwd – adnoddau prin y gellid bod wedi eu defnyddio i ddarparu addysg well ac efallai ehangach i fy mhlant i, a phlant pobl eraill. | Nodwn y sylw. |
| 15.2.2.3 | Gallaf weld nad yw'r ffrwd Saesneg yn gynaliadwy. Mae'r nifer sy'n ymuno pob blwyddyn fach ac addysgir nifer o flynyddoedd gyda'i gilydd. Mae wedi creu sefyllfa lle bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd am faint y dosbarthiadau i aros o fewn cyllideb. Er enghraifft, er mwyn osgoi cyfuno gormod o grwpiau blwyddyn yn y ffrwd Saesneg, bu'n rhaid creu dosbarth cyfrwng Cymraeg oedd yn rhy fawr. | Nodwn y sylw. |
| 15.2.2.4 | Gallaf ddeall y trafferthion a'r heriau ychwanegol y mae ysgolion dwy ffrwd yn ei wynebu'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys y goblygiadau ariannol o gynnal dwy ffrwd. Hefyd, mae'n creu llai o hyblygrwydd wrth reoli maint y dosbarthiadau a neilltuo staff ac adnoddau. | Nodwn y sylw. |
| 15.2.2.5 | Nid yw ysgolion dwy ffrwd cystal am ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg plant, sy'n llai tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol (wele Cunnington Wynn 2019). | Nodwn y sylw. |
| 15.2.2.6 | Nid yw ysgolion dwy ffrwd yn gweithio. Maen nhw'n ddrud i'w cynnal ac nid yw'r plant yn cael eu trochi'n iawn yn y Gymraeg. Mae'r diffyg pynciau ar gael yn Gymraeg wrth i'r plant fynd yn hŷn yn warthus. Mae bron yn embaras eu galw'n 'ffrydiau Cymraeg' oherwydd dim ond canran fach iawn o bynciau sydd ar gael yn Gymraeg mewn ysgolion | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | eraill. | |
| 15.2.2.7 | Fel teulu, os na fydd y sefyllfa’n gwella, bwriadwn anfon ein plant i’r ysgol yng Ngheredigion. Nid yw ysgolion dwy ffrwd cystal am ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg plant, sy'n llai tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i’r gymuned leol (wele Cunnington Wynn 2019). | Nodwn y sylw. |
| 15.2.2.8 | Mae plant yn y ffrwd Saesneg yn aml yn gadael yr ysgol heb fod yn rhugl yn Gymraeg. Mae hyn yn creu anfantais wrth iddynt symud i addysg uwch: mae cymhellion ariannol sylweddol i ddysgwyr sy’n astudio yn Gymraeg (ewch i www.colegcymraeg.ac.uk am fanylion o ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg, ac i wefannau prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod Dewi Sant am fanylion am ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael). | Nodwn y sylw. |

## 16. CYFEIRIO AT WAHANIAETHU / ANGHYDRADDOLDEB

| | | |
|---|---|---|
| 16.1 | Byddai’r newid cyfarwyddyd a gynigiwch yn gwahaniaethu yn erbyn rhai nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg gan roi opsiynau prin iawn o ysgolion uwchradd i ddarpar ddisgyblion. | Nid yw’r Cyngor yn cytuno y byddai’n gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg. Pe bai’r Cyngor yn symud ymlaen gyda’r cynnig, y bwriad yw cyflwyno’r newid yn raddol o flwyddyn Derbyn i fyny, er mwyn lleihau’r effaith ar ddisgyblion sy’n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai disgyblion o gartrefi lle na siaredir dim Cymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai’r Cyngor yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 16.2 | Mae newid yr iaith i Gymraeg 100% yn wahaniaethu. Ein plant fydd yn dioddef ac yn cael gwybod nad oes croeso iddynt yn yr ysgol hon. | Fel yr uchod. |
| 16.3 | Gellid dadlau y byddai newid i gyfrwng Cymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn teuluoedd ac unigolion uniaith Saesneg. Nid oes ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal. | Fel yr uchod. |
| 16.4 | Mae Saesneg yn un o ieithoedd swyddogol Cymru felly ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Saesneg. | Fel yr uchod. |
| 16.5 | Bydd gwneud i ffwrdd â'r ffrwd Saesneg yn atal plant rhag mwynhau'r hawl, a gadarnheir gan y Cenhedloedd Unedig, i addysg yn eu hiaith gyntaf. Mae'n teimlo fel rhagfarn hiliol am beidio â bod yn Gymraeg, neu'n ddigon Cymraeg! | Fel yr uchod. |
| 16.6 | Ni fyddai cydraddoldeb pe gwneir i ffwrdd â'r Saesneg. | Nodir y sylw hwn, fodd bynnag mae'r Cyngor yn credu nad yw'r sefyllfa bresennol yn rhoi cydraddoldeb oherwydd nid yw'r holl blant sy'n derbyn addysg ym Machynlleth yn cael cyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg yn ystod eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Byddai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol yn sicrhau bod gan holl ddisgyblion Machynlleth gyfle i ddod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 16.7 | Yn union fel y mae'n bwysig cynnig addysg yn Gymraeg, mae'r un mor bwysig cynnig addysg yn Saesneg. Mae'r rhai sy'n dymuno derbyn eu haddysg yn Gymraeg eisoes yn gallu gwneud hyn, ond drwy symud i Gymraeg yn unig, bydd llai o gyfle a chydraddoldeb nid mwy. | Fel yr uchod. |
| 16.8 | Mae angen hawliau cyfartal nid cymdeithas o bobl uniaith. | Nod y cynnig yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, felly ni fyddai gweithredu'r cynnig yn creu cymdeithas o bobl uniaith.<br><br>Mae'r drefn ddwy ffrwd bresennol yn golygu bod plant cyfrwng Cymraeg yn dod yn gwbl ddwyieithog, ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg sy'n datblygu sgiliau dwyieithog llawn. |
| 16.9 | Bydd gwneud i ffwrdd â'r ffrwd Saesneg yn golled enfawr i'r gymuned a'r plant sy'n mynd drwy'r system; yn 2020 gweithiwn o blaid cyfle cyfartal, mae YBH yn gwneud fel arall. | Nod y cynnig yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Ysgol Bro Hyddgen gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r drefn ddwy ffrwd bresennol yn golygu bod plant cyfrwng Cymraeg yn dod yn gwbl ddwyieithog, ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg sy'n datblygu sgiliau dwyieithog llawn. |

| | | |
|---|---|---|
| 16.10 | Mae'n drewi o lanhau cymdeithasol. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r datganiad hwn. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, byddai croeso i ddisgyblion o bob cefndir ieithyddol yn Ysgol Bro Hyddgen. |
| 16.11 | Byddai'r Cyngor yn cael ei lambastio, fel y dylai, o geisio creu ysgol cyfrwng Saesneg yn YBH – pam nad yw'n cydnabod y rhagrith pur a'r rhagfarn gwrth-Seisnig y tu ôl i'r cynnig? | Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod rhagrith pur a rhagfarn gwrth-Seisnig y tu ôl i'r cynnig. Y duedd yn ardal Machynlleth dros y blynyddoedd diwethaf yw gweld cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys rhai o gefndiroedd di-Gymraeg. Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu hynny.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, y bwriad yw cyflwyno'r newid yn raddol o flwyddyn Derbyn i fyny, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai disgyblion o gartrefi lle na siaredir dim Cymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg wrth ddechrau'r ysgol ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. |
| 16.12 | Mae'r cynnig yn hollol annheg. Drwy gyflwyno'r polisi hwn rydych mewn gwirionedd yn creu elfen ddethol i'r disgyblion, a byddai rhai a symudir i ysgolion eraill yn cael eu hystyried yn fethiant gan eu cyfoedion. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod y cynnig yn hollol annheg nac y byddai'n creu elfen ddethol.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, y bwriad yw cyflwyno'r newid yn raddol o flwyddyn Derbyn i fyny, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai disgyblion o gartrefi lle na siaredir dim Cymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg wrth ddechrau'r ysgol ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nod y Cyngor yw y gallai'r disgyblion barhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol, ond yn y pen draw mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i ymgeisio am le mewn unrhyw ysgol o'u dewis. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno, a'u dewis nhw a fyddai hynny. |
| 16.13 | Credaf y bydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion ag anawsterau dysgu ac na fyddai'n rhoi cyfle cyfartal iddynt. Ni fyddai ganddynt fynediad cyfartal at addysg. Yn bwysicach na dim, credaf ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc a fyddai'n dewis dysgu yn Saesneg ac a fyddai'n colli'r rhyddid hanfodol hwn i ddewis. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod y cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn gwahaniaethu yn erbyn plant ag anawsterau dysgu.<br><br>Mae plant ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru'n derbyn cymorth rhagorol fel bo angen. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, byddem yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi i unrhyw ddisgyblion ag ADY, ac yn gweithio ag awdurdodau cyfagos i ddatblygu'r arferion gorau a chynnig cymorth ychwanegol pe bai angen.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, y bwriad yw cyflwyno'r newid yn raddol o flwyddyn Derbyn i fyny, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai disgyblion o gartrefi lle na siaredir dim Cymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |

## 17. EFFAITH AR GRWPIAU GYDA NODWEDDION A WARCHODIR

### 17.1 Poeni am yr effaith ar ddisgyblion ag ADY

| | | |
|---|---|---|
| 17.1.1 | Gallai plant ag ADY gael trafferthion os nad Cymraeg yw eu hiaith gyntaf. Sut y bydd Powys yn dod dros hyn? | Ar draws Cymru mae plant ag AAA / ADY yn cael eu haddysgu'n llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, p'un ai'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, cartrefi di-Gymraeg neu gartrefi lle siaredir ieithoedd eraill. Gall Ysgol Bro Hyddgen, ynghyd ag ysgolion eraill, elwa o ddysgu arferion gorau.<br><br>Mae strategaeth AAA / ADY Powys, a gytunwyd gan y Cabinet yn Nhachwedd 2021, wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth i bob disgybl AAA / ADY, beth bynnag yw eu hiaith gyntaf. Mae hyn yn cynnwys disgyblion y gellir eu haddysgu mewn gwersi prif ffrwd, yn ogystal â rhai sydd angen addysg arbenigol arnynt.<br><br>Fel rhan o'r strategaeth, mae'r awdurdod lleol yn datblygu a gwella ei ystod o ddarpariaeth arbenigol, gan gynnwys drwy ganolfannau arbenigol ac unedau lloeren i ysgolion arbennig, i sicrhau y gellir cwrdd ag anghenion pob disgybl ym Mhowys yn effeithiol. Mae dyluniad yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen yn cynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfleusterau llawer gwell i alluogi plant ag AAA / ADY i dderbyn cymorth o ansawdd uchel.<br><br>Ni fydd yr ysgol yn newid o gyfrwng Cymraeg i gyfrwng Saesneg dros nos. Bydd cyfnod pontio i'r disgyblion sydd yn yr ysgol yn barod. Dros y cyfnod pontio, bydd disgyblion AAA / ADY yn y ffrwd Saesneg yn YBH ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn eu haddysg yn Saesneg, fel yr amlinellir yn y cynnig. Bydd plant sy'n mynychu'r ganolfan arbenigol yn Ysgol Bro Hyddgen yn parhau i fynd i'r ganolfan, beth bynnag yw eu hiaith gyntaf – Saesneg, Cymraeg neu iaith arall.<br><br>Os gweithredir y cynnig, bydd disgyblion ag AAA / ADY yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhan allweddol o'r strategaeth yw bod gan ddisgyblion ag AAA / ADY hawl i gael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion.<br><br>O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, bydd gan ddisgyblion ag ADY gynlluniau datblygu unigol (IDP) yn nodi pa anghenion sydd ganddynt a'r cymorth a roddir iddynt. Gallai hyn gynnwys cymorth gan staff yr ysgol yn ogystal â chymorth arbenigol gan yr awdurdod lleol. Lle bo hynny'n briodol, gallai ymyriadau ddigwydd drwy gyfrwng y Saesneg. Bydd hyn yn dibynnu ar anghenion y disgybl unigol. Felly hefyd, os bydd disgybl yn cyrraedd yr ysgol heb ddim Saesneg, gallai'r cymorth fod ar gael yn eu hiaith eu hunain. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.1.2 | Sut y byddwch yn gallu ymateb i rieni sy'n poeni am eu plant sy'n Saesneg iaith gyntaf ac sydd ag anghenion addysgol arbennig? | Darllenwch y sylw uchod os gwelwch yn dda. |
| 17.1.3 | Mae nifer o ddisgyblion ag ADY yn ei chael yn anodd dysgu hyd yn oed yn eu hiaith gyntaf, ac rwy'n poeni am ba gymorth fydd ar gael i ddisgyblion gyda phroblemau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad, sydd eisoes gyda rhwystrau addysgol, heb orfod cael eu haddysgu mewn iaith wahanol i'w mamiaith. | Fel rhan o'r adeilad newydd i YBH, bydd cyfleusterau gwell i blant ag ystod o anghenion, gan gynnwys problemau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad.<br><br>Mae'r awdurdod lleol wrthi'n gweithio gyda nifer o ysgolion uwchradd ar ddatblygu canolfannau lles fel y gellir cynorthwyo disgyblion sy'n gorboeni mewn unrhyw ffordd. Y bwriad yw bod gan bob ysgol wasanaeth lles effeithiol.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant i ysgolion ar strategaethau a rhaglenni i ateb anghenion plant gyda phroblemau emosiynol, ymddygiad a chymdeithasol. Hefyd, mae gan yr uned cyfeirio disgyblion a'r ysgolion arbennig wasanaethau allgymorth sy'n rhoi cyngor, arweiniad a hyfforddiant i ysgolion prif ffrwd. |
| 17.1.4 | Ni fydd gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol o gefndir Saesneg y cymorth y dylent ei gael. | Darllenwch y sylw uchod os gwelwch yn dda. |
| 17.1.5 | Bydd plant ag anawsterau dysgu'n dioddef, naill ai o orfod teithio i rywle arall a chael eu gwahanu oddi wrth eu cymuned, neu o dderbyn eu haddysg mewn iaith nad yw'r iaith y maen nhw'n ei siarad. | Un o nodweddion allweddol y Strategaeth ADY yw bod disgyblion yn derbyn addysg o ansawdd uchel sy'n ateb eu hanghenion mor agos â phosib i'w cymuned leol. Rydym yn llwyr gydnabod pwysigrwydd bod plant yn gallu mynd i'r ysgol gyda'u brodyr / chwiorydd a ffrindiau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Efallai y bydd angen cyfleusterau mwy arbenigol ar nifer fach iawn o ddisgyblion ag anghenion dwys iawn, er enghraifft mewn ysgol arbennig. Er mwyn lleihau'r amser y bydd nifer fach o blant yn ei dreulio'n teithio i ysgolion arbennig, mae'r awdurdod lleol yn sefydlu unedau lloeren i'r ysgolion arbenigol mewn rhannau o Bowys lle nad oes ysgol arbennig. |
| 17.1.6 | Bydd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o gartrefi Saesneg eu hiaith yn cael eu gorfodi i deithio'n bell i dderbyn addysg yn Saesneg. | Ar draws Cymru mae disgyblion ag AAA / ADY o gartrefi di-Gymraeg sy'n cael eu haddysgu'n llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r iaith yn rhwystr iddynt gyflawni eu potensial. Yn wir, mae gallu siarad dwy iaith neu fwy'n gwella prosesau meddwl disgyblion.<br><br>Mae ysgolion yn sensitif iawn i anghenion disgyblion ag AAA / ADY. Os oes angen peth cymorth yn Saesneg, byddai'n cael ei roi.<br><br>Yn y ganolfan arbenigol, sy'n rhoi gwasanaeth i'r disgyblion gyda'r anghenion mwyaf dwys, bydd addysgu a chymorth yn parhau i gael ei ddarparu yn Saesneg a Chymraeg yn ôl anghenion pob plentyn unigol. |
| 17.1.7 | Credaf y bydd hyn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ag ADY oherwydd diffyg cymorth ac adnoddau ac yn creu rhwystr arall i'w dysgu. | Ni fydd diffyg cymorth nac adnoddau. Wele'r sylwadau blaenorol ar gymorth a hyfforddiant.<br><br>Mae'r awdurdod lleol wedi prynu adnoddau cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag AAA / ADY a bydd yn parhau i weithio ag ysgolion i sicrhau bod ganddynt adnoddau priodol. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.1.8 | Mae gan ddysgwyr AAA ddigon o broblemau heb ychwanegu cyfyngiadau iaith atynt. | Nid yw iaith yn gyfyngiad. Yn wir mae'n gwella dysgu plentyn.<br><br>Nodwedd bwysig o addysg yng Nghymru o dan y Ddeddf ADY yw cynllunio person-ganolog. Os nad yw disgybl yn gwneud cynnydd priodol, bydd cymorth yn cael ei roi. Mewn rhai achosion, gallai fod drwy gyfrwng y Saesneg. |
| 17.1.9 | Rwy'n poeni am blant lle nad y Gymraeg yw eu hiaith gyntaf ac sy'n cael trafferth dysgu ac a fyddai'n cael problemau mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau uchod os gwelwch yn dda.<br><br>Dylid cofio mai nod ysgol cyfrwng Cymraeg yw sicrhau bod disgyblion yn gadael yr ysgol gyda sgiliau lefel uchel yn Gymraeg a Saesneg. |
| 17.1.10 | I rai plant, gall fod yn ddigon anodd deall eu hiaith gyntaf, heb sôn am y pwysau ychwanegol o fod mewn amgylchedd newydd sy'n disgwyl iddynt ddysgu mewn iaith a allai fod yn hollol wahanol i'r un y maen nhw wedi arfer â hi. Sut fydd hyn yn eu galluogi a'u grymuso i gyrraedd eu llawn botensial? | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau uchod os gwelwch yn dda. |
| 17.1.11 | Gwn fod rhieni'n poeni'n ofnadwy am addysgu plant ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Credaf fod angen tawelu eu hofnau drwy sicrhau bod hyn yn bosib a bod cymorth priodol ar gael. Peidiwch ag anwybyddu eu pryderon – maen nhw'n rhai dilys. | Mae'r Cyngor yn llwyr gydnabod y pryderon hyn. Bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda rhieni dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf i drafod eu pryderon a'u sicrhau y bydd eu plant yn derbyn cymorth i gyrraedd eu potensial. Mae tystiolaeth ar draws Cymru fod disgyblion ag AAA / ADY o gartrefi di-Gymraeg yn gallu cyflawni canlyniadau da iawn mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg. |
| 17.1.12 | Fodd bynnag rwy'n poeni sut y bydd hyn yn effeithio ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn gallu dysgu yn | Mae athrawon a staff cymorth yn hynod sensitif i anghenion plant ag AAA / ADY a byddent yn gwneud yn |

| | | |
|---|---|---|
| | Gymraeg. Gobeithio yn yr amgylchiadau hyn y byddai'r rheolau'n cael eu llacio i sicrhau nad oes gwahaniaethu yn eu herbyn. | siŵr eu bod yn deall pob cysyniad yn eu haddysg. Ar adegau, efallai y byddai angen esboniad yn Saesneg. Ni fydd unrhyw wahaniaethu. |
| 17.1.13 | Mae canran uchel o ddisgyblion ar y gofrestr ADY yn mynychu'r ffrwd Saesneg. Bydd datblygiad y disgyblion hyn yn cael ei effeithio'n ddifrifol os na fydd eu haddysg yn eu mamiaith. | Bwriadwn weithredu'r cynnig yn raddol felly os yw disgyblion eisoes yn y ffrwd Saesneg, byddent yn aros yn y ffrwd honno. |
| 17.1.14 | Mae angen edrych o ddifrif ar ddarpariaeth AAA Powys. Dyma'r cohort y bydd y newid mewn statws yn effeithio fwyaf arnynt. Gobeithio y bydd hyn yn ganran isel. | Mae'r awdurdod lleol wedi cynhyrchu strategaeth ADY fanwl ac wedi ymgynghori arni, ac sydd ar gael ar wefan Powys. Mae'r strategaeth hon yn un helaeth ac yn cael ei gweithredu'n ddi-oed. Byddwn yn parhau i werthuso effaith ein strategaeth AAA / ADY newydd. |
| 17.1.15 | Yn aml iawn, er mwyn dysgu'r cwricwlwm, mae angen cyfryngau ac adnoddau TG ychwanegol ar ddisgyblion ADY ac nid ydyn nhw bob amser ar gael yn Gymraeg, e.e. PECS a modelau cyfathrebu amgen sydd ddim ar gael yn Gymraeg fel arfer. | Rydyn ni'n derbyn hyn. Byddwn yn gweithio â'r tîm cynhwysiant ym Mhowys ac mewn awdurdodau cyfagos eraill i gaffael yr adnoddau hyn a'r cymorth sydd ei angen. Bydd yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen yn elwa o fuddsoddiad trwm mewn technoleg. |
| 17.1.16 | Bydd effaith ddifrifol ar allu disgyblion ADY i dderbyn addysg gwbl gynhwysol a chefnogol os nad ydynt yn gyffyrddus i gyfathrebu neu'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg. | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau uchod os gwelwch yn dda. |
| 17.1.17 | Rhaid i ni ystyried a blaenoriaethu plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd, rwy'n siŵr y bydd rhai sy'n gweithio yn yr Adran ADY ym Mhowys wedi lleisio pryderon am y cynnig hwn, hynny yw y bydd cyfyngu'r dewis o iaith i blentyn ag ADY yn ychwanegu rhwystr arall i'w dysgu heb os. Pwysaf arnoch i feddwl am y plentyn unigol. | Mae'r ffocws ar y plentyn unigol yn hollbwysig. Ni fydd y cynnig hwn yn newid hynny.<br><br>Mae ymarfer effeithiol mewn awdurdodau lleol eraill drwy Gymru'n dangos y gall disgyblion o gartrefi di-Gymraeg gyflawni'n dda iawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.1.18 | Mae'n teimlo'n annheg y byddai'n rhaid i rai yn y gymuned chwilio am ysgol arall bellach i ffwrdd i gwrdd ag anghenion eu plant, yn enwedig rhai ag anawsterau dysgu. Mae llawer o deuluoedd yn dewis y ffrwd Saesneg i'r plant hyn i leihau'r pwysau oddi wrth iaith ychwanegol sy'n eithriadol anodd i lawer. Byddai'n bechod i Fachynlleth golli rhan fawr o'i chymuned pe bai hyn yn cael ei weithredu. | Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion AAA / ADY o gartrefi di-Gymraeg yn dysgu'n llwyddiannus iawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mewn ychydig iawn o achosion, gallai fod angen ysgol arbennig ar y disgyblion. Dyma'r unig adeg y byddem yn disgwyl i blentyn orfod teithio'n bellach. |
| 17.1.19 | Mae llawer o ddisgyblion ADY yn cael trafferthion sylweddol iawn mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a gyda chyfathrebu, ac efallai hefyd gydag anawsterau ymddygiad. Bydd y pethau hyn i gyd yn anoddach i'w goresgyn os bydd angen iddynt dderbyn eu haddysg mewn amgylchedd nad ydynt yn teimlo'n 100% eu bod yn gallu cyfathrebu a chael eu coleddu ynddo. | Rydyn ni'n derbyn hyn. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd cymorth gan yr ysgol a'r tîm Athrawon Bro (sy'n darparu'r addysg drochi) yn cael ei roi i gryfhau sgiliau dysgu Cymraeg dysgwyr ag AAA / ADY. |
| 17.1.20 | Byddai'n mynd â hawl y plentyn i ddysgu yn iaith y cartref oddi arnynt ac yn creu rhwystrau dysgu i rai, yn enwedig rhai ag ADY. Ar ôl siarad â therapyddion synhwyraidd, ffisiotherapyddion a therapyddion iaith a lleferydd yn helaeth am y newid sydd mewn golwg, gwn y bydd yr effaith ar rai disgyblion yn hynod negyddol gan greu mwy o anghydraddoldeb dysgu. | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau blaenorol os gwelwch yn dda.<br><br>Bydd therapyddion iaith a lleferydd yn aml yn cynghori y dylid cyflwyno rhaglenni arbenigol ym mamiaith y plentyn. Byddem bob tro'n gofyn am gyngor arbenigol gan y therapydd. |
| 17.1.21 | Os oes gan blentyn anghenion addysgol arbennig sy'n gofyn iddynt ddysgu'n gyfangwbl yn Saesneg, a fyddai hyn ar gael drwy'r ddarpariaeth AAA? Dim ond meddwl ydw i am gynllun manwl i'r ychydig a allai ddioddef. | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau blaenorol os gwelwch yn dda.<br><br>Bydd cydlynydd anghenion ychwanegol yr ysgol, a swyddogion yr awdurdod lleol, gan gynnwys athrawon arbenigol a seicolegwyr addysgol, yn asesu anghenion y disgybl a rhoi cyngor. Bydd y cynllun person-ganolog yn sicrhau bod yr addysg yn ateb anghenion y disgybl. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.1. 22 | Er bod rhesymau cryf dros annog addysg ddwyieithog, nid yw hynny'n addas i bob plentyn, yn enwedig rhai ag anghenion addysgol ychwanegol a fydd, yn enwedig rhai, yn cael trafferth ffynnu yn yr amgylchedd hwn. O ystyried bod yr ysgol yn gwasanaethu dalgylch eang, dylai geisio sefydlu system gynhwysol sy'n addas i bob dysgwr. | Y bwriad yw bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda sgiliau effeithiol yn Saesneg ac yn Gymraeg. |
| 17.1. 23 | Rwy'n poeni am blant nad ydynt yn gallu dysgu Cymraeg oherwydd trafferthion iaith a lleferydd, dyslecsia ac anghenion AAA eraill. Nid oes gen i ffydd yn yr ysgol i roi digon o gymorth iddynt. Mae rhai plant yn cael trafferth ag un iaith heb sôn am ddwy. | Mae'r ysgol a'r Cyngor yn gallu rhoi cymorth i blant gyda dyslecsia drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Mae'n bosib y bydd disgyblion ag anawsterau sylweddol yn mynd i'r ganolfan arbenigol yn YBH.<br><br>Fel rhan o'r Strategaeth ADY, mae'r awdurdod wedi ariannu 14 o athrawon i astudio diplomâu ôl-radd arbenigol mewn ystod o anghenion AAA / ADY a bydd yn ariannu mwy o athrawon y flwyddyn nesaf.<br><br>Hefyd yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi tîm o athrawon arbenigol fydd yn gweithio â'r ysgolion ar agweddau ar AAA / ADY fel anawsterau dysgu penodol (dyslecsia) ac iaith a lleferydd.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r ysgolion arbennig i ddatblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Powys. Mae'r tair ysgol arbennig a'r uned cyfeirio disgyblion yn rhoi gwasanaeth allgymorth i ysgolion.<br><br>Bydd y pethau hyn i gyd yn golygu bod staff ar draws Powys yn datblygu sgiliau ac arbenigedd mewn gwahanol anghenion AAA / ADY. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.1.24 | Efallai na fydd disgyblion gyda syndrom Asperger yn gallu ymdopi â'r ffrwd Gymraeg yn yr uwchradd ac felly'n gorfod teithio ar fws am 18 milltir, fydd efallai ddim yn bosib iddynt. | Nodwn y sylw.<br><br>Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Powys i helpu disgyblion ag awtistiaeth, gan gynnwys syndrom Asperger.<br><br>Mae llawer o blant ag awtistiaeth yn gorboeni'n sylweddol. Bydd angen i'r ysgol roi sylw i hyn drwy ddatblygu canolfan les. |
| 17.1.25 | Bydd gwneud i ffwrdd â'r ffrwd Saesneg yn effeithio ar blant o deuluoedd di-Gymraeg sydd ag anableddau dysgu, yn enwedig rhai gydag anableddau dysgu a deall iaith, fel Awtistiaeth. Gallai plentyn ag Awtistiaeth fod yn gallu mynd i ysgol prif ffrwd a chyflawni'n academaidd yn dda iawn yn eu hiaith gyntaf, ond ni fyddent yn gallu ymdopi â'r heriau gwybyddol o amgylchedd ail iaith. Yn ogystal, i blant Awtistig gydag anawsterau prosesu synhwyraidd, mae effaith gorfod teithio'n bellach i dderbyn addysg addas yn debygol o fod yn llawer mwy negyddol. Bydd plentyn awtistig sy'n cael eu tynnu allan o'r ardal leol ar gyfer eu haddysg yn llawer llai tebygol o allu creu cysylltiadau cymdeithasol â'u cyfoedion ac yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig a chael llai o gyfle i ddatblygu sgiliau cymdeithasol o ganlyniad. Mae cyfraddau awtistiaeth yng Nghymru ar gynnydd, gyda dros 1% o boblogaeth y DU gyda'r cyflwr hwn. Mewn ysgol yr un faint ag Ysgol Bro Hyddgen, byddech yn disgwyl i 4-5 disgybl fod â'r cyflwr ac efallai o dan anfantais drwy wneud i ffwrdd â'r opsiwn cyfrwng Saesneg. | Nodwn y sylw. Darllenwch y sylw uchod os gwelwch yn dda.<br><br>Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Powys i helpu disgyblion ag awtistiaeth. |
| 17.1.26 | Yn enwedig yn achos disgyblion ag Awtistiaeth, mae angen amgylchedd dysgu cyfarwydd iawn, nid un sy'n ynysu a chreu | Mae'r Cyngor yn cytuno â'r sylw hwn. Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Powys i roi sylw |

| | | |
|---|---|---|
| | mwy o ansicrwydd am y byd o'u cwmpas. Dylai'r ysgol fod yn hafan ac amgylchedd cynhwysol iddynt. | i'r materion hyn. Bydd hyn yn cynnwys gweithio ag ysgolion i ddatblygu canolfannau lles, fydd yn rhywle diogel i ddisgyblion gael mynd os byddent yn gorboeni. |
| 1.1.2<br>7 | Mae llawer o blant gyda dyslecsia ac anawsterau eraill na fyddent yn gallu dysgu'n effeithiol mewn ysgol gwbl Gymraeg. | Mae'r ysgol a'r Cyngor yn gallu rhoi cymorth i blant gyda dyslecsia drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Mae llawer o ddisgyblion gyda dyslecsia'n cyflawni'n dda mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. |
| 17.1.<br>28 | Sut fydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant ag anawsterau iaith a lleferydd sy'n dod o gartrefi Saesneg eu hiaith? Bydd y plant hyn yn cael trafferth yn eu hiaith gyntaf, ni fydd eu haddysgu yn eu hail iaith yn helpu hynny. A fydd raid iddynt deithio i Aberystwyth? | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau uchod os gwelwch yn dda.<br><br>Yr unig amser y byddem yn rhagweld y byddai angen i blant deithio yw os oes angen ysgol arbennig arnynt. |
| 17.1.<br>29 | Credaf y dylai Ysgol Bro Hyddgen fod yn edrych ar gymorth arbenigol i blant ag anghenion ychwanegol yn lle gorfod teithio naill ai i awdurdod lleol gwahanol neu le gwahanol i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae angen uned AAA i sicrhau bod y plant hyn hefyd yn teimlo'n rhan o'u cymuned. Addysg i bawb sydd ei angen. | Ar hyn o bryd mae canolfan arbenigol yn YBH yn y cynradd. Fodd bynnag nid yw ar gael yn yr uwchradd.<br><br>Mae cynlluniau'r adeilad newydd yn cynnwys cyfleusterau AAA / ADY i ddisgyblion cynradd ac uwchradd. |
| 17.1.<br>30 | Mae gan yr ysgol uned arbenigol sy'n wych eithriadol am gefnogi a chwrdd ag anghenion y plant sy'n mynychu ar hyn o bryd ac mae'r staff yn gweithio'n eithriadol galed. Poeni ydw i y bydd y cynnig hwn yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar yr uned hon. Bydd yr uned yn methu ag ymdopi a ddim yn addas i bwrpas. | Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i gryfhau'r cymorth a roddir i'r uned arbenigol. Fel rhan o'r Strategaeth ADY, mae'r Cyngor yn adolygu anghenion y plant a'r gymhareb staffio yn y canolfannau arbenigol i sicrhau eu bod yn addas i bwrpas. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.1.31 | Mae'n glir bod y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i blant ar y gofrestr ADY, fel therapyddion iaith a lleferydd, CAMHS a Seicolegwyr Addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg, yn brin iawn ym Mhowys. Sut y gallwch fod yn ffyddiog y gallwch gwrdd ag anghenion y plant hyn gyda chynnig mor ddrastig a dim darpariaeth arall ar gael yn y dalgylch? Onid y peth pwysicaf i bawb sy'n ymwneud ag addysg ac ADY yw bod angen dull person-ganolog i'w cynorthwyo'n llawn a dyma chi'n cynnig rhwystr dysgu arall i rai plant, mae'n anfoesol ac nid yw'n iawn. | Bydd arbenigwyr fel therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysgol yn rhoi cyngor ynghylch a ddylai'r mewnbwn i'r plant fod yn Gymraeg neu yn Saesneg.<br><br>Lle mae angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd yr awdurdod lleol yn trefnu hyn. |
| 17.1.32 | Byddai gan y Llywodraethwyr, y Tîm Rheoli ac uned AAA yr ardal rôl bwysig i'w chwarae mewn trafod unrhyw bryderon gan rieni'n ymwneud ag effaith unrhyw newid i'r categori iaith ar gyflyrau fel dyslecsia. | Rydym yn awyddus i weithio â'r rhanddeiliaid i gyd i ddatblygu darpariaeth AAA / ADY yr ysgol, fel bo'n gallu ateb anghenion y disgyblion i gyd. |
| 17.1.33 | Poeni am yr effaith ar ddisgyblion gyda dyslecsia. | Mae'r ysgol a'r Cyngor yn gallu rhoi cymorth i blant gyda dyslecsia drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |
| 17.1.34 | Nid oes rhaglenni ymyriadau priodol yn Gymraeg i helpu dysgwyr sy'n cael trafferth, dim ond fersiynau plentynnaidd sylfaenol. Nid yw'r rhain yn ddigon da i ddisgyblion uwchradd oherwydd dyma'r oed pan fo'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn newid i astudio pynciau ac arholiadau drwy'r Saesneg. | Rydym yn cydnabod bod ymyriadau cyfrwng Cymraeg yn brin. Bydd tîm cynhwysiant yr awdurdod lleol yn gweithio ag awdurdodau cyfagos i gaffael yr adnoddau hyn a'r cymorth sydd ei angen. |
| 17.1.35 | Mae'n hanfodol i'r Cyngor sicrhau bod cymorth ychwanegol yn cael ei roi i blant sy'n dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n hollbwysig hefyd bod rhieni'n derbyn cymorth. | Disgrifir y mathau o gymorth sydd ar gael uchod.<br><br>Mae cymorth i rieni hefyd yn hanfodol. Mae'r awdurdod lleol yn llwyr gydnabod hyn. |
| 17.1.36 | Mae iaith gofal yn disodli unrhyw iaith addysg; byddai unrhyw blentyn anabl a fyddai'n dod o gartref di-Gymraeg yn derbyn | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau uchod os gwelwch yn dda. |

| | | |
|---|---|---|
| | darpariaeth, cymorth a gofal yn ôl lefel eu hangen. Ni fyddai'r iaith a fyddai'n cael ei siarad yn sefyll yn ffordd eu rhaglen ofal. | |
| 17.1.37 | Rwy'n cytuno y gall addysgu ADY weithio'n dda mewn ysgolion Cymraeg o gwmpas y wlad. Ond mae hefyd yn wir fod gan bron pob un o'r ysgolion Cymraeg hynny ddarpariaeth Saesneg gerllaw hefyd, lle gall rhieni ddewis anfon eu plant. | Darllenwch yr ymateb i'r sylwadau uchod os gwelwch yn dda. |
| 17.1.38 | A ydych yn dweud os na fyddai'n bosib ateb anghenion plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg, y byddent yna'n cael eu hanfon allan o'r sir neu i ysgol sy'n eithaf pell i ffwrdd? Beth am hawl y plentyn i gael eu haddysgu yn eu cymuned eu hunain? | Pe bai gan blentyn lefel uchel o angen, byddent yn cael eu hystyried ar gyfer mynychu canolfan arbenigol yr ysgol. Byddai hyn yn sicrhau bod modd ateb eu hanghenion yn y gymuned. |
| 17.1.39 | Os oes angen therapydd iaith a lleferydd ar blentyn, beth sy'n digwydd os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael? Mae'n anodd cael gafael ar therapyddion iaith a lleferydd Cymraeg i helpu ym Mhowys. | Bydd y Cyngor yn gweithio ag awdurdodau cyfagos i gaffael y cymorth sydd ei angen. |

### 17.2 Pryderon eraill am yr effaith ar ddisgyblion gyda nodweddion a warchodir

| | | |
|---|---|---|
| 17.2.1 | Ni fydd rhieni maeth yn yr ardal yn gallu rhoi plant di-Gymraeg yn yr ysgol leol. | Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ar hyd a lled Cymru, daw cyfran helaeth o'r disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg o gartrefi hollol ddi-Gymraeg ac nid yw hyn yn effeithio dim ar eu gallu i lwyddo yn eu haddysg. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Cymraeg yn y pen draw'n dod yn brif iaith cyfathrebu'r ysgol, fel bod pob disgybl yn gallu gwella eu sgiliau Cymraeg a disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn fwy rhugl yn Gymraeg gan sicrhau eu bod yn gallu ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Ochr yn ochr ag unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol, byddai'r Cyngor yn sicrhau bod darpariaeth ychwanegol fel cyrsiau trochi a chymorth iaith ychwanegol ar gael i helpu disgyblion a'u teuluoedd. |
| 17.2.2 | Credaf hefyd y byddai'r cynnig yn cyfyngu'r cyfle i blant sy'n derbyn gofal fynd i'r ysgol yn y dyfodol, ac felly ar y cyfle i gael eu maethu yn y gymuned. Yn bersonol, byddai'r penderfyniad hwn yn effeithio ar botensial fy nheulu i ddarparu lleoliad gofal maeth i berson ifanc yn y dyfodol. | Fel yr uchod. |
| 17.2.3 | Ni fyddai'n bosib rhoi cartref ym Machynlleth i blant mewn gofal yn dod o dde'r Sir os nad oedd ffrwd Saesneg yn yr ysgol ar eu cyfer. Byddai'n ormod o newid byd i unrhyw blentyn, cael eu cymryd o'u cartref ac yna eu rhoi mewn ysgol gydag iaith wahanol0} | Fel yr uchod. |
| 17.2.4 | Bydd yn gorfodi plant i dderbyn addysg yn Gymraeg yn unig neu deithio i Aberystwyth, ac mae'r olaf yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anableddau sy'n cael trafferth teithio. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, y bwriad yw cyflwyno'r newid yn raddol o flwyddyn Derbyn i fyny, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai disgyblion o gartrefi lle na siaredir dim Cymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 17.2.5 | Mae gan bob plentyn hawl i addysg. Mae gan lawer o blant anghenion anabledd ac ni fyddai'n iawn gwneud i ffwrdd â'u hiaith a byddai'n gwahaniaethu yn eu herbyn. | Fel yr uchod. |
| 17.2.6 | O dan Ran 6, Pennod 1 y Ddeddf Cydraddoldeb (Addysg ac Ysgolion), byddai'n lleihau hygyrchedd i ddisgyblion anabl. | Fel yr uchod. |
| 17.2.7 | Bydd yn cael effaith negyddol ar blant gyda phroblemau iechyd meddwl drwy eu gwthio allan o'r gymuned. | Fel yr uchod. |
| 17.2.8 | Poeni am yr effaith ar ddisgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, a allai fod angen cinio ysgol, ac sy'n mynd heb fwyd neu'n cael eu hesgeuluso gartref. Maen nhw'n fwy tebygol o gael problemau canolbwyntio. Gallent 'gadw reiat' yn eu hiaith gyntaf o deimlo'n llwglyd neu'n anniddig, yn ddisylw neu gyda hunan-werth isel. Os ydyn nhw'n cael trafferth cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf, rwy'n amau y byddai'n anoddach fyth iddynt geisio cyfathrebu drwy gyfrwng eu hail iaith. | Mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi cymorth digonol i bob disgybl, gan gynnwys rhai gyda nodweddion a warchodir.<br><br>Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.2.9 | Rwy'n poeni am blant o deuluoedd di-Gymraeg difreintiedig – a fydd y plant hyn yn dioddef mwy na neb oherwydd yr agenda dosbarth canol i ddiogelu'r iaith Gymraeg? Mae popeth yn eu herbyn yn barod ac os nad yw eu rhieni'n gefnogol, a fydd y plant hyn yn colli allan? Er enghraifft, disgyblion fydd yn llenwi swyddi lle nad yw gofynion iaith yn berthnasol, fel yn yr 'economi gìg'. | Ar hyd a lled Cymru, daw cyfran helaeth o'r disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg o gartrefi hollol ddi-Gymraeg ac yn aml iawn mae'r ysgolion hyn mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, ac nid yw'n effeithio dim ar eu gallu i lwyddo yn eu haddysg. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Cymraeg yn y pen draw'n dod yn brif iaith cyfathrebu'r ysgol, fel bod pob disgybl yn gallu gwella eu sgiliau Cymraeg a disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn fwy rhugl yn Gymraeg gan sicrhau eu bod yn gallu ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Ochr yn ochr ag unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol, byddai'r Cyngor yn sicrhau bod darpariaeth ychwanegol fel cyrsiau trochi a chymorth iaith ychwanegol ar gael i helpu disgyblion a'u teuluoedd. |
| 17.2.10 | Mae gen i hefyd bryderon am gartrefi incwm isel a lefel eu llythrennedd ac felly a fyddent yn gallu helpu ag addysg uniaith Gymraeg a hwythau heb Gymraeg yn y cartref. Rwy'n poeni y bydd y plant hyn dan anfantais bellach yn y dyfodol oherwydd efallai na fyddent hyd yn oed wedi deall peth o'u haddysg sylfaenol. | Fel yr uchod. |
| 17.2.11 | Teimlaf y bydd newid yr iaith yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion ag unrhyw nodweddion a warchodir drwy gymryd eu hannibyniaeth a'u rhyddid i ddewis derbyn eu haddysg yn iaith eu dewis oddi arnynt. Gallai hyn effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol, a'u hawl i addysg gynhwysol. | Mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi cymorth digonol i bob disgybl, gan gynnwys rhai gyda nodweddion a warchodir.<br><br>Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.2.12 | Gallech hefyd ddadlau bod pobl Gymraeg sy'n siarad Saesneg yn grŵp ethnig lleiafrifol penodol yn y DU, a bod gwneud i ffwrdd â'r opsiwn cyfrwng Saesneg o'r uwchradd felly'n gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail hil. | Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai'n gwahaniaethu yn erbyn pobl Gymraeg sy'n siarad Saesneg. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, y bwriad yw cyflwyno'r newid yn raddol o flwyddyn Derbyn i fyny, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai disgyblion o gartrefi lle na siaredir dim Cymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |
| 17.2.13 | Mae angen asesiad risg llawn a chynhwysfawr ynghyd ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, yn ogystal ag [ystyried] fy ymateb uchod, cyn symud ymlaen gyda'r cynigion. Mae angen i'r gymuned fod yn siŵr bod hyn y peth iawn i'w wneud ac y cefnogir y plant. | Mae nifer o asesiadau effaith wedi cael eu gwneud a'u cyhoeddi fel rhan o'r dogfennau ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ynghyd ag ystyried y risgiau'n gysylltiedig â'r cynnig. Bydd yr asesiadau effaith yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r adborth dros y cyfnod ymgynghori, a bydd y fersiynau diweddaraf hyn yna'n cael eu hystyried gan y Cabinet wrth benderfynu symud ymlaen neu beidio. |
| 7.2.14 | Bydd y cynigion yn effeithio ar Adran 85, Rhan (2) (a, b, c ac f), ni ddylai'r corff sy'n gyfrifol am ysgol wahaniaethu yn erbyn disgybl – Yn y ffordd y mae'n darparu addysg i'r disgybl, y ffordd y mae'n rhoi mynediad at fudd, cyfleusterau neu wasanaeth i'r disgybl, drwy beidio â darparu addysg i'r | Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, y bwriad yw cyflwyno'r newid yn raddol o flwyddyn Derbyn i fyny, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg |

| | | |
|---|---|---|
| | disgybl a thrwy gyflwyno unrhyw niwed arall i'r disgybl. Bydd pob un o'r pethau hyn yn berthnasol; bydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion sydd eisiau ac angen addysg drwy'r Saesneg a bydd anfantais iddynt o'i gymharu â'u cyfoedion a bydd effaith y gwahaniaethu yma'n achosi niwed i'w dysgu, i ennill sgiliau a'u datblygiad yn gyffredinol. | cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai disgyblion o gartrefi lle na siaredir dim Cymraeg yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno. |

**17.3 Ddim yn meddwl y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol**

| | | |
|---|---|---|
| 17.3.1 | Gall manteision addysg cyfrwng Cymraeg fod yn fuddiol i bobl sydd ag unrhyw nodwedd a warchodir.<br><br>Bydd yn gyfrwng buddiol i wella darpariaethau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl sydd ag unrhyw nodwedd a warchodir. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.2 | Byddai rhoi cyfle i grwpiau lleiafrifol dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn beth cadarnhaol iawn ac yn ffordd o'u cynnwys a'u croesawu i'r gymuned leol. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.3 | Bydd angen ystyried anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau nodweddion a warchodir a bydd angen trafod y goblygiadau. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.4 | Gyda'r gefnogaeth iawn yn ei lle, ni chredaf y bydd problem gyda hyn. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.3.5 | Mae cael y cyfle i siarad a defnyddio dwy iaith yn amhrisiadwy i bawb, gan gynnwys rhai gyda nodweddion a warchodir. Mae'r iaith Gymraeg ar gyfer pawb, beth bynnag yw eu cefndir neu statws. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.6 | Mae plant gyda dyslecsia'n elwa o dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg / ddwyieithog. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.7 | Mae anghenion a hawliau disgyblion gyda nodweddion a warchodir yn cael eu diogelu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg / dwyieithog eraill drwy Gymru. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.8 | Drwy sicrhau bod pob disgybl yn yr ysgol yn naturiol ddwyieithog, gallai'r ysgol symud ymlaen a threulio mwy o amser ac adnoddau'n datrys y problemau sy'n gysylltiedig â nodweddion a warchodir.<br><br>Mae hil yn un o'r nodweddion a warchodir. Nid yw hil wedi'i ddiffinio yma. Mae etifeddiaeth enetig yn greiddiol ond credaf fod 'hiliaeth' hefyd yn cynnwys agweddau eraill fel crefydd a diwylliant. Iaith yw prif gyfrwng rhannu a throsglwyddo diwylliant. Mae dwyieithrwydd yn gam anferth tuag at leihau hiliaeth ddiwylliannol. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.9 | Mae angen sicrhau bod pecyn cymorth trylwyr yn ei le i rieni a allai deimlo dan anfantais, i sicrhau bod gan yr ysgol gefnogaeth. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.10 | Os yw'r plentyn wedi cael eu haddysgu yn Gymraeg o'r dechrau, ni ddylai fod effaith ar gydraddoldeb.<br><br>Gofal a safon y dysgu yw'r pethau pwysicaf yma, nid ym mha | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | iaith y mae'n digwydd.<br><br>Wedi dweud hynny, mae'n hanfodol bod yr ysgol yn ymwybodol o ba iaith a siaredir gan blentyn ag anghenion, a'r teulu hefyd, ac yn sensitif wrth ddelio â hyn. | |
| 17.3.11 | Nid oes gen i bryderon. Mae aelod o 'nheulu i'n anabl gydag anawsterau dysgu ac wedi bod drwy addysg cyfrwng Cymraeg, ac ni chafodd effaith negyddol arnynt. Mae addysg cyfrwng Cymraeg wedi eu helpu i ffynnu ac wedi agor gymaint o ddrysau iddynt o ran swyddi oherwydd eu bod yn ddwyieithog.<br><br>Ni fydd newid categori iaith yr ysgol yn effeithio ar sut y gall yr ysgol deilwrio'r ddarpariaeth i ddisgyblion gyda nodweddion a warchodir, pe bai angen gwneud, ac ni fydd yn effeithio ar sut y gall yr ysgol gynnig cymorth i'r unigolion hynny – maen nhw eisoes yn gwneud. | Nodwn y sylw. |
| 17.3.12 | Mae polisïau'r ysgol eisoes yn sicrhau bod y categorïau canlynol yn cael eu gwarchod.<br><br>Yn fy mhrofiad i, mae ysgolion Cymraeg yn unig eisoes yn deall pwysigrwydd gweithio'n agos gyda theuluoedd ac aelodau o'r gymuned sy'n siarad iaith heblaw Cymraeg. Mae'r holl ysgolion cyfrwng Cymraeg yr wyf wedi gweithio â nhw yn ystod fy ngyrfa, ac a arolygwyd gen i fel arolygydd Estyn, bob amser yn gweithio'n galed iawn i wneud eu hysgol a'u gweithgareddau'n gwbl gynhwysol i bawb o bob cefndir. O adnabod Bro Hyddgen yn dda, mae bob amser wedi bod yn flaenoriaeth ganddynt ac rwy'n ffyddiog y bydd hyn yn parhau i fod yn rhan o ethos a blaenoriaeth yr ysgol. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| 17.3.13 | Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru, mae yna blant, pobl ifanc, staff ysgol a rhieni ayyb, sydd â nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni chawsant unrhyw broblemau oherwydd iaith! | Nodwn y sylw. |

### 17.4 Sylwadau eraill am yr effaith ar ddisgyblion gyda nodweddion a warchodir

| | | |
|---|---|---|
| 17.4.1 | Bydd yn hanfodol ymchwilio i arferion da mewn sefyllfaoedd tebyg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ar draws Cymru. Dylid ymgorffori unrhyw arferion rhagorol sydd wedi eu hadnabod gan Estyn, a'u defnyddio i gynorthwyo teuluoedd a disgyblion ag anghenion penodol. | Nodwn y sylw. |
| 17.4.2 | Rwy'n poeni na fydd y sir yn darparu digon o gymorth neu'n dechrau drwy addo digon o gymorth ond na fydd yn parhau. | Mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi cymorth digonol i bob disgybl, gan gynnwys rhai gyda nodweddion a warchodir. |

## 18. SYLWADAU AM Y DOGFENNAU YMGYNGHORI

| | | |
|---|---|---|
| 18.1 | Dylai'r dadansoddiad SWOT wneud y dadansoddiad canlynol o dan 'Cryfderau' – tebygol o fod yn boblogaidd gyda rhannau helaeth o'r gymuned. | Nodwn y sylw. |
| 18.2 | Rydych wedi nodi'r heriau i YBH gyda gallu darparu darpariaeth briodol i'r nifer isel o ddisgyblion cyfrwng Saesneg:<br><br>Dywedwch fod plant cynradd yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach, gyda nifer uchel o grwpiau blwyddyn ym | Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg newydd y Cyngor, a gymeradwywyd yn Ebrill 2020, yn cydnabod fod gormod o ysgolion ym Mhowys. Ochr yn ochr â'r cynnig i newid y categori iaith yn Ysgol Bro Hyddgen, mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn adolygu ysgolion bach ym |

| | | |
|---|---|---|
| | mhob dosbarth. Nid yw hyn ddim gwahanol i'r sefyllfa mewn nifer o ysgolion cynradd bach ar draws y sir. Dengys eich data fod 52 o ddisgyblion cynradd cyfrwng Saesneg yn YBH. Dim ond 43 o ddisgyblion sydd yng Ngharno, gyda 61 yn Llanbrynmair a 63 yng Nglantwymyn. Felly ni allaf weld sut y mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn fwy o her i YBH nag i'r ysgolion bwydo eraill hyn. A fyddech hefyd yn ystyried gwneud i ffwrdd â'r ddarpariaeth yn yr ysgolion hyn oherwydd nifer isel y disgyblion?<br><br>Dywedwch hefyd fod llawer o ddosbarthiadau'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog yn y sector uwchradd, i ddarparu ar gyfer disgyblion cyfrwng Saesneg a Chymraeg, ac nad yw'n fodel dymunol. Teimlaf fod hyn yn amharchus i'r staff addysgu yn YBH sy'n gwneud hyn yn effeithiol a llwyddiannus iawn. Mae'n fodel da iawn ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd. Nid yw'r data gan YBH yn dangos bod unrhyw ddisgybl p dan anfantais neu'n tanberfformio oherwydd hyn. | Mhowys ac yn cyflwyno nifer o gynigion i gau ysgolion bach.<br><br>Fel y nodwn yn y ddogfen ymgynghori, mae'r system ddwy ffrwd bresennol yn Ysgol Bro Hyddgen yn creu nifer o heriau i'r ysgol. Drwy gael ei rhedeg fel ysgol un ffrwd, gallai'r ysgol weithredu'n fwy effeithlon, er mantais i'r holl ddisgyblion.<br><br>Nid yw'r datganiad yn y ddogfen ymgynghori, sef nad yw dosbarthiadau a addysgir yn ddwyieithog (h.y. yn Gymraeg a Saesneg) yn fodel i'w ddymuno, yn feirniadaeth o'r staff addysgu yn Ysgol Bro Hyddgen. |
| 18.3 | Rydych wedi darparu tabl gyda nifer bresennol y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn. Mae'r tabl yn ceisio dangos nifer isel y disgyblion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn amlwg yn anghyson. Hyd y gwelaf, mae'r tabl yn categoreiddio'r disgyblion yn ôl a ydynt yn astudio Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith. Mae unrhyw ddisgybl a aeth i ysgol fwydo cyfrwng Cymraeg yn parhau'n awtomatig i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf. Felly os yw plentyn yn dod i YBH ym Mlwyddyn 7 o ysgol fwydo cyfrwng Cymraeg ond yna'n dewis newid i astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Saesneg, maen nhw'n aros yn y tabl hwn fel disgybl cyfrwng Cymraeg. Mae gallu newid o Gymraeg i Saesneg yn cael ei groesawu gan lawer o rieni – mae'n rhoi | Mae'r Cyngor yn anghytuno â'r datganiad bod anghysondeb gyda nifer y disgyblion yn y ddogfen ymgynghori, roeddent yn gywir pan gyhoeddwyd y ddogfen.<br><br>Byddai'r holl ddisgyblion yn cael eu cyfrif yn ôl eu ffrwd iaith, p'un ai yr aethant i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n bwydo YBH neu beidio.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai rhieni o blaid cael yr opsiwn i newid ffrwd iaith, er nad yw'r Cyngor yn annog hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfle i'w plentyn astudio pynciau yn Saesneg a chadw eu Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r newid o gyfrwng Cymraeg i Saesneg yn amlycach fyth yn CA4 pan fydd disgyblion yn dechrau ar eu TGAU. Felly nid yw'r data a roddwch yn adlewyrchu gwir natur ieithyddol yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.<br><br>Pam nad ydych hefyd, er enghraifft, wedi cynnwys data i ddangos nifer y disgyblion sy'n astudio TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ar gyfer o leiaf 5 pwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg? Rhaid i chi gwestiynu'r data a roddwch ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a chwestiynu a ydych wedi cyflwyno'r ddarpariaeth bresennol yn deg. O'n profiad ni, yng ngrwpiau blwyddyn fy mhlant i, mae nifer sylweddol yn symud o Gymraeg i Saesneg ar gyfer TGAU. | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod nifer o wersi'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, h.y. mae'r wers yn cael ei haddysgu yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Nid yw'r Cyngor yn meddwl mai dyma'r model addysgu sydd orau'n ieithyddol i ddisgyblion.<br><br>Rhoddir y wybodaeth yma yn y pwynt blaenorol. |
| 18.4 | Mae'r ffigurau ar gyfer plant yn mynd i'r ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn fy mhoeni a gwn am ffaith fod ffigurau Medi 2020 yn anghywir – credaf y dylid rhoi mwy o ffocws ar rai a gwblhaodd eu TGAU – ym mha iaith y mae'r disgyblion hyn yn gwneud eu TGAU? - y rhieni fydd eich ffeithiau cywir. | Fel yr uchod. |
| 18.5 | Mae'r ddogfen yn dweud y bydd angen egluro manteision addysg ddwyieithog yn ofalus i'r gymuned. Nid yw hyn wedi digwydd o gwbl! I ddechrau, roedd dryswch gyda chategori'r ysgol. Mewn llythyr i'r rhieni, dywedodd gadeirydd y llywodraethwyr mai ysgol ddwyieithog a fyddai (a chymrodd bobl mai 50/50 oedd hyn) ond rydych yn ymgynghori ar ysgol cyfrwng Cymraeg. | Mae'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd fel rhan o'r cynnig hwn yn glir iawn bod y cynnig a ymgynghorir arno fel a ganlyn:<br><br>• Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.<br>• Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>18.6</td><td>Yn eich ‘Asesiadau Effaith’ dywedwch: 'Ar ôl gweithredu’r cynnig, gallai fod effaith negyddol ar ddisgyblion a fyddai’n symud yma o’r tu allan i’r ardal / o’r tu allan i Gymru. Yn benodol, gallai hyn olygu y byddai disgyblion oed uwchradd a fyddai’n symud i’r ardal yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn mannau eraill, rhywbeth na fyddai’n cynorthwyo i’w hintegreiddio yn y gymuned’. Ble’n union yr awgrymwch i’r mannau eraill hyn fod? Ydy’r Cyngor yn meddwl bod hyn yn dderbyniol?</td><td>Mae’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned oedd yn rhan o’r ddogfen Asesiadau Effaith Drafft a gyhoeddwyd fel rhan o ddogfennau’r ymgynghoriad yn rhestru’r darparwyr cyfrwng Saesneg eraill y gellid eu dewis yn lle YBH.<br><br>Byddai’r addysg uwchradd cyfrwng Saesneg agosaf gan ddarparwyr eraill yn yr ysgolion canlynol:<br><br>Uwchradd<br><br>
<table>
<tr><th>Enw’r ysgol</th><th>Pellter o Ysgol Bro Hyddgen</th></tr>
<tr><td>Ysgol Penglais, Aberystwyth</td><td>17 milltir</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Llanidloes</td><td>26.7 milltir</td></tr>
</table>
<br>Pe bai’r Cyngor yn symud ymlaen i weithredu’r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai’n well gan y Cyngor weld yr holl ddisgyblion sy’n byw yn ardal Machynlleth yn mynychu’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Hyddgen. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn cydnabod na fydd hyn yr opsiwn gorau i’r dysgwr unigol bob tro, yn enwedig yn achos dysgwyr uwchradd yn symud i’r ardal. Yn yr achosion hyn, gallai fod yn well gan y disgyblion fynychu addysg cyfrwng Saesneg mewn ysgol arall.<br><br>Mae gan ddisgyblion / rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol a ddewisant. Pe bai’r Cyngor yn symud ymlaen gyda’r cynnig i newid categori iaith Ysgol</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | Bro Hyddgen, byddai disgyblion / rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig addysg cyfrwng Saesneg, pe byddent yn dymuno.<br><br>Er yn cydnabod y byddai angen i'r dysgwr deithio'n bellach i fynychu ysgol arall, mae llawer iawn o rannau o Bowys heb fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r disgyblion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn sydd am dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg felly'n gorfod teithio i ysgol arall i dderbyn addysg yn iaith eu dewis. |
| 18.7 | Dywedwch hefyd: 'mae'n bosib y gallai'r cynnig.... greu tensiynau ac anghytundeb yn y gymuned leol, yn enwedig wrth i'r prosesau ymgynghori ddigwydd.' Wedi cydnabod hyn yn eich adroddiad effaith, credaf y byddai'n warthus i chi gymeradwyo'r cynnig hwn. | Mae'n gywir bod y Cyngor yn cydnabod fel a ganlyn yn y ddogfen asesu effaith ddrafft a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses ymgynghori, sef *'yn y tymor byr, mae'n bosib y gallai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol greu tensiynau ac anghytundeb yn y gymuned leol, yn enwedig wrth i'r prosesau ymgynghori ddigwydd.'*<br><br>Fodd bynnag, mae'r asesiad yn mynd ymlaen i ddweud *'Yn y pen draw byddem yn disgwyl i'r tensiynau hyn leihau, ac yn y tymor hirach wrth weithredu'r newid i'r categori iaith, y gobaith yw y byddai'r cynnig yn helpu i wneud y gymuned yn fwy clòs oherwydd byddai'r holl ddisgyblion yn yr ardal yn rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg.'* |
| 18.8 | Mae defnyddio'r term bod yr ardal "yn draddodiadol yn Gymraeg ei hiaith" yn tynnu sylw at y ffaith bod yr ardal wedi newid. Dengys y data demograffig fod hon yn ardal a welodd fewnlifiad o bobl amrywiol yn setlo a chael eu cyflogi a'u haddysgu. Mae'r mewnlifiad hwn o newydd-ddyfodiaid wedi dod â mwy o gyfleoedd twristiaeth, tai coeden, siopau | Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |

| | | |
|---|---|---|
| | unigryw, caffis, parc beicio mynydd a thraciau bmx byd-enwog, CAT a'r myfyrwyr sy'n byw ac ymuno yn y gymuned. Os yw YBH i gynrychioli demograffeg yr ardal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol (a allai weld mwy o bobl yn symud i mewn oherwydd cyfleoedd gwell i weithio o gartref), awgrymwn fod yr ysgol yn aros yn ddwy ffrwd er lles ein plant i gyd. Mae gwahanu plant di-Gymraeg a disgwyl iddynt deithio allan o'r Sir ar siwrne fws 50 munud nid yn unig yn ychwanegu costau ychwanegol a llygru'r amgylchedd, bydd hefyd yn ynysu ffrindiau ac atal y plant hyn rhag mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol yn eu cymunedau eu hunain oherwydd y teithio. | Nid yw'r Cyngor yn bwriadu 'gwahanu'r plant di-Gymraeg nac yn disgwyl iddynt deithio allan o'r Sir. Nod y cynnig i newid categori iaith yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cael cyfle i fod yn hollol ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, erbyn iddynt adael yr ysgol. Byddai croeso o hyd i bob disgybl fynychu Ysgol Bro Hyddgen, beth bynnag yw eu cefndir. |
| 18.9 | Rwy'n poeni am y diffyg eglurder a gwybodaeth am yr effaith bosib ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a allai gael trafferthion derbyn addysg mewn ail iaith. Gyda chanran y disgyblion ag ADL yn y cynradd yn 26% ar hyn o bryd, byddai'n ddefnyddiol cael rhyw fath o ddadansoddiad o faint o'r disgyblion hyn sydd yn y ffrwd Saesneg. | Ar y 6ed o Fai 2021[1], y ffigwr presennol yw 37% o ddisgyblion yn ffrwd Saesneg y cyfnod cynradd.<br><br>Yn gyffredinol, yn y cyfnod cynradd, mae ADY gan 28.7% o ddysgwyr ag ADY.<br><br><u>Teacher Centre – 6 Mai 2021</u><br><br>Ffrwd Saesneg – 54 o ddisgyblion cynradd<br>Ffrwd Saesneg ADY – 20 o ddisgyblion (37.0%)<br>Gweithredu gan yr Ysgol – 11 disgybl<br>Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy – 7 disgybl<br>Datganiad – 2 ddisgybl<br><br>Cyfanswm – 167 o ddisgyblion cynradd<br>ADY – 48 o ddisgyblion (28.7%)<br>Gweithredu gan yr Ysgol – 9 disgybl<br>Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy – 15 disgybl<br>Datganiad – 3 disgybl |

[1] Teacher Centre – 6 Mai 2021

| | | |
|---|---|---|
| 18.10 | Credaf fod y Cyngor wedi rhoi amcan rhy isel o nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw'r tabl a gyflwynir gan y Cyngor yn dangos nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn adlewyrchu'n gywir faint yn union o ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau yn Saesneg. Mae'r tabl yn cofnodi dim ond 6 disgybl cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 12. Fodd bynnag, i roi dim ond un enghraifft, mae 15 o ddisgyblion yn astudio cwrs Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Saesneg. | Nodwn y sylw. |
| 18.11 | Dywedwch yn eich adroddiad: ''Lleolir yr ysgol mewn ardal sy'n hanesyddol Gymraeg ei hiaith a ffrwd cyfrwng Saesneg Ysgol Bro Hyddgen yw'r unig ddarparwr cynradd cyfrwng Saesneg sy'n bwydo i YBH yn y dalgylch.'<br><br>Yn wir dywedodd Estyn yn 2017 fod 62% o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Mae'n glod mawr i'r gymuned a'r ysgol bod rhieni wedi ymrwymo i addysg cyfrwng Cymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 18.12 | Byddai wedi helpu cael mwy o fanylion am ba gynlluniau ac adnoddau a fyddai yn eu lle i'r disgyblion hynny sy'n cael trafferth dysgu mewn ail iaith, a faint o gyllid a fyddai'n cael ei roi i gynorthwyo eu dysgu. Heb y wybodaeth hon, ni allaf gefnogi'r cynnig. | Nodwn y sylw. Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai swyddogion yn gweithio gyda'r ysgol i adnabod a chyflwyno'r cymorth sydd ei angen i helpu unrhyw ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Bro Hyddgen, yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion a allai symud i'r ardal yn y dyfodol. |

## 19. SYLWADAU AM Y BROSES YMGYNGHORI

### 19.1 Beirniadaeth bod y broses wedi'i chynnal yn ystod pandemig Covid-19

| | | |
|---|---|---|
| 19.1.1 | Mae gwneud hyn yng nghanol pandemig yn ymateb slei iawn gan Gyngor Sir Powys. | Mae’r Cyngor wedi bod yn datblygu ei Strategaeth Trawsnewid Addysg ers arolygiad Estyn o wasanaethau addysg Powys yn 2019. Er yn cydnabod y byddai wedi bod yn well cynnal y broses ymgynghori ar adeg pryd na fyddai pandemig byd-eang yn digwydd, mae’r ymgynghoriad wedi’i gynnal yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| 19.1.2 | Mae hwn yn gynnig hurt ac yn un y dylid ei atal ar sail amseru’n unig! Ni ddylid byth fod wedi gwneud penderfyniad a allai newid gymaint ar gymuned hyd nes y gallai’r holl randdeiliaid gwrdd yn ddiogel i drafod y mater yn llawn yn eu cymunedau. Mae’n warthus bod Powys wedi parhau gyda’r ymgynghoriad hwn yn ystod pandemig byd-eang. Cywilydd arnoch wir. | Mae’r Cyngor wedi bod yn datblygu ei Strategaeth Trawsnewid Addysg ers arolygiad Estyn o wasanaethau addysg Powys yn 2019. Er yn cydnabod y byddai wedi bod yn well cynnal y broses ymgynghori ar adeg pryd na fyddai pandemig byd-eang yn digwydd, mae’r ymgynghoriad wedi’i gynnal yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| 19.1.3 | Rwy’n siomedig bod yr ymgynghoriad hwn wedi digwydd ar adeg o straen digyffelyb i oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae Machynlleth wedi’i nodweddu fel cymuned oddefgar sy’n croesawu pobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau. | Mae’r Cyngor wedi bod yn datblygu ei Strategaeth Trawsnewid Addysg ers arolygiad Estyn o wasanaethau addysg Powys yn 2019. Er yn cydnabod y byddai wedi bod yn well cynnal y broses ymgynghori ar adeg pryd na fyddai pandemig byd-eang yn digwydd, mae’r ymgynghoriad wedi’i gynnal yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| | Mae’n amheus yn barod eich bod wedi dewis cynnal yr ymgynghoriad hwn pan fo’r ysgolion ar gau ac yng nghanol cyfnod clo. | Mae’r Cyngor wedi bod yn datblygu ei Strategaeth Trawsnewid Addysg ers arolygiad Estyn o wasanaethau addysg Powys yn 2019. Er yn cydnabod y byddai wedi bod yn well cynnal y broses ymgynghori ar adeg pryd na fyddai pandemig byd-eang yn digwydd, mae’r ymgynghoriad wedi’i gynnal yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 19.1.4 | Mae'n warth o beth bod Cyngor Sir Powys wedi penderfynu ymgynghori yng nghanol pandemig. Byddai'n well pe baech wedi defnyddio'r adnoddau a'r cyllid i gynorthwyo staff a disgyblion yr ysgol gyda materion lles ac iechyd meddwl ar adeg mor ofnus. | Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ei Strategaeth Trawsnewid Addysg ers arolygiad Estyn o wasanaethau addysg Powys yn 2019. Er yn cydnabod y byddai wedi bod yn well cynnal y broses ymgynghori ar adeg pryd na fyddai pandemig byd-eang yn digwydd, mae'r ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| 19.1.5 | Rwy'n cwestiynu bod yr ymgynghoriad yn hyrwyddo ac yn rhoi ffocws ar y 'continwwm iaith' yn hytrach na'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel 'continwwm lles', yn enwedig yng nghanol pandemig. | Nodwn y sylw. |

**19.2 Cyfeirio at gyfarfodydd ymgynghori**

| | | |
|---|---|---|
| 19.2.1 | Mae angen cyfarfod cyhoeddus arnom. | Mae'r ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion sy'n nodi nad oes angen cynnal cyfarfodydd cyhoeddus.<br><br>Fel y nodir ar dudalen 26 y Cod Trefniadaeth Ysgolion, *'Nid oes angen i gynigwyr cynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau pryd y bydd cynigwyr yn ystyried y byddai cwrdd â grwpiau penodol o ymgyngoreion yn cynorthwyo'n sylweddol i ledaenu gwybodaeth ac yn llwyfan addas i ymgyngoreion leisio barn.'*<br><br>Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion Ysgol Bro Hyddgen. |

| | | |
|---|---|---|
| 19.2.2 | Mae llawer yn y gymuned yn teimlo eu bod wedi cael cam oherwydd nad oedd cyfle i gynnal cyfarfod cyhoeddus neu drafod y cynnig hwn gyda Chyngor Sir Powys. | Fel yr uchod. |
| 19.2.3 | Sut y gallwch gasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn llawn os na ellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Rydych yn dibynnu ar y cyfryngau cymdeithasol – nid yw pawb arnynt. Rydych yn colli allan ar dderbyn adborth gan bawb yn y gymuned. | Nid yw'n wir fod y Cyngor yn dibynnu ar y cyfryngau cymdeithasol i gasglu ymateb pobl i'r ymgynghoriad. Fel sy'n ofynnol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, dosbarthwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad i ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Bro Hyddgen, rhieni disgyblion yn yr ysgolion sy'n bwydo YBH, darparwyr blynyddoedd cynnar a chynghorau cymuned. |

**19.3 Mae'n aneglur ar beth yr ydych yn ymgynghori**

| | | |
|---|---|---|
| 19.3.1 | Rhoddwyd gwybodaeth anghywir i rieni'n ein sicrhau y byddai hon yn aros yn ysgol ddwyieithog, ond mae'r Cyngor wedi dweud mai cyfrwng Cymraeg fydd hi. Sut y gall pobl leol lunio barn iawn heb y ffeithiau. RHAID edrych ar hyn cyn gynted â phosib. | Mae'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd fel rhan o'r cynnig hwn yn glir iawn bod y cynnig a ymgynghorir arno fel a ganlyn:<br><br>• Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.<br>• Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022. |
| 19.3.2 | Mae angen i'r Cyngor fod yn gliriach ar eu bwriad o ran categori iaith yr uwchradd. Ar hyn o bryd mae'n ddwyieithog ac mae'r plant yn rhannu dosbarthiadau fel ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg ac felly'n mwynhau'r gorau o ddau fyd. Anfonwyd llythyr at rieni gan gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol | Mae'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd fel rhan o'r cynnig hwn yn glir iawn bod y cynnig a ymgynghorir arno fel a ganlyn: |

| | | |
|---|---|---|
| | Bro Hyddgen yn dweud y byddai Ysgol Bro Hyddgen yn dilyn esiampl ysgolion fel Ysgolion Uwchradd Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi. Mae'r trefi hyn yn wahanol iawn i Fachynlleth. Rwy'n poeni na fydd gymaint o opsiynau pwnc ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg ag y mae yn yr ysgol ar hyn o bryd, os dilynwch yr esiamplau hyn. | • Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.<br>• Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022. |

### 19.4 Rhywbeth arall

| | | |
|---|---|---|
| 19.4.1 | Teimlaf fod yr ymgynghoriad wedi'i ddylanwadu'n hawdd ac yn ormod i'w ddarllen. Ar adeg pan fo'r wlad i gyd yn addysgu o gartref, pwy fydd â'r amser i ddarllen y ddogfen hon a chanolbwyntio ar lenwi [y ffurflen] – amseru gwael iawn. | Paratowyd y dogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| 19.4.2 | Ni allaf siarad am y cylch i gyd ond gwn fod llawer o bobl ym Machynlleth a) heb sylweddoli y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal, a b) heb wybod pryd y byddai'r ymgynghori'n digwydd a llawer heb sylweddoli ein bod ar ganol y broses! ac c) ddim yn gwybod am beth y mae'r ymgynghoriad yn holi eu barn amdano, a d) ddim yn gwybod sut i ymateb na hyd yn oed yn sylweddoli bod cyfle i ymateb! | Fel sy'n ofynnol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, dosbarthwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad i ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Bro Hyddgen, rhieni disgyblion yn yr ysgolion sy'n bwydo YBH, darparwyr blynyddoedd cynnar a chynghorau cymuned.<br><br>Derbyniwyd bron i 500 o ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n awgrymu bod pobl yr ardal yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad yn digwydd a sut i ymateb. |
| 19.4.3 | Pwy all ymateb i'r ymgynghoriad? Ai unrhyw un ym Mhowys, neu rai y byddai'r cynigion hyn yn effeithio arnynt, fel rhieni ayyb? | Mae hwn yn ymgynghoriad agored felly gall unrhyw un ymateb iddo. |
| 19.4.4 | Rwy'n deall y cymhlethdod a'r manylder sydd ei angen yn y ddogfen ymgynghori, ond mae hefyd yn hawdd colli rhai o'r | Nodwn y sylw. Paratowyd y ddogfen ymgynghori'n unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, fodd bynnag |

| | | |
|---|---|---|
| | prif negeseuon sy'n gallu achosi dryswch. Efallai ar ôl cam hwn y broses ymgynghori, gallwn gael negeseuon clir gydag enghreifftiau 'go iawn' o sut y bydd yn effeithio ar blant. Y math o gwestiwn y gallai rhieni di-Gymraeg ei ofyn er enghraifft, os yw eu plant yn cael trafferth dysgu yn yr ysgol, yw a fyddent yn gallu sefyll eu harholiadau yn Saesneg? | mae'r Cyngor yn nodi bod y deunydd sy'n rhaid ei gynnwys yn gymhleth.<br><br>Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'i bartneriaid i ddatblygu deunyddiau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys tudalen we newydd a thaflenni gwybodaeth i rieni. Mae'r deunyddiau hyn, a lansiwyd yn ddiweddar, bellach ar gael i'w defnyddio gan ysgolion, rhieni a sefydliadau eraill.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phenaethiaid yn nalgylch Bro Hyddgen ar ymgyrch fwy penodol i rannu gwybodaeth gyda rhieni / rhanddeiliaid eraill yn lleol. |
| 19.4.5 | Teimlaf y gallech gyfleu'r negeseuon yn llawer cliriach, yng ngham presennol yr ymgynghoriad, ac yn y cam nesaf. Mae angen enghreifftiau 'bywyd go iawn' arnom o sut y bydd yn effeithio ar blant. Y math o gwestiynau y bydd pobl yn eu gofyn yw, a fydd fy mhlentyn yn cael trafferth oherwydd diffyg cymorth ar ôl ysgol. Gwyddom y bydd cymorth ar gael, ond ni fydd pob rhiant yn gwybod hyn. | Fel yr uchod. |

## 20. CYFEIRIO AT STRATEGAETH TRAWSNEWID ADDYSG Y CYNGOR

| | | |
|---|---|---|
| 20.1 | Yn Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys, dywedwch yn y rhagair eich bod eisiau cyflwyno newid a fydd o fudd i'n dysgwyr i gyd. Gobeithio na fydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig ar gyfer YBH ac yn cydnabod, nid yn unig na fydd yn effeithio o gwbl ar fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Ddyfi ond hefyd, yn sicr, na fydd o fudd i'n dysgwyr i gyd ac y bydd yn niweidiol i lawer o ddisgyblion. | Mae'r cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn cael ei gyflwyno gyda'r nod o wella cyfleoedd dysgu i ddysgwyr yn y dyfodol.<br><br>Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor yn disgrifio nod clir o wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r cynnig presennol ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen yn cael ei gyflwyno er mwyn gweithredu'r nod hwn ynghyd ag amcan y Strategaeth o symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith. |
| 20.2 | Rwy'n deall bod y cynnig hwn yn rhan o Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys. Yn y ddogfen hon rydych yn adnabod yr heriau sy'n wynebu addysg yn y Sir ac yn cydnabod yr anghydraddoldeb o ran mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Rydych yn cydnabod bod lefel yr addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn dipyn o lotri cod post ac mae'n gwbl glir o'ch data bod gwahaniaeth mawr yng nghanran y disgyblion cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd ym Mhowys. Fodd bynnag rydym yn hynod falch o weld mai gan YBH y mae'r ganran uchaf o blant cyfrwng Cymraeg, sef 76%. Synnais o weld mai Ysgolion Uwchradd y Drenewydd a'r Trallwng yw'r ysgolion uwchradd gyda'r ganran isaf sef 0%.<br><br>Pan arolygwyd YBH yn 2017, dywedodd Estyn: Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg gael astudio pob pwnc, heblaw am Ffrangeg, drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 a CA4.<br><br>Felly o gofio hyn, ni allaf ddirnad o gwbl pam fod y Cyngor yn targedu YBH i gyflawni eu nod o wella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol. Mae YBH yn cynnig darpariaeth ragorol i blant cyfrwng Cymraeg. Ni fyddai symud yr ysgol ar hyd y continwwm iaith felly'n gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg oherwydd mae ganddynt eisoes fynediad llawn at astudio pob pwnc yn Gymraeg. Ydy'r Cyngor yn ddiffuant gyda'r nod strategol | Noda'r Cyngor y sylwadau am Ysgolion Uwchradd y Drenewydd a'r Trallwng. Mae'r ddwy ysgol yma'n ysgolion uwchradd un ffrwd – cyfrwng Saesneg – felly nid yw'n syndod nad oes plant yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg ynddynt. Mae disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd traddodiadol Ysgolion Uwchradd y Drenewydd a'r Trallwng, sy'n dymuno derbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, yn teithio i ysgolion mewn trefi eraill, yn benodol i Ysgol Uwchradd Caereinion ac Ysgol Uwchradd Llanidloes, ysgolion dwy ffrwd y ddwy ohonynt.<br><br>Noda'r Cyngor y sylwadau a wnaed gan Estyn yn eu harolygiad o YBH yn 2017. Nid y ddarpariaeth pwnc cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Hyddgen yw'r rheswm pam fod y Cyngor yn cynnig newid categori iaith yr ysgol.<br><br>Yn ogystal â'r cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu nifer o gynigion eraill i weithredu'r nodau a'r amcanion o ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhowys ac amlinellir y rhain yn y Strategaeth Trawsnewid Addysg. Os gweithredir hwynt, byddai'r cynigion hyn yn arwain at gyfleoedd gwell i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg uniaith yn y sector cynradd ac uwchradd ar draws Powys. |

| | | |
|---|---|---|
| | hwn? Os ydych, oni ddylech ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sy'n darparu dim neu fawr ddim addysg cyfrwng Cymraeg a symud yr ysgolion hyn ar draws y continwwm iaith. Mae'n ffars bron eich bod yn targedu Ysgol Bro Hyddgen. | |
| 20.3 | Dylid defnyddio Ysgol Bro Hyddgen fel peilot cyn cyflwyno'r un newidiadau ar draws ysgolion Powys. Hoffwn weld y Cyngor yn ymrwymo'n gryf i weithredu cynigion tebyg ar draws y Sir. Bydd hyn yn arwain at fwy o gyfleoedd, swyddi, pynciau a gweithgareddau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg. | Nodwn y sylw. Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor yn cynnwys nod o wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Fel rhan o'r nod hwn, mae'r Cyngor yn cynnwys amcanion strategol i symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith a datblygu darpariaeth gynradd ac uwchradd newydd.<br><br>Yn ogystal â'r cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu nifer o gynigion eraill i weithredu'r nodau a'r amcanion hyn. Os gweithredir hwynt, byddai'r cynigion hyn yn arwain at gyfleoedd gwell i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg uniaith yn y sector cynradd ac uwchradd ar draws Powys. |
| 20.4 | Dylai'r Cyngor ystyried symud pob ysgol uwchradd a phob ysgol gynradd ar hyd y continwwm tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 20.5 | Cytunaf yn llawn â strategaeth y Cyngor i drawsnewid addysg ym Mhowys (gan ddilyn argymhellion Estyn) er mwyn gwella addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol ac ar draws y continwwm iaith. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion o bob cefndir gael bod yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | |

## 21. BEIRNIADU'R CYNGOR

### 21.1 Beirniadaeth gyffredinol o'r Cyngor

| | | |
|---|---|---|
| 21.1.1 | Mae'r cynnig hwn yn ymddangos i fod y cyntaf o ddulliau tebyg eraill ar hyd a lled Powys. Bydd hyn, heb os, yn cael ei wrthod. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn y gorffennol wedi gwadu bod cynlluniau o'r fath ar y gweill pan oedden nhw'n cynnig ac ymgynghori, mor ddiweddar, ar sefydlu Ysgol Bro Hyddgen. Naill ai roedd y gwadu hwnnw'n anghywir neu roedd yn ddatganiad annibynadwy am y bwriadau tymor byr i ganolig. | Nid yw'n wir fod y cynnig hwn y cyntaf o ddulliau tebyg eraill ar hyd a lled Powys. Mae'r cynnig hwn, a chynigion eraill sy'n cael eu rhoi gerbron, yn cael eu cyflwyno er mwyn gweithredu Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor ym Mhowys.<br><br>Roedd categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn fater a gododd yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2013 i uno Ysgol Gynradd Machynlleth ac Ysgol Bro Ddyfi. Er na chynigiodd y Cyngor unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol bryd hynny, yn y papur a ystyriwyd gan y Cabinet ar 1 Hydref 2013 dywedir mai bwriad y Cyngor, a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) presennol, yw asesu'r posibilrwydd o symud ymlaen at ysgol Categori 2A. Mae'r bwriad o adolygu categori iaith yr ysgol wedi parhau i gael ei gynnwys yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor byth ers hynny. |
| 21.1.2 | Methodd y Cyngor ag anrhydeddu addewidion a wnaeth pan unodd yr ysgolion ac erbyn hyn, fel cymuned, mae ein dwylo wedi eu clymu heb fawr ddim dewis gennym ond mynd yn gyfrwng Cymraeg i achub ein darpariaeth addysg leol. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 21.1.3 | Dylai'r Cyngor anrhydeddu'r addewidion a wnaeth pan unodd yr ysgolion i sefydlu ysgol ddwyieithog pob oed. | Fel yr uchod. |
| 21.1.4 | Rhoddwyd gwybodaeth anghywir i rieni'n ein sicrhau y byddai hon yn aros yn ysgol ddwyieithog, ond mae'r Cyngor wedi dweud mai cyfrwng Cymraeg fydd hi. Sut y gall pobl leol lunio barn iawn heb y ffeithiau. RHAID edrych ar hyn cyn gynted â phosib. | Mae'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd fel rhan o'r cynnig hwn yn glir iawn bod y cynnig a ymgynghorir arno fel a ganlyn:<br><br>• Gwneud addasiadau rheoledig i newid cyfrwng yr addysg yn Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg.<br>• Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol o un flwyddyn i'r llall gan ddechrau gyda Blwyddyn Derbyn ym Medi 2022. |
| 21.1.5 | Hoffai'r Cyngor fynegi ein pryder ynghylch y diffyg eglurder gyda'r ffordd y cyflwynwyd y newidiadau sydd mewn golwg, a'r datganiadau anghyson i bob golwg a wnaed gan Gyngor Sir Powys. Arweiniodd hyn at drafferthion i rieni a'r gymuned o ran mynegi barn am y newidiadau sydd mewn golwg. | Fel yr uchod. |
| 21.1.6 | Mae Cyngor Powys wedi bod yn cwtogi'n barhaus yn y blynyddoedd diwethaf ar gyfleoedd a gwasanaethau ym Machynlleth a hon fydd yr hoelen olaf yn yr arch. | Nid yw'r Cyngor yn derbyn y datganiad hwn. Ochr yn ochr â'r cynnig presennol i newid categori iaith yr ysgol, mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer campws cymunedol newydd ym Machynlleth yn lle'r adeiladau presennol yn Ysgol Bro Hyddgen, a darparu cyfleusterau cymunedol newydd. Hwn fydd y campws cymunedol cyntaf o'i fath ym Mhowys, gyda chyllid cymeradwy o £48,250,369. |
| 21.1.7 | Gwyddom mai bwriad y Cyngor yw cau ysgolion llai – beth am sefydlu'r ysgol cyfrwng Cymraeg yng Ngharno.... | Yn Ebrill 2020, cytunodd y Cyngor ar Strategaeth newydd i Drawsnewid Addysg ym Mhowys, a |

| | | |
|---|---|---|
| | Gadewch lonydd i'n hysgol ni...rhaid i ni deithio i Aberystwyth yn barod am iechyd a gwaith – rydych nawr yn gorfodi ein plant i deithio ar fws am 20 milltir bob ffordd, bob dydd.... Fel y gallwch gael ysgol Gymraeg newydd sbon danlli grai HOLLOL WAG | ddatblygwyd i adlewyrchu pryderon wedi eu hadnabod gan Estyn ynghylch ad-drefnu ysgolion ym Mhowys.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithredu ystod o gynigion sy'n effeithio ar ysgolion ar draws Powys. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig i sefydlu ysgol pob oed, cynigion i uno tair ysgol o faint canolig i greu un ysgol fwy, cynigion sy'n effeithio ar ysgolion llai ar draws y Sir, a chynigion i newid categori iaith ysgol. Mae'r cynigion hyn i gyd yn cael eu cyflwyno er mwyn gweithredu Strategaeth Trawsnewid Addysg Powys ac i ateb y pryderon a godwyd gan Estyn.<br><br>Mae'r cynnig yn un i gyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn y ddarpariaeth hon tan iddynt adael yr ysgol. Byddai unrhyw blant newydd yn dechrau'r ysgol yn gallu derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau'r ysgol, felly byddent wedi trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg a byddai ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol yn arwain at ysgol newydd sbon danlli grai hollol wag. Fel y noda'r ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn:<br><br>*'Mae'n bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at leihad yn nifer y disgyblion oherwydd na fyddai* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *disgyblion o'r tu allan i'r sir sydd ar hyn o bryd yn derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol mwyach yn dewis dod i'r ysgol, neu gallai disgyblion o'r ardal leol ddewis mynychu darparwyr cyfrwng Saesneg eraill.*<br><br>*Fodd bynnag, mae hefyd yn bosib y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion dros y tymor hirach, wrth i ddisgyblion o ardaloedd eraill ddewis mynychu'r ysgol. Gallai hyn ddigwydd gyda'r ddarpariaeth uwchradd yn enwedig.'* |
| 21.1.8 | Nid oes gan yr iaith Gymraeg statws uchel iawn yng Nghyngor Sir Powys, mae hwn yn gam pwysig ymlaen i'r Cyngor sy'n dangos eu bod yn dechrau trin yr iaith gyda mwy o barch nag a ddangosodd tuag ati yn y gorffennol. | Nodwn y sylw. |
| 21.1.9 | Dylai Cyngor Powys ganolbwyntio ar gynyddu safonau ac allbwn addysgol (yn enwedig o ystyried sgoriau PISA gwael Cymru) yn lle ar y saernïo cymdeithasol hwn. Mae ardal Machynlleth yn gwbl abl i gynyddu'r iaith Gymraeg heb orfodi hyn arnom, fel sydd i'w weld o'r hyfedredd gymharol uchel yn y Gymraeg.<br><br>Nu ddylai'r iaith Gymraeg orfod dibynnu ar y wlad i'w gwarchod – mae gan bawb sydd eisiau i'r iaith ffynnu ddyletswydd i wneud rhywbeth am y peth eu hunain drwy ei defnyddio y tu allan i sefydliad addysgol. Dengys ymchwil fod defnydd o'r Gymraeg yn lleihau pan fydd pobl yn gadael yr ysgol, gan gynnwys gyda siaradwyr fel fi. Defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael addysg sydd angen sylw, nid y rhesymu ffuantus presennol, fydd ond yn brifo eraill.0} | Mae'r Cyngor yn anghytuno mai saernïo cymdeithasol yw'r cynnig hwn. Nod y cynnig yw sicrhau y gall Ysgol Bro Hyddgen barhau i gynnig addysg o ansawdd uchel i'w holl ddysgwyr yn y dyfodol, a sicrhau bod gan ei disgyblion i gyd gyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog yn y ddwy iaith.<br><br>Arolygodd Estyn Wasanaeth Addysg y Cyngor yn 2019 ac ers hynny mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad yn canolbwyntio ar wella'r materion y tynnodd Estyn sylw atynt, gan gynnwys safonau a chanlyniadau. Mae ffocws Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor ar wella hawliau a phrofiadau dysgwyr ar draws pob sector. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac un o ddyheadau Llywodraeth Cymru yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Cyngor yn gwbl gefnogol i'r dyhead hwn ac yn cytuno bod angen sicrhau cyfleoedd y tu allan i ysgolion fel bod pobl yn gallu parhau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. |
| 21.1.10 | Rwy'n poeni na fydd y sir yn darparu digon o gymorth neu'n dechrau drwy addo digon o gymorth ond na fydd yn parhau. | Os gweithredir y cynnig hwn, bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth i'r ysgol. |

**21.2 Cymhariaeth rhwng Powys a Chynghorau / ardaloedd eraill**

| | | |
|---|---|---|
| 21.2.1 | Mae'n bryd i Bowys ddal i fyny â gweddill Cymru. | Mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol bod diffyg addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhowys o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor yn cynnwys nod i wella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol, er mwyn gwella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir a sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn gymharol i'r hyn sydd ar gael i ddysgwyr mewn rhannau eraill o Gymru. |
| 21.2.2 | Nid oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys a dim ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Machynlleth. Rhaid i rieni anfon eu plant i Geredigion i dderbyn y ddarpariaeth hon. | Fel yr uchod. |
| 21.2.3 | Mae'n hen bryd i'r Cyngor ddilyn esiampl siroedd cyfagos fel Gwynedd neu, yn y dyfodol, bydd rhieni'n dewis ysgolion y tu allan i Bowys, e.e. Gwynedd. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 21.2.4 | Mae angen i ni ddilyn esiampl Gwynedd, mae'r system yno'n gweithio ac yn amhrisiadwy. | Fel yr uchod. |
| 21.2.5 | Meddyliwch am lwyddiant ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd eraill. | Fel yr uchod. |
| 21.2.6 | Edrychwch ar esiamplau o ymarfer da mewn ardaloedd eraill, a rhannu'r enghreifftiau llwyddiannus hynny gyda phobl Bro Ddyfi i dderbyn cefnogaeth i'r newid hwn. | Fel yr uchod. |
| 21.2.7 | Mae hyrwyddo dwyieithrwydd yn bwysig, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn rhannau eraill o Gymru'n gwneud hyn yn llwyddiannus. | Fel yr uchod. |
| 21.2.8 | Mae angen i chi roi'r cynnig hwn yn ei gyd-destun cenedlaethol. Fe ddywedoch ar y dechrau fod Powys ymhell ar ei hôl hi lle mae addysg cyfrwng Cymraeg yn y cwestiwn, felly pan fydd pobl yn ofni cofleidio newid, mae'n bwysig pwysleisio bod Powys yn llusgo ar ôl beth sydd eisoes yn digwydd yn llwyddiannus mewn rhannau eraill o Gymru. Mae angen i bob sefydliad addysgol ym Mhowys addysgu disgyblion fel eu bod yn gwbl rugl yn y ddwy iaith. | Fel yr uchod. |

**21.3 Beirniadaeth o'r Cynghorydd Elwyn Vaughan**

| | | |
|---|---|---|
| 21.3.1 | Dylech gael gwared ar y Llywodraethwr gwenwynig Elwyn Vaughan a anfonodd lythyr ofnadwy i fynd adref ym magiau'r plant yn dweud wrth rieni di-Gymraeg am ddysgu'r Gymraeg os ydyn nhw'n symud yma... neu fynd yn ôl i lle y daethant... | Rhaid i unrhyw gwynion yn erbyn llywodraethwyr ddilyn y weithdrefn gwyno briodol.<br><br>Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am gynghorydd sir at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 21.3.2 | Credaf fod y Cynghorydd Elwyn Vaughan wedi camarwain rhieni pan anfonodd, yn honedig, lythyr at rieni plant yr ysgol; y byddai addysgu'n digwydd drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg. | Mater i'r Cynghorydd Vaughan fyddai hyn. |
| 21.3.3 | Dylech gael gwared ar y Llywodraethwr Elwyn Vaughan a anfonodd lythyr ofnadwy i fynd adref ym magiau ysgol ein plant. | Fel yr uchod. |
| 21.3.4 | Mae'n anghywir ar bob ystyr a'n warthus bod y Cynghorydd Vaughan yn mynd o gwmpas yn dweud celwyddau wrth y cyhoedd. Nid yw'n gwneud dim ond creu rhaniadau, rhaid stopio hyn nawr. | Fel yr uchod. |

## 22. CYFEIRIO AT OPSIYNAU ERAILL

### 22.1 Cadw pethau fel y maent

| | | |
|---|---|---|
| 22.1.1 | Byddai cadw pethau fel y maen nhw'n rhoi cyfle i bobl ddysgu yn iaith eu dewis. Ar y funud, mae cyfle cyfartal i bawb. | Nodir y sylwadau hyn. Fodd bynnag, mae'r trefniant dwy ffrwd presennol yn creu nifer o heriau i Ysgol Bro Hyddgen, heriau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn. |
| 22.1.2 | Credaf y dylai Ysgol Bro Hyddgen barhau i weithredu fel ysgol dwy ffrwd. Mae'r ddarpariaeth yn briodol ar gyfer ardal lle mae dros hanner y teuluoedd yn gyfrwng Saesneg a bron i draean y disgyblion yn dewis cael eu haddysg drwy'r ffrwd Saesneg ar hyn o bryd. | Fel yr uchod. |
| 22.1.3 | Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar hyn o bryd; mae mantais wirioneddol o | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | gynorthwyo'r myfyrwyr yn y naill iaith neu'r llall. Pam culhau sgôp yr ysgol a'r [iaith] yn cael ei defnyddio drwy'r ysgol. | |
| 22.1.4 | Credaf fod lle i ysgolion dwy ffrwd a darpariaeth dwy ffrwd, yn enwedig os nad oes ysgolion cyfrwng Saesneg eraill o fewn pellter rhesymol. Rwy'n gwerthfawrogi a deall natur ddwyieithog a chefnogol yr ysgol fel y mae ar hyn o bryd; lle mae opsiwn i dderbyn addysg gwbl Gymraeg os dymunir a lle bo'n briodol. | Fel yr uchod. |
| 22.1.5 | Os bydd y ddwy ffrwd yn aros, bydd y plant yn parhau i ddysgu drwy'r ffrwd Gymraeg. Ac yn dysgu Cymraeg yn y ffrwd Saesneg. | Nodwn y sylw. Fodd bynnag, mae'r trefniant dwy ffrwd presennol yn creu nifer o heriau i Ysgol Bro Hyddgen, heriau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn.<br><br>Er bod disgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn dysgu Cymraeg fel ail iaith, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod yn rhugl yn Gymraeg o astudio Cymraeg fel ail iaith. Nod y cynnig i newid categori iaith yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cael cyfle i fod yn hollol ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, erbyn iddynt adael yr ysgol. |
| 22.1.6 | Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiogel ac i'w ddathlu yn yr ysgol, yn wir mae canran y plant sy'n ei dderbyn yn cwrdd yn foddhaol â disgwyliadau Estyn. Byddai'n fwy manteisiol i Bowys pe bai'n cyflwyno mwy o addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd gyda llai o boblogaeth Gymraeg; ni all ac ni ddylai Machynlleth fod yn ymarfer ticio bocs i Bowys! | Nodir y sylwadau hyn. Fodd bynnag, mae'r trefniant dwy ffrwd presennol yn creu nifer o heriau i Ysgol Bro Hyddgen, heriau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn.<br><br>Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor yn cynnwys nod o wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Fel rhan o'r nod hwn, mae'r Cyngor yn cynnwys amcanion |

| | | |
|---|---|---|
| | | strategol i symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith a datblygu darpariaeth gynradd ac uwchradd newydd.<br><br>Yn ogystal â'r cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu nifer o gynigion eraill i weithredu'r nodau a'r amcanion hyn. Os gweithredir hwynt, byddai'r cynigion hyn yn arwain at gyfleoedd gwell i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg uniaith yn y sector cynradd ac uwchradd ar draws Powys. |
| 22.1.7 | [Dylid] cadw'r statws presennol ac adolygu'r broses recriwtio athrawon yn yr ysgol gan wneud yn siŵr nad oes rhagfarn o blaid recriwtio dim ond athrawon Cymraeg eu hiaith. | Mae'r trefniant dwy ffrwd presennol yn creu nifer o heriau i Ysgol Bro Hyddgen, heriau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn.<br><br>Mae athrawon yr ysgol yn ddwyieithog ac yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| 22.1.8 | [Dylid] gwneud y ddarpariaeth bresennol yn gynaliadwy a mwy effeithiol, gyda mwy o athrawon iaith Saesneg a chymorth cryfach i rai yn y ffrwd Saesneg sydd eisiau, ac sy'n gallu, dod yn ddwyieithog. | Mae'r trefniant dwy ffrwd presennol yn creu nifer o heriau i Ysgol Bro Hyddgen, heriau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn.<br><br>Mae athrawon yr ysgol yn ddwyieithog ac yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg, felly ni ddylai fod angen athrawon iaith Saesneg ychwanegol yn yr ysgol.<br><br>Er bod disgyblion sy'n derbyn addysg ffrwd Saesneg yn dysgu Cymraeg fel ail iaith, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod yn rhugl yn Gymraeg o astudio Cymraeg fel ail iaith. Nod y cynnig i newid categori iaith yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cael cyfle i fod yn hollol |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, erbyn iddynt adael yr ysgol. |

## 22.2 Gweithredu'r newid yn gynt

| | | |
|---|---|---|
| 22.2.1 | Bydd cyflwyno'r cynnig yn raddol, drwy gymaint o amser, yn arafu'r broses o weld y manteision i gapasiti a gallu yn yr iaith Gymraeg. | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn am faint o amser y byddai'n ei gymryd i weithredu'r newid i gategori iaith yr ysgol yn llawn, pe bai'r Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig.<br><br>Y cynnig yw cyflwyno unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol yn raddol, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn YBH ar hyn o bryd, drwy sicrhau eu bod yn gallu parhau i dderbyn darpariaeth yn yr ysgol.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol i adnabod y cymorth ychwanegol sydd ei angen i gynorthwyo'r broses o bontio i'r model newydd. Gallai hyn gynnwys rhoi cyfle i'r disgyblion presennol fynd ar gyrsiau trochi fel y gallent drosglwyddo'n gynt i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn gallu gweithredu'r newid yn llawn yn gynt. |
| 22.2.2 | Dyma'r unig opsiwn ond mae'n broses hir. | Fel yr uchod. |
| 22.2.3 | Mae'n bechod y bydd yn cymryd gymaint o amser. | Fel yr uchod. |
| 22.2.4 | Mae'r cynnig yn dda ond y broses yn llawer rhy hir. | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 22.2.5 | Rwy'n poeni bod y broses mor hir, a fyddai'n bosib ei wneud yn gynt? | Fel yr uchod. |
| 22.2.6 | Rwy'n poeni y bydd yn cymryd mor hir. Bydd yn 2035 cyn y bydd darpariaeth 7-13 lawn yn y dref. | Fel yr uchod. |
| 22.2.7 | Mae'n bwysig achub ar bob cyfle i gyflymu'r broses o newid statws iaith yr ysgol. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i blant aros yn rhy hir. | Fel yr uchod. |
| 22.2.8 | Bydd yn cymryd amser hir i weithredu'r cynnig ar draws yr ysgol, dros 10 mlynedd. A oes ffordd i wneud hyn yn gynt? | Fel yr uchod. |
| 22.2.9 | [Dylid] cyflymu'r broses. Ar hyn o bryd bydd llawer o blant yn colli allan ac ni fydd y plant yn yr ardal ar hyn o bryd yn elwa o ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 22.2.10 | Byddai'n well gen i weld proses gynt a llai graddol ond rwy'n deall pam fod hyn yn digwydd a'i bwrpas o ran tawelu ofnau rhieni'r disgyblion presennol. | Fel yr uchod. |
| 22.2.11 | Mae'r cyfnod pontio hir yn bygwth effeithlonrwydd addysg cyfrwng Cymraeg. A allai hyn ddigwydd yn gynt, gyda mwy o gymorth? | Fel yr uchod. |
| 22.2.12 | Gallai'r newid ddigwydd yn gynt fel bod plant yn y dalgylch ar hyn o bryd yn elwa o'r newid ac o'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd cyffrous fydd ar gael i blant yr ardal yn y dyfodol. | Fel yr uchod. |
| 22.2.13 | Mae'n bechod y byddai newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, pe bai'n cael ei gymeradwyo, yn cymryd tua naw mlynedd hyd nes y byddai blynyddoedd 7-9 ar y campws | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | uwchradd yn gweld gwahaniaeth. Yn fy marn i, mae'n llawer rhy hir. Mae'r plant a'u rhieni'n barod am y newid hwn nawr, nid mewn naw mlynedd arall. | |
| 22.2.14 | [Dylid] newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen i fod yn gyfrwng Cymraeg yn syth, neu'n llawer cynt nag a gynigir. | Fel yr uchod. |
| 22.2.15 | Mae'n bechod y bydd yn cymryd tua 10 mlynedd i'r campws uwchradd weld gwahaniaeth, a bydd yn rhaid i ysgolion fel Llanbrynmair a Glantwymyn gymryd cam yn ôl hyd nes y bydd cyfnod cynradd Ysgol Bro Hyddgen yn dal i fyny. Mae hyn yn drueni mawr. Byddwn yn argymell bod y Cyngor yn mynd gam ymhellach a gadael i ddisgyblion y ffrwd Gymraeg dderbyn eu haddysg yn eu hiaith gyntaf o 2022 ymlaen wrth ddechrau blwyddyn 7. | Cafodd yr opsiwn o newid cyfrwng iaith yr uwchradd ar yr un pryd â'r cynradd ei ystyried wrth ddatblygu'r cynnig presennol ond penderfynwyd nad hynny a fyddai'r opsiwn a ffafrir oherwydd yr effaith bosib ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn YBH ar hyn o bryd. |
| 22.2.16 | [Dylid] newid categori iaith yr ysgol uwchradd yn syth. | Fel yr uchod. |
| 22.2.17 | Ar ôl darllen yr opsiynau sydd ar gael, credaf y dylid hefyd ystyried opsiwn 5C yn llawn. Os oes plant sy'n mynd i'r ysgolion lleol ac sy'n rhugl yn Gymraeg ac ar fin mynd i'r uwchradd, pam nad oes cyfle iddynt elwa o'r cyfle hwn ym mlwyddyn 7? | Fel yr uchod. |
| 22.2.18 | [Dylid] cyflwyno'r newid flwyddyn yn gynt – blwyddyn derbyn yn 2021. | Mae'n annhebygol y bydd y broses statudol sy'n rhaid ei dilyn i newid categori iaith yr ysgol wedi dod i ben erbyn Medi 2021, felly ni fydd yn bosib dechrau cyflwyno'r newid o fis Medi 2021 ymlaen. |

## 22.3 Cyllid ychwanegol

| | | |
|---|---|---|
| 22.3.1 | [Dylid] ariannu'r ffrwd Saesneg yn deg fel nad oes angen addysgu yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. | Mae'r Cyngor yn ariannu ysgolion yn ôl fformiwla gyllid a gytunir â'n hysgolion, i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu ar draws yr holl ysgolion ar sail data cadarn a gwrthrychol, fel nifer y disgyblion. Mae ysgolion dwy ffrwd yn cael eu hariannu mewn gwirionedd fel dwy ysgol fach ar gyfer elfen addysgu a dysgu'r fformiwla, gyda'r unig leihad mewn cyllid yn ymwneud â chostau sy'n cael eu rhannu, fel y Pennaeth. |
| 22.3.2 | [Dylid] agor ysgol gynradd i blant cyfrwng Saesneg / dysgwyr Cymraeg ac ariannu uned Saesneg yn yr uwchradd. Sut y mae Ysgol Uwchradd Llanidloes yn ariannu'r uned Gymraeg yno? | Ysgol dwy ffrwd debyg i Ysgol Bro Hyddgen yw Ysgol Uwchradd Llanidloes. Mae'n cael ei hariannu ar sail fformiwla gyllid ysgolion y Cyngor, mewn ffordd debyg i Ysgol Bro Hyddgen. |
| 22.3.3 | Rhaid hefyd ystyried beth y gellir ei wneud gyda mwy o gyllid (refeniw) fel bo'r plant yn cael cynnig dewis eang o bynciau a chyfle i ffynnu. | Nodwn y sylw. |
| 22.3.4 | [Dylech] fod yn edrych ar ariannu Bro Hyddgen yn well a chyfleoedd gwell i'r ysgol, er y gallai olygu bod ysgolion llai yn y dalgylch yn gorfod cau. | Nodwn y sylw. |
| 22.3.5 | Dylid ariannu'r ddwy ffrwd yn deg. Ar hyn o bryd gall yr ysgol ariannu un athro/athrawes i bob 30 o ddisgyblion, ym mha bynnag iaith sydd angen eu haddysgu. Pe bai'r ffrwd Saesneg yn ysgol fach wledig, byddai mwy o arian i'r disgyblion. | Mae'r Cyngor yn ariannu ysgolion yn ôl fformiwla gyllid a gytunir â'n hysgolion, i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu ar draws yr holl ysgolion ar sail data cadarn a gwrthrychol, fel nifer y disgyblion. Mae ysgolion dwy ffrwd yn cael eu hariannu mewn gwirionedd fel dwy ysgol fach ar gyfer elfen addysgu a dysgu'r fformiwla, gyda'r unig leihad mewn cyllid yn ymwneud â chostau sy'n cael eu rhannu, fel y Pennaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 22.3.6 | [Dylid] ariannu'r ddwy ffrwd iaith yn ddigonol i barhau i redeg yr ysgol fel un ddwy ffrwd. [Dylid] rhoi'r gorau i wthio darpar rieni newydd i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. | Fel yr uchod.<br><br>Nid oes gan y Cyngor unrhyw dystiolaeth bod darpar rieni'n cael eu gwthio i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. |
| 22.3.7 | [Dylai] Powys gytuno i ariannu'r ysgol yn iawn. | Fel yr uchod. |
| 22.3.8 | [Dylid] ariannu statws dwy ffrwd yr ysgol yn deg i atal y corff llywodraethu rhag cael eu bwlio i orfod gwneud penderfyniadau eithafol fel hyn. | Fel yr uchod. Nid oes gan y Cyngor unrhyw dystiolaeth bod y corff llywodraethu wedi cael eu bwlio i wneud penderfyniadau eithafol fel hyn. |
| 22.3.9 | Credaf y dylai'r Cyngor ystyried rhoi cyllid digonol i YBH er mwyn rhoi'r cyfle i'r ysgol, y disgyblion a'u teuluoedd gael penderfynu drwy ba gyfuniad o ieithoedd y dylai disgyblion unigol dderbyn eu haddysg. | Fel yr uchod. |
| 22.3.10 | Os yw'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygiad addysgol ei bobl ifanc – bydd hyn ond yn gweithio os yw'r ysgol yn cael ei hariannu'n ddigonol (refeniw yn ogystal â chyfalaf) fel bod gan blant fynediad at ystod eang o bynciau a dewisiadau i ddatblygu eu haddysg. Mae addysgu gyda chyllideb ceiniog a dimai'n lladd yr ysgol. Fel rhiant gyda phlant mewn ysgol sy'n bwydo YBH, rwy'n poeni'n fawr iawn y bydd cyllid annigonol yr ysgol yn gwneud niwed i'w haddysg. | Fel yr uchod. |
| 22.3.10 | [Dylid] ariannu'r ysgol ar sail anghenion y disgyblion – nid ar sail yr un esgid i ffitio pawb. | Fel yr uchod. |

### 22.4 Gwella darpariaeth Cymraeg fel ail iaith

| | | |
|---|---|---|
| 22.4.1 | [Dylid] cael mwy o wersi Cymraeg yn y dosbarth Saesneg a helpu'r plant i gael Cymraeg fel ail iaith, a'i gwneud yn ddyletswydd iddi gael ei siarad yn y gwersi. Ni ddylent gael trafferth dysgu a chael eu haddysgu yn Gymraeg yn unig; bydd llawer yn cael trafferth heb gymorth y cartref gan fethu ag ennill y graddau y gallent eu hennill pe baent wedi gallu astudio mewn iaith fwy dealladwy iddynt. | Nid yw astudio Cymraeg fel ail iaith yn arwain at ddysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog. |
| 22.4.2 | Pe bai'r Cyngor yn dymuno hyrwyddo mwy ar y Gymraeg yn ein cymuned, efallai y dylent addysgu Cymraeg fel ail iaith ar lefel uwch o oedran iau ar gyfer y ffrwd Saesneg. Efallai y dylid darparu cyfleusterau ar ôl ysgol i blant Saesneg eu hiaith fynd gyda'u rhieni Saesneg eu hiaith i ddysgu Cymraeg ar lefel uwch. | Fel yr uchod. |
| 22.4.3 | O'r niferoedd nid yw hyn yn rhywbeth y mae lleiafrif cynyddol yn ei dderbyn – yn ôl eich ffigurau mae 30% o'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg. Oni fyddai'n well cryfhau'r cymorth iaith Cymraeg i rai yn y ffrwd Saesneg fel eu bod yn dod yn gwbl ddwyieithog, yn lle eu gorfodi i dderbyn eu haddysg yn rhywle arall. | Ym marn y Cyngor dylai fod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, gyfle i wella eu sgiliau drwy ddod yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru a gallu chwarae rhan lawn yn eu cymuned leol. |

**22.5 Darparu ysgol cyfrwng Saesneg**

| | | |
|---|---|---|
| 22.5.1 | [Dylid] darparu ysgol Saesneg yn unig ym Mro Ddyfi; ar hyn o bryd mae'r niferoedd ar y campws cynradd yn fwy na'r niferoedd mewn rhai ysgolion cynradd bach sy'n cynnig cyfrwng Cymraeg. | Nid yw'r niferoedd sy'n derbyn addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y dalgylch ar hyn o bryd yn dangos bod angen ysgol cyfrwng Saesneg yn y dalgylch. |

| | | |
|---|---|---|
| 22.5.2 | Oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr symud disgyblion ysgol Glantwymyn i Fachynlleth a rhedeg ysgol Glantwymyn fel ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, gyda'r opsiwn o fynd i Lanidloes ar gyfer addysg uwchradd dwy ffrwd? | Fel yr uchod. |
| 22.5.3 | [Dylid] agor ysgol gynradd i blant cyfrwng Saesneg / dysgwyr Cymraeg. | Fel yr uchod. |
| 22.5.4 | [Dylid] darparu addysg yn Saesneg i'r 50% o deuluoedd sydd eisiau i'w plant gael eu haddysgu yn eu mamiaith. | Fel yr uchod. |

**22.6 Opsiynau dwyieithog eraill**

| | | |
|---|---|---|
| 22.6.1 | [Dylid] cael ysgol ddwyieithog, ac wrth hynny rwy'n golygu 50/50 dwyieithog lle mae'r ddwy iaith yn cael eu parchu a'u defnyddio er budd holl blant yr ardal. | Dyma'r model ar waith yn Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r trefniant dwy ffrwd presennol yn creu nifer o heriau i Ysgol Bro Hyddgen, heriau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn. |
| 22.6.2 | Efallai y dylai'r ysgol gynradd fod yn Gymraeg yn unig. Ond dylai'r uwchradd barhau gyda'r ddwy? Neu o leiaf dylid cael rhyw fath o opsiwn i ddysgu pethau drwy gyfrwng y Saesneg pe bai angen! | Nodwn y sylw. Mae'r ddogfen ymgynghori ar y cynnig hwn wedi ystyried yr opsiwn i gadw'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr uwchradd, ond ni chafodd hyn ei adnabod fel yr opsiwn a ffafrir ar gyfer yr ysgol. |
| 22.6.3 | Yn lle cael gwared ar y ffrwd Saesneg yn yr ysgol gynradd, gellid ei galw'n 'uned iaith / ddwyieithog'. Byddai'r uned ar gael i ddisgyblion sy'n byw yn yr ardal dros dro, neu i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol na fyddai'n gallu ymdopi â dwy iaith. | Pe bai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai swyddogion yn gweithio gyda'r ysgol i adnabod a chyflwyno'r cymorth sydd ei angen i helpu unrhyw ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Bro Hyddgen, yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion a allai symud i'r ardal yn y dyfodol, p'un ai |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddai'r pynciau craidd yn parhau i gael eu haddysgu yn Saesneg, a'r pynciau ymarferol (cerdd, Addysg Gorfforol a Chelf) yn Gymraeg, yn ogystal â sioeau Nadolig, cyngherddau, gwasanaeth boreol, clybiau chwaraeon a gweithgareddau'r Urdd. Byddai angen cwrdd yn y canol ar gyfer pynciau eraill fel Addysg Grefyddol, Hanes a Daearyddiaeth.<br><br>Dylai'r ysgol uwchradd barhau i fod yn ddwyieithog, gyda'r disgyblion yn dewis a ydynt eisiau dysgu yn Gymraeg neu yn Saesneg neu mewn cyfuniad o'r ddwy iaith.0} | dros dro neu'n barhaol. Gallai hyn gynnwys addysg drochi a chymorth iaith Gymraeg arall i helpu'r plant i ddysgu'r sgiliau Cymraeg a fyddai ei angen arnynt i dderbyn addysg yn yr ysgol. |
| 22.6.4 | [Dylid] addysgu pynciau Dyniaethau yn Gymraeg. [Dylid] addysgu pynciau eraill fel Gwyddoniaeth a Mathemateg yn Saesneg oherwydd dyma iaith gyffredinol y pynciau hyn. | Mae Ysgol Bro Hyddgen eisoes yn addysgu Mathemateg a phynciau Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ennill dealltwriaeth o derminoleg pwnc-benodol yn Gymraeg a Saesneg yn rhan naturiol o addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ychwanegu at ddealltwriaeth y disgyblion o'r cysyniadau. |

**22.7 Sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn rhywle arall**

| | | |
|---|---|---|
| 22.7.1 | Os oes raid i Bowys gael ysgol cyfrwng Cymraeg am resymau gwleidyddol, dylai fod yn rhywle canolog yn y Sir i ddarparu ar gyfer disgyblion ar draws y Sir sy'n dymuno derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. | Mae Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor yn cynnwys nod o wella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Fel rhan o'r nod hwn, mae'r Cyngor yn cynnwys amcanion strategol i symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith a datblygu darpariaeth gynradd ac uwchradd newydd.<br><br>Yn ogystal â'r cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu nifer o gynigion eraill i weithredu'r nodau a'r amcanion hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os gweithredir hwynt, byddai'r cynigion hyn yn arwain at gyfleoedd gwell i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg uniaith yn y sector cynradd ac uwchradd ar draws Powys. |
| 22.7.2 | [Dylid] symud yr ysgol cyfrwng Cymraeg i fod yng nghanol Powys i sicrhau tegwch; mae ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael 18 milltir o Fachynlleth, ble y mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf i Landrindod? | Fel yr uchod. |

**22.8 Awgrymiadau eraill**

| | | |
|---|---|---|
| 22.8.1 | Mae'n bwysig bod addysg wedi'i ariannu ar gyfer plant 3-4 oed yn newid i adlewyrchu statws iaith yr ysgol. Mae hwn yn gam sydd angen ei gymryd yn syth os yw'r Cyngor eisiau cyflwyno'r newid hwn o fis Medi 2022 ymlaen. Ni fyddai angen addysg yn Saesneg i blant 3-4 yn y dref o gwbl, a byddai angen rhoi cymorth ychwanegol i Gylch Meithrin Machynlleth i dderbyn mwy o blant yn dilyn y newid hwn. | Mae'r Cyngor yn cyflawni ymarfer tendro i ddarparu'r addysg wedi'i ariannu i blant 3-4 oed. Bydd y rownd nesaf o dendro'n digwydd yn Awst 2022 pryd y byddwn yn penderfynu sut fath o ddarpariaeth fydd yn cael ei hariannu ym Machynlleth ar ôl hynny. |
| 22.8.2 | [Dylai] yr ysgol gael ei rhedeg yn dda gan roi blaenoriaeth gyfartal i'r ddwy iaith a rhoi'r gorau i israddio'r dosbarthiadau Saesneg a fu'n digwydd ers blynyddoedd, gyda pholisi bron o fygwth rhieni i roi eu plant yn y ffrwd Gymraeg. | Nodwn y sylw. |
| 22.8.3 | A oes sgôp i addysgu plant mewn grwpiau blwyddyn cyfun fel bo'r dosbarthiadau'n fwy – ac o ystyried bod y cwricwlwm yn fodiwlaidd, dylai hynny ganiatáu i'r plant ddilyn cwricwlwm ehangach a chaniatáu hefyd ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg a Saesneg yn unig? e.e. cynefino ym mlwyddyn 7, wedyn (bl. | Nodwn y sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | 8 a 9) (10 ac 11) a (12 a 13). | |